# Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (2022)

**Dyddiad Cyflwyno: 22 Chwefror 2022**
**Dyddiad Cyhoeddi: Mehefin 2024**

# Contents


1 Crynodeb Gweithredol .......... 1

2 Cyflwyniad .......... 2

3 Y Cyd-destun Polisi .......... 3

3.1 Y Cyd-destun Polisi Cenedlaethol: Deddfwriaeth a Chanllawiau .......... 3

3.2 Y Cyd-destun Polisi Lleol .......... 9

4 Cefndir .......... 15

4.1 Y Ddarpariaeth Lety Gyfredol .......... 15

4.2 Canfyddiadau'r GTAA blaenorol .......... 16

4.3 Data Poblogaeth a Nifer y Carafannau .......... 18

5 Methodoleg .......... 24

5.1 Methodoleg yr Astudiaeth .......... 24

5.2 Grŵp Llywio'r Prosiect ac Ymgynghori .......... 24

6 Canfyddiadau'r Arolwg .......... 33

6.1 Cyfweliadau ag Aelwydydd .......... 33

6.2 Proffil Demograffig .......... 35

6.3 Addasrwydd y Llety Presennol .......... 39

6.4 Dyheadau o ran Llety .......... 41

6.5 Twf Aelwydydd .......... 42

7 Asesu Anghenion Llety .......... 44

7.1 Anghenion Preswyl sydd heb eu Diwallu .......... 44

7.2 Anghenion Tramwy sydd heb eu Diwallu .......... 51

8 Casgliadau .......... 54


## Atodiadau


Appendix A: A - Poster/Taflen GTAA 2022 (Saesneg a Chymraeg) .......... 56

Appendix B: B - Rhestr Termau.......... **58**
Appendix C: C - Log Cyfweliadau.......... **60**

## Crynodeb Gweithredol

**1.0.1** Mae Rhan 3 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar bob Awdurdod Tai Lleol yng Nghymru i gynnal Asesiad newydd o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) bob 5 mlynedd. Lle mae'r asesiad yn nodi angen heb ei ddiwallu am leiniau cartrefi symudol, rhaid i'r awdurdod ddarparu ar gyfer yr angen a nodwyd.

**1.0.2** Yn dilyn canfyddiadau GTAA 2012, gwnaeth Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) y Fwrdeistref Sirol ddarpariaeth pellach ar gyfer 11 o leiniau ychwanegol ar safle presennol Cae Garw ger Margam er mwyn ymateb i'r angen tymor byr i ganolig a nodwyd am 4 llain yn ystod y cyfnod 2012 – 2017 a 7 llain yn ystod y cyfnod 2018 – 2022. Oherwydd y diffyg cywirdeb ystadegol sy'n gysylltiedig â rhagweld anghenion tymor hwy y gymuned Sipsiwn a Theithwyr, sydd â ffordd nomadig o fyw drwy ddiffiniad, barn y Cyngor oedd y byddai'r angen oedd yn weddill am 9 llain yn cael ei adolygu fel rhan o Fframwaith Monitro'r CDLl, ac yn derbyn sylw yn Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun (AMB) – cadarnhawyd hynny wedyn gan yr Arolygydd yn eu hadroddiad rhwymol.

**1.0.3** Cynhyrchwyd GTAA diweddaraf Castell-nedd Port Talbot (CNPT) yn fewnol gan Is-adrannau Strategaeth Tai a Pholisi Cynllunio'r Awdurdod yn 2016, gan ddefnyddio Canllaw Llywodraeth Cymru "Cynnal Asesiadau o Lety Sipsiwn a Theithwyr" (Mai 2015). Nododd yr astudiaeth nad oedd angen yn y tymor byr, sef 2016 - 2021 (yn wir, roedd gorgyflenwad o 3 llain), ond byddai angen 4 o leiniau ar safleoedd preswyl cyhoeddus tua diwedd cyfnod y CDLl (2022-2026). Mae'r angen hwn yn cymryd i ystyriaeth y cynnydd o 13 o leiniau yn y cyflenwad (11 a grewyd yng Nghae Garw, a 2 y dechreuwyd eu defnyddio eto ar Heol y Lanfa).

**1.0.4** Ymgorfforwyd canfyddiadau Astudiaeth GTAA 2016 ym mhroses Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) y CDLl. Cafodd y rhestr lawn o ddangosyddion perthnasol ei monitro ar hyd proses yr AMB, o flwyddyn ariannol 2016/17, gan gyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru (LlC) erbyn 31 Hydref 2017 a phob blwyddyn wedi hynny (hyd at a chan gynnwys 2021). Mae'r Awdurdod yn ystyried canfyddiadau pob AMB, a sbardunodd adolygiad o'r CDLl yn AMB 2019. Daeth adroddiad adolygu a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020 i'r casgliad fod adolygiad llawn o'r CDLl yn ofynnol.

**1.0.5** Oherwydd argyfwng Covid-19, ni allai awdurdodau ar draws Cymru gynnal arolwg yn 2020. Roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod hynny, a rhoddodd estyniad o 1 flwyddyn i holl awdurdodau Cymru ar gyfer cyhoeddi'r Asesiad nesaf o Lety Sipsiwn a Theithwyr (Chwefror 2022). Y rheswm am hynny'n syml oedd y ffaith mai'r dull gorau o gynnal arolwg yw trwy gynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb, ac mae diogelwch perchnogion tai a'u teuluoedd a'r rhai sy'n cynnal yr arolwg yn hollbwysig.

**1.0.6** Yn y diwedd cynhaliwyd yr arolwg yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ystod haf 2021. Mae'r GTAA hwn (2022) wedi nodi bod angen 0 lleiniau yn y tymor byr, a 10 llain yn y tymor hir. Bydd cyfleoedd posibl i ymateb i'r angen a nodwyd yn cael eu hystyried a'u hasesu fel rhan o broses baratoi CDLlA CNPT 2021-2036 a pharatoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer Rhanbarth De-orllewin Cymru.

# 2 Cyflwyniad

**2.0.1** Mae gan Gastell-nedd Port Talbot boblogaeth sefydledig a hir sefydlog o Sipsiwn a Theithwyr ac mae ganddi, ar hyn o bryd, un o'r poblogaethau mwyaf o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru. Mae tri safle cyhoeddus awdurdodedig yn y Fwrdeistref Sirol, dau wedi'u lleoli ar Heol y Lanfa, Llansawel ac un safle yng Nghae Garw, Margam.

**2.0.2** Diben yr astudiaeth hon yw asesu anghenion llety'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn y dyfodol a phenderfynu a oes gofyn darparu safleoedd ychwanegol yng Nghastell-nedd Port Talbot ar gyfer lleiniau preswyl parhaol a/neu leiniau tramwy. Bydd cynnal yr astudiaeth yn fodd i'r Awdurdod gynnal dealltwriaeth drylwyr o anghenion llety y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn y dyfodol.

**2.0.3** Mae dyletswydd ar bob awdurdod lleol i asesu anghenion llety cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru i'r dyfodol o dan Ddeddf 2014. Mae gofyn bod awdurdodau yn:

- Asesu'n achlysurol anghenion Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw yn yr ardal (h.y. y rhai sy'n byw yno eisoes), a'r rhai sy'n ymgynnull yno (h.y. y rhai sy'n dymuno symud i ardal neu aros yno o bryd i'w gilydd); ac
- Adrodd canfyddiadau'r astudiaeth i Weinidogion Cymru eu cymeradwyo; a
- Diwallu unrhyw angen a nodwyd yn yr astudiaeth.

## 3.1 Y Cyd-destun Polisi Cenedlaethol: Deddfwriaeth a Chanllawiau

### DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

**3.1.1** Mae'r ddeddf hon yn gosod dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i ystyried datblygu cynaliadwy wrth wneud penderfyniadau. Mae'r cysyniad wedi cael ei ehangu fel ei fod bellach yn ymgorffori, yn fwy penodol, treftadaeth ddiwylliannol a llesiant. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn dylanwadu ar sut rydym ni'n cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd; mae'n mynnu bod datblygu a defnyddio tir yn cyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

**3.1.2** Mae Datblygu Cynaliadwy (yng Nghymru) bellach yn cael ei ddiffinio fel a ganlyn gan Ddeddf 2015: "y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy gymryd camau, yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n ceisio cyflawni'r nodau llesiant".

**3.1.3** Cysylltir hyn â'r diffiniad mwy traddodiadol trwy'r esboniad bod "Gweithredu'n unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu bod rhaid i gorff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau".

**3.1.4** Mae gan y Ddeddf saith nod llesiant, sy'n cynnwys Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, a Chymru o gymunedau cydlynus.

### DEDDF TAI (CYMRU) 2014

**3.1.5** Diffinnir 'Sipsiwn a Theithwyr' yn adran 108 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 fel a ganlyn: (a) personau sy'n arfer ffordd nomadig o fyw, beth bynnag fo'u hil neu eu tarddiad, gan gynnwys

1 personau sydd, ar sail eu hanghenion addysg, eu hanghenion iechyd neu eu henaint eu hunain, neu anghenion addysg, iechyd neu henaint eu teulu neu ddibynnydd, ac ar y sail honno yn unig, wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu yn barhaol, a

2 aelodau o grŵp trefnedig o siewmyn teithiol neu bobl syrcas (p'un a ydynt yn cyd-deithio mewn grŵp o'r fath ai peidio), a (b) unrhyw bersonau eraill sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol.

**3.1.6** Wrth ddefnyddio'r diffiniad hwn, ni ddylid disgrifio Sipsiwn a Theithwyr fel grŵp unffurf neu endid sengl; gall fod gan gymunedau Sipsiwn a Theithwyr ffyrdd amrywiol o fyw yn dibynnu ar eu diwylliant a'u treftadaeth. Mae Sipsiwn a Theithwyr yn grŵp hil, yn ôl diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010, ac felly maent wedi'u hamddiffyn rhag camwahaniaethu ac aflonyddu. Ystyr hynny yw ei fod yn anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd "nodweddion gwarchodedig", ac mae hynny'n cynnwys hil.

**3.1.7** O dan Ran 3 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, mae asesu anghenion Sipsiwn a Theithwyr yn y dyfodol wedi dod yn ofyniad statudol, a rhoddwyd dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i ddarparu safleoedd ychwanegol lle nodwyd bod angen.

**3.1.8** Mae gofyn bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn cynnal asesiad yn rheolaidd bob 5 mlynedd o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr sy'n preswylio neu'n ymgynnull 3.1.8 Mae gofyn bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn cynnal asesiad yn rheolaidd bob 5 mlynedd o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr sy'n preswylio neu'n ymgynnull mewn ardal. Daeth Rhan

3, sy'n ymwneud â Sipsiwn a Theithwyr (ac eithrio adrannau 103 a 104) i rym ar 25 Chwefror 2015, ac roedd gofyn cwblhau'r Asesiad cyntaf o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) cyn pen blwyddyn o'r dyddiad dechrau

**3.1.9** Unwaith bydd asesiad wedi'i gwblhau, mae'n rhaid i awdurdodau lleol lunio adroddiad sy'n manylu ar y canfyddiadau. Dylai'r adroddiad fanylu ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd, graddau'r ymgynghori a fu a dod i gasgliadau ynghylch anghenion llety y Sipsiwn a Theithwyr fydd yn preswylio ac yn ymgynnull yn yr ardal yn y dyfodol. Rhaid cyflwyno'r adroddiad i Weinidogion Cymru, a fydd naill ai'n cymeradwyo'r asesiad ar ôl ei addasu neu heb ei addasu, neu'n ei wrthod. Os caiff asesiad ei wrthod gan y Gweinidogion, bydd yn rhaid i'r awdurdod ei adolygu a'i ailgyflwyno neu gynnal asesiad arall. Gallai'r rhesymau dros wrthod asesiad gynnwys ymgynghori annigonol neu fethu â darparu tystiolaeth ddigonol i gefnogi asesiad o angen.

**3.1.10** Os bydd asesiad yn nodi angen heb ei ddiwallu, bydd dyletswydd ar awdurdodau, o dan Adran 103 o'r Ddeddf, i ddiwallu'r angen hwnnw. Os bydd awdurdod yn methu â chydymffurfio ag Adran 103, gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd iddo ymarfer ei bwerau o dan Adran 56 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 er mwyn diwallu'r anghenion a nodwyd yn ei asesiad wedi'i gymeradwyo.

## DEDDF CARTREFI SYMUDOL (CYMRU) 2013

**3.1.11** Derbyniodd Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 4 Tachwedd 2013 ac roedd yn diweddaru’r ddeddfwriaeth flaenorol. Lluniwyd y ddeddfwriaeth (y daeth ei darpariaethau i rym ar ôl hynny drwy gydol 2014) er mwyn gwella rheoliadau'r diwydiant a sicrhau bod amodau ar safleoedd cartrefi symudol yn gwella a bod hawliau perchenogion cartrefi symudol yn cael eu hamddiffyn yn well. Mae’r ddeddfwriaeth ac amddiffyn hawliau perchenogion cartrefi symudol yn angenrheidiol oherwydd, mewn rhai achosion, er bod y perchenogion yn berchen ar eu cartref eu hunain, gall y tir y mae hwnnw'n sefyll arno fod yn eiddo i weithredwr safle neu dirfeddiannwr.

**3.1.12** Mae’r Ddeddf yn cyflwyno system drwyddedu, lle bydd gofyn i berchenogion safle gyflwyno cais i'w hawdurdod lleol am drwydded i weithredu safle, yn amodol ar gael y caniatâd cynllunio perthnasol. I gael trwydded, bydd angen i reolwyr safle basio prawf 'person addas a phriodol' a bydd y trwyddedau a roddir yn para am 5 mlynedd. Caniateir cynyddu ffioedd lleiniau ar safleoedd yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn unig.

**3.1.13** O dan y ddeddfwriaeth, caiff awdurdodau lleol archwilio safleoedd a rhoi hysbysiadau cosb benodedig i berchenogion safle os gwelir bod problemau o ran yr amodau ar y safle ac, mewn achosion mwy difrifol, gallant gyflwyno hysbysiadau gorfodi.

## CYLCHLYTHYR CYNLLUNIO 005/2018 – CYNLLUNIO SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR A SIEWMYN

**3.1.14** Mae’r cylchlythyr yn rhoi arweiniad ar gynllunio safleoedd addas i Sipsiwn a Theithwyr. Mae'n cydnabod nad yw Sipsiwn a Theithwyr yn endid sengl a bod ganddynt wahanol werthoedd a ffyrdd o fyw ac y dylid trafod anghenion llety i'r dyfodol yn uniongyrchol gyda'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr a chyrff a grwpiau cynrychioliadol.

**3.1.15** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cyflwyno fframwaith i awdurdodau lleol ledled Cymru sicrhau bod ‘egwyddor datblygu cynaliadwy’ (diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau) yn cael ei fodloni.

**3.1.16** Mae tai yn fater gwaelodol sy’n effeithio ar fywydau pobl ledled Cymru, gan gynnwys ein cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Mae’n adlewyrchu ymrwymiad y Llywodraeth i sicrhau cyfle cyfartal i bob rhan o’r gymuned, ac yn achos hwn, dylai Sipsiwn a Theithwyr gael mynediad cyfartal i lety sy’n ddiwylliannol briodol, fel holl aelodau eraill y gymuned.

**3.1.17** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gydag awdurdodau lleol i gyflwyno safleoedd newydd i Sipsiwn a Theithwyr. Rhoddir sylw i’r ymrwymiad hwn trwy ddarparu cyllid Grant Cyfalaf Safleoedd er mwyn datblygu safleoedd newydd. Mae newidiadau i’r ddeddfwriaeth trwy Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 hefyd wedi cefnogi’r amcan hwn.

**3.1.18** Mae darparu safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr yn un o nifer o faterion allweddol y mae angen ymdrin â hwy trwy’r broses o greu cynllun. Lle mae diffyg safleoedd priodol a darpariaeth annigonol yn bodoli mewn ardaloedd awdurdod lleol, mae hynny’n cael effaith niweidiol sylweddol ar fywydau Sipsiwn a Theithwyr. Bydd cyflwyno llety ar ffurf safleoedd priodol i Sipsiwn a Theithwyr yn cael effaith lesol ar allu’r cymunedau hynny i gael mynediad at wasanaethau eraill hanfodol. Gallai cyflwyno llety ar safleoedd priodol i gymunedau Sipsiwn a Theithwyr gael effaith fuddiol ar y gymuned sefydledig hefyd trwy leihau nifer yr heriau cyfreithiol a’r costau sy’n codi wrth herio gwersylloedd heb eu hawdurdodi.

**3.1.19** Nid yw’r diffiniad o safle Sipsiwn a Theithwyr at ddibenion y Cylchlythyr hwn yn cynnwys annedd (h.y. tai sy’n perthyn i Ddosbarth Defnydd C3 o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref [Dosbarthiadau Defnydd] 1987 [fel y’i newidiwyd]). Diwallir anghenion y Sipsiwn a’r Teithwyr hynny sy’n dymuno byw mewn llety brics a morter trwy ddarparu tai priodol. Cyflwynir y mecanwaith yn y system gynllunio er mwyn i awdurdodau lleol sicrhau cyflenwad digonol o dir ar gyfer tai ym Mholisi Cynllunio Cymru (PPW11).

**3.1.20** Nodir bod Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) yn ffynhonnell wybodaeth allweddol ar gyfer asesu anghenion llety i'r dyfodol. Lle gwelir bod angen llety ychwanegol, dylai CDLliau ddarparu llety ychwanegol i ddiwallu'r angen hwn yn ystod cyfnod y Cynllun a bydd angen dangos bod y safleoedd yn addas a bod posibilrwydd realistig y bydd y safleoedd a nodwyd yn cael eu darparu at y diben hwn.

**3.1.21** Mae’r cylchlythyr yn nodi bod addasrwydd safle yn bwysig ar gyfer iechyd a lles y gymuned ac ar gyfer cynnal a chefnogi rhwydweithiau teuluol a chymdeithasol. Mae'r cylchlythyr yn darparu canllawiau ynghylch nifer o ystyriaethau pwysig wrth nodi safleoedd.

**3.1.22** Wrth nodi safleoedd, dylid ystyried yn gyntaf safleoedd mewn lleoliadau sydd mewn neu ar bwys aneddiadau presennol lle mae ystod o wasanaethau a chyfleusterau ar gael, a bydd angen cynnal asesiad o effaith gymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y posibilrwydd o ddyrannu safle yn unol â gofynion yr Arfarniad Cynaliadwyedd.

**3.1.23** Mae gofyn bod pob CDLl yn cynnwys polisïau seiliedig ar feini prawf er mwyn asesu/diwallu'r galw yn y dyfodol neu unrhyw alw annisgwyl. Mae gan Sipsiwn a Theithwyr yr un hawliau a chyfrifoldebau o fewn y system gynllunio â thrigolion a grwpiau cymdeithasol eraill. Gan hynny, mae'n rhaid i bolisïau a meini prawf y Cynllun fod yn deg, yn rhesymol, yn realistig ac yn effeithiol o ran darparu safleoedd. Ni ddylai polisïau sy'n gosod cyfyngiadau gormodol ar ddatblygu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr gael eu cynnwys mewn CDLliau.

**CYMRU'R DYFODOL – CYNLLUN CENEDLAETHOL 2040 (Chwefror 2021)**

**3.1.24** Cymru'r Dyfodol yw cynllun datblygu cenedlaethol LlC, ac yn unol ag adran 38 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, mae'n ffurfio rhan o'r cynllun datblygu statudol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (CBSCNPT). Mae'r ddogfen yn amlinellu strategaethau LlC ar gyfer rhoi sylw i flaenoriaethau cenedlaethol allweddol trwy'r system gynllunio, ac mae'n manylu ar ble bydd buddsoddiad LlC yn y dyfodol yn cael ei grynhoi. Mae'n cwmpasu'r cyfnod amser hyd at 31 Rhagfyr 2040. Mae'n gynllun datblygu gyda strategaeth ar gyfer rhoi sylw i flaenoriaethau cenedlaethol allweddol trwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi hyfyw, cyflawni datgarboneiddio a gwydnwch o ran yr hinsawdd, datblygu ecosystemau cadarn a gwella iechyd a llesiant ein cymunedau.

**3.1.25** Mae Deilliannau Perthnasol Cymru'r Dyfodol yn cynnwys:

- Cymru lle mae pobl yn byw ac yn gweithio mewn mannau cysylltiedig, cynhwysol a iach.
- Cymru lle mae pobl yn byw mewn rhanbarthau unigryw sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd a sosio-economaidd trwy dwf cynaliadwy.

**3.1.26** Mae Cymru'r Dyfodol wedi nodi pedwar rhanbarth gwahanol ar draws Cymru lle bydd datblygu strategol yn sicrhau bod materion ehangach na'r rhai lleol yn derbyn sylw ar y cyd. Mae Castell-nedd Port Talbot yn rhan o Ranbarth y De-orllewin sy'n cwmpasu Castell-nedd Port Talbot, Abertawe a Chaerfyrddin. Mae gofyn bod Cynlluniau Datblygu Strategol ym mhob rhanbarth i sefydlu fframwaith polisi strategol clir a rhoi cyfeiriad i lunwyr penderfyniadau. Nodir Ardaloedd Twf Cenedlaethol a/neu Ranbarthol ym mhob un o'r pedwar rhanbarth, a bydd eu twf yn cael ei gynllunio trwy baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol.

**3.1.27** Mae Polisi 19 Cymru'r Dyfodol yn nodi y dylai Polisïau ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol a Chynlluniau Datblygu Strategol wreiddio creu lleoedd fel egwyddor drosfwaol, gan sefydlu'r angen o safbwynt sipsiwn a theithwyr yn y rhanbarth. Mae hynny'n golygu y bydd unrhyw GTAA dilynol yn cael ei gyflawni ar sail ranbarthol.

**POLISI CYNLLUNIO CYMRU (Argraffiad 11) Chwefror 2021**

**3.1.28** Mae Polisi Cynllunio Cymru yn diffinio pwrpas y system gynllunio fel adeiladu mannau cynaliadwy sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at iechyd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

**3.1.29** Rhaid i bawb sy'n ymwneud â'r system gynllunio yng Nghymru neu sy'n gweithredu fel rhan ohoni gofleidio'r cysyniad o greu lle mewn penderfyniadau rheoli datblygu ac wrth greu cynlluniau er mwyn sicrhau bod mannau cynaliadwy yn cael eu creu, a llesiant cymunedau yn cael ei wella. Dylai'r system gynllunio greu lleoedd cynaliadwy sy'n ddeniadol, yn gymdeithasol, yn hytrach, yn actif, yn ddiogel, yn groesawgar, yn iach ac yn gyfeillgar. Mae creu lleoedd mewn penderfyniadau datblygu yn digwydd ar bob lefel ac mae'n cynnwys ystyriaethau ar lefel fyd-eang, gan gynnwys argyfwng yr hinsawdd, hyd at lefel leol iawn, megis ystyried yr effaith o ran amwynder ar bobl ac eiddo cymdogol.

**3.1.30** Un o'r Prif Egwyddorion Cynllunio a geir yn PPW 11 yw hwyluso amgylcheddau hygyrch a iach. Dylai ein dewisiadau o ran defnydd tir a'r lleoedd rydym ni'n eu creu fod yn hygyrch i bawb a chefnogi bywydau iach. Mae lleoedd o safon uchel yn ddirwystr ac yn cynnwys holl aelodau cymdeithas. Maent yn sicrhau bod pawb yn gallu byw, gweithio, teithio a chwarae mewn modd sy'n cynnal iechyd da i'r corff a'r meddwl.

**3.1.31** Wrth asesu Manteision Cynaliadwy Datblygu; dylai Awdurdodau Cynllunio sicrhau bod manteision cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn cael eu hystyried yn y broses o wneud penderfyniadau, a'u hasesu yn unol â'r pum ffordd o weithio er mwyn sicrhau bod asesiad cytbwys yn cael ei gyflawni er mwyn rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac Egwyddor Datblygu Cynaliadwy ar waith. Ymhlith ffactorau allweddol y broses asesu mae sut mae cynnig yn cefnogi datblygu cymunedau mwy cyfartal a mwy cydlynus.

**3.1.32** Mae paragraff 4.2.35 o PPW 11 yn nodi bod gofyn bod awdurdodau lleol yn asesu anghenion llety teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr ac yn dyrannu safleoedd i ddiwallu'r angen a nodwyd. Lle mae Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) yn nodi angen sydd heb ei ddiwallu, dylai awdurdod cynllunio ddyrannu safleoedd digonol yn eu cynllun datblygu i sicrhau bod modd diwallu'r gofynion a nodwyd o ran lleiniau preswyl a/neu dramwy. Bydd angen i awdurdodau cynllunio ddangos bod safleoedd yn addas i'w datblygu a bod modd eu cyflwyno o fewn y terfynau amser a nodwyd. Wrth lunio polisïau, dylai awdurdodau cynllunio ymgynghori â darparwyr tai cymdeithasol, cynrychiolwyr cymunedau Sipsiwn a Theithwyr a thirfeddianwyr mewn ardaloedd sy'n debygol o fod yn addas i ddarparu safleoedd. Dylid cynnal yr ymgynghoriad mewn modd sy'n cyd-fynd â Chynllun Cynnwys y Gymuned yr awdurdod cynllunio.

**ADEILADU LLEOEDD GWELL; Creu lleoedd ac Adfer wedi Covid-19 (2020)**

**3.1.33** Mae Adeiladu Lleoedd Gwell yn cyflwyno blaenoriaethau polisi cynllunio Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i gymryd camau yn y cyfnod o adferiad wedi pandemig Covid-19. Yng nghyswllt Sipsiwn a Theithwyr, y materion i'w hystyried yw'r canlynol:

- Gall pawb ohonom werthfawrogi'r gwahaniaeth rhwng bod amgylchedd o safon i fyw, gweithio ac ymlacio ynddo, a sut gallai bod heb gysylltiad â ffrindiau a theulu olygu bod amgylchedd gwael, heb fawr ddim mynediad, os o gwbl, at nwyddau, gwasanaethau a mannau gwyrdd lleol, gael effaith niweidiol dros ben ar iechyd corff a meddwl a llesiant, yn ogystal â'n gallu i ddiogelu'n bywoliaeth;
- Mae creu lleoedd yn ganolog i'r adferiad hwn;
- Os anwybyddwn ein hymrwymiad polisi i safon, mae perygl o ailadrodd camgymeriadau blaenorol trwy ganiatáu datblygu ar safleoedd anghynaliadwy mewn ardaloedd oedd heb seilwaith na chysylltiadau i'n galluogi i fyw bywydau iach, actif a hybu gwell llesiant ym mhob ystyr;
- Mae creu lleoedd yng Nghymru yn bartneriaeth newydd o sefydliadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd adeiledig yn dod ynghyd i helpu i gyflawni safon ar draws y sector, er hybu gwell canlyniadau i bawb;
- Mae argyfwng Covid wedi pwysleisio pwysigrwydd ystyried iechyd a llesiant ar draws y system gynllunio, er mwyn sicrhau bod cymunedau ar draws Cymru yn iach, yn hyfyw ac yn gynhwysol.

**CANLLAWIAU AR GYFER CYNNAL ASESIADAU LLETY SIPSIWN A THEITHWYR (Mai 2015)**

**3.1.34** Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu canllawiau cynhwysfawr ar sut mae cynnal yr arolwg. Mae hynny'n sicrhau dull gweithredu cyson ar draws Cymru ac yn rhoi darlun cywir o'r angen gwirioneddol am leiniau yn y dyfodol. Mae'r canllawiau'n cwmpasu popeth o sefydlu Grŵp Llywio, i'r cwrteisi sy'n angenrheidiol wrth gynnal yr arolwg, ac mae'r holiadur sydd i'w

ddefnyddio yn cael ei gynnwys yn ogystal â sut mae cyfrifo'r angen. Gallai unrhyw fethiant i ddilyn y canllawiau hyn olygu bod Llywodraeth Cymru yn herio'r canlyniadau, ac yn gwrthod cytuno ar y cynnwys.

**LLYWODRAETH CYMRU – DYLUNIO SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR (2015)**

**3.1.35** Diweddarwyd y canllawiau hyn gan Lywodraeth Cymru ym Mai 2015, gan ddarparu canllawiau arfer da diwygiedig i awdurdodau lleol, y dylid eu darllen ar y cyd â chyhoeddiad arall gan Lywodraeth Cymru, 'Rheoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr'. Er nad yw hon yn ddogfen statudol, mae'r canllawiau'n cynnig cymorth ymarferol i awdurdodau lleol ddarparu safleoedd sy'n gynaliadwy, wedi'u rheoli'n dda ac yn addas at y diben, gan gynnig ansawdd bywyd da i'r preswylwyr, gyda'r nod o feithrin cysylltiadau cadarnhaol rhwng Sipsiwn a Theithwyr a'r gymuned sefydlog.

**3.1.36** Mae'n rhoi sylw manwl i ystyriaethau perthnasol pwysig, gan gynnwys maint a chynllun y safle, y trefniadau mynediad, a'r bwlch rhwng carafannau ac ôl-gerbydau, er mwyn darparu safonau enghreifftiol sy'n hyrwyddo safleoedd wedi'u dylunio'n dda sy'n cydymffurfio â'r gofynion iechyd a diogelwch, egwyddorion diogelu drwy ddylunio a safonau tân. Awgrymir bod awdurdodau lleol yn dilyn y 'llinell ffit orau' wrth asesu safleoedd posibl ac yn defnyddio'r themâu cyffredinol canlynol:

- Mynediad: dylid lleoli safleoedd ar bwys ffyrdd cyhoeddus â chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus lle bydd hynny'n bosibl;
- Addasrwydd tir: dylid cynnal arolwg o'r safle er mwyn nodi problemau fel draenio, perygl llifogydd a thir halogedig;
- Gwasanaethau Lleol: sicrhau bod safleoedd o fewn pellter rhesymol i leoliadau addysg, iechyd a gwasanaethau lleol fel siopau;
- Yr Amgylchedd: dylid ystyried lleoliad peryglon fel afonydd, camlesi, safleoedd diwydiannol a phrif ffyrdd;
- Cyfleustodau: dylid gallu darparu cyflenwad digonol o ddŵr, trydan, carthffosiaeth, draenio a chyfleusterau gwaredu sbwriel ar safleoedd.

**3.1.37** Mae'r cyhoeddiad hefyd yn darparu canllawiau ar safleoedd tramwy, mannau aros dros dro a dulliau ymgynghori â rhanddeiliaid.

**CONFENSIWN Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR HAWLIAU'R PLENTYN (CCUHP)**

**3.1.38** Cytundeb rhyngwladol yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) sy'n cyflwyno hawliau plant. Rhesymeg CCUHP yw bod angen ystyriaeth benodol ar hawliau plant, oherwydd y gofal a'r amddiffyniad arbennig mae ar blant a phobl ifanc eu hangen yn aml.

**3.1.39** Mae CCUHP yn rhestr o hawliau sydd gan bob plentyn a pherson ifanc, ym mhob man yn y byd. Mae gan blant a phobl ifanc 18 oed a than hynny hawl i fod yn ddiogel, i chwarae, i gael addysg, i fod yn iach ac i fod yn hapus.

**3.1.40** Mae pedair erthygl allweddol sy'n sylfaen i'r hawliau a gyflwynir yn CCUHP:

- Hawl i beidio â phrofi gwahaniaethu yn eich erbyn (erthygl 2)
- Ymrwymiad i les pennaf y plentyn (erthygl 3)
- Hawl i fywyd, goroesiad a datblygiad (erthygl 6)
- Hawl i gael eich clywed (erthygl 12)

**3.1.41** Yn 2004, mabwysiadodd Llywodraeth Cymru CCUHP yn ffurfiol yn sylfaen ar gyfer llunio polisi cysylltiedig â phlant a phobl ifanc.

## 3.2 Y Cyd-destun Polisi Lleol

**CYNLLUN LLESIANT CASTELL-NEDD PORT TALBOT 2018 - 2023**

**3.2.1** Mae'r Cynllun yn cyflwyno'r weledigaeth hirdymor ar gyfer CNPT, gan gynnwys blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd o 2018-2023. Mae'n cyflwyno rhai heriau sylweddol mae CNPT yn eu hwynebu, sy'n cynnwys sut maen nhw'n helpu cymunedau i gynnal eu hunain a datblygu hinsawdd lle mae pobl yn gofalu am ei gilydd. Lluniwyd y Cynllun i fodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae saith nod llesiant yn y Ddeddf, ac mae un ohonynt yn ceisio sicrhau Cymru fwy cyfartal sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial, beth bynnag yw eu cefndir.

**3.2.2** Mae'r weledigaeth am i Gastell-nedd Port Talbotfod yn lle bywiog, iach, lle mae pobl yn cael cyfle cyfartal i wneud cynnydd mewn bywyd – rhywle y mae pobl am fyw, dysgu, gweithio a buddsoddi ynddo, ac ymweld ag ef am genedlaethau lawer i ddod.

**3.2.3** Mae'r Cynllun yn cynnwys 6 amcan, ac mae amcan 2 yn nodi bod CNPT am greu cymunedau diogel, hyderus a chydnerth lle gall pobl ddatblygu at gyflawni eu potensial, diwylliant, a Chymru lle bydd ganddyn nhw amgylchedd i dyfu'n gryf ynddo.

**3.2.4** Heb gyfleoedd i ddatblygu hyd eithaf eu potensial, gall pobl a chymunedau fod yn ofnus, heb ymddiriedaeth, ac yn anoddefgar. I sicrhau cymunedau cydlynus mae angen pobl sydd â dyheadau cyflawnadwy, fel eu bod yn gallu meithrin hyder a chyfrannu mewn modd ystyrlon yn y gymuned.

**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT (2011 - 2026)**

**3.2.5** Mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Castell-nedd Port Talbot yn cyflwyno polisi cynllunio'r Cyngor am y 15 mlynedd rhwng 2011 a 2026. Mae'r CDLl, a fabwysiadwyd yn Ionawr 2016, yn darparu fframwaith datblygu er mwyn cyflawni cymunedau ffyniannus, llewyrchus a chynaliadwy, sy'n cynnig cyfleoedd cymdeithasol ac economaidd i bawb, a rhoi sylw ar yr un pryd i'r materion allweddol sy'n wynebu'r Fwrdeistref Sirol.

**3.2.6** Sefydlwyd a seiliwyd gweledigaeth a strategaeth y Cynllun ar sylfaen sylweddol o dystiolaeth ac ymgysylltu helaeth â'r gymuned. Nododd y dystiolaeth gyfanswm o 18 o faterion allweddol yr oedd angen i'r CDLl roi sylw iddynt, ac roedd un o'r materion hynny (MA7) yn ymwneud yn benodol â Sipsiwn a Theithwyr a'r angen am leiniau preswyl ychwanegol yn y Fwrdeistref Sirol. Troswyd y mater hwn yn rhai o brif amcanion y Cynllun oedd yn sylfaen ar gyfer datblygu polisïau:

- AMC 7: Darparu cyflenwad, cyfuniad, math a deiliadaeth digonol o dai oddi mewn i aneddiadau cynaliadwy i ddiwallu anghenion y boblogaeth a ragwelir.
- AMC 9: Darparu lleiniau ychwanegol i ymateb i'r angen a nodwyd ymhlith cymuned Sipsiwn a Theithwyr Castell-nedd Port Talbot.

**3.2.7** Ar sail canfyddiadau Astudiaeth o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Castell-nedd Port Talbot 2012 ac er mwyn cyflawni'r amcanion a nodwyd uchod, darparodd y CDLl fframwaith i roi sylw i anghenion y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn ystod cyfnod y Cynllun trwy'r polisïau manwl a restrir isod.

**3.2.8** Nododd Astudiaeth o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Castell-nedd Port Talbot 2012 fod angen 20 llain breswyl ychwanegol yn ystod cyfnod y Cynllun, a bod angen 11 o'r lleiniau hynny yn ystod tymor byr i ganolig y CDLl, hyd at 2022. Darparwyd yr 11 llain hyn drwy ehangu'r safle presennol, sefydledig i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghae Garw, Margam.

**3.2.9** Dyrannodd Polisi GT1 dir i ehangu'r safle presennol yng Nghae Garw, Margam. Creodd y dyraniad 11 o leiniau preswyl parhaol i ddiwallu'r angen a nodwyd yn ystod tymor byr i ganolig y Cynllun, hyd at 2022.

**3.2.10** Er bod y dyraniad a nodwyd ym Mholisi GT1 wedi bodloni'r angen a nodwyd, bosibl y bydd ceisiadau am safleoedd ychwanegol yn y dyfodol yn ystod cyfnod y Cynllun a bydd angen i'r rhain gael eu hasesu yn ôl eu teilyngdod unigol. I asesu ceisiadau o'r fath, mae Polisi GT2 yn darparu fframwaith polisi ac yn cyflwyno dull sy'n seiliedig ar feini prawf i sicrhau bod safleoedd yn y dyfodol yn gynaliadwy, yn agos iawn at gyfleusterau cymunedol a bod ganddynt gyfleustodau fel cyflenwad dŵr, draeniau a gwaredu gwastraff.

**3.2.11** Mae fframwaith monitro'r Cynllun yn monitro'n fanwl weithrediad y lleiniau newydd a'r rhai sy'n eu defnyddio, a bydd yn adolygu'r gofyniad ar gyfer rhan olaf y Cynllun, wedi 2023. Cynhelir GTAA newydd bob 5 mlynedd, yn unol â gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014, a fydd yn llywio ymhellach y ddarpariaeth o leiniau i Sipsiwn a Theithwyr yn ystod cyfnod y Cynllun.

**Polisïau'r CDLl:**

**Polisi SP 9 – Sipsiwn a Theithwyr**

Darperir ar gyfer 20 o leiniau Sipsiwn a Theithwyr trwy'r mesurau canlynol;

1. dyrannu safle; a
2. darparu fframwaith i asesu cynigion ar gyfer safleoedd ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr.

**Polisi GT1 – Safle Sipsiwn a Theithwyr**

Dyrannwyd y safle canlynol ar gyfer darparu 11 o leiniau i Sipsiwn a Theithwyr:

**Tabl 3.2.1**

| Cyeferinod | Safle |
|---|---|
| GT1 | Cae Garw, Margam |

**Polisi GT2 – Cynigion ar gyfer Safleoedd Newydd i Sipsiwn a Theithwyr**

Ni chaniateir safleoedd a/neu leiniau i ddarparu llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr sy'n preswylio neu'n ymgynnull yn y Fwrdeistref Sirol ond pan fodlonir yr holl feini prawf canlynol, lle bônt yn berthnasol:

1. Caniateir safleoedd y tu allan i derfynau anheddiad dim ond lle dangoswyd nad oes safleoedd na lleiniau addas ar gael oddi mewn i'r canlynol:

   (a) y Safle a ddyrannwyd ar gyfer Sipsiwn yng Nghae Garw (GT1), neu mewn safleoedd eraill awdurdodedig sydd eisoes yn bodoli i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot; neu

   (b) oddi mewn i derfynau aneddiadau sydd eisoes yn bodoli.

2. Mae’r safle mewn lleoliad cynaliadwy, o fewn pellter rhesymol i gyfleusterau cymunedol (yn cynnwys addysg) a chysylltiadau trafnidiaeth, gan gynnwys llwybrau cerdded a beicio;
3. Mae gan y safle neu byddai gan y safle safon dda o gyfleustodau, yn cynnwys cyflenwad dŵr, pŵer, draeniad, gwaredu carthffosiaeth, gwaredu gwastraff (storio a chasglu), a mannau chwarae diogel i blant;
4. Ni fydd y safle’n niweidio amwynderau preswyl na’r amgylchedd;
5. Gall y safle ddarparu ar gyfer defnyddiau busnes o’r cartref lle bo gofyn, heb gael effaith niweidiol ar amwynder a chymeriad yr ardal;
6. Gall y safle ddarparu ar gyfer mynediad diogel, cyfleus i’r rhwydwaith priffyrdd, ac ni fyddai’n peryglu diogelwch ar y priffyrdd. Hefyd gall ddarparu cynllun priodol, o ran lleiniau, parcio a symud cerbydau, adeiladau amwynder, ardaloedd wyneb caled a mannau agored.

**3.2.12** Mae Adroddiad Adolygu’r CDLl, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020, yn datgan wrth gyfeirio at GTAA 2022; "Bydd yr astudiaeth hon yn nodi anghenion y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr dros gyfnod y Cynllun Amnewid, a chaiff ei defnyddio i ffurfio polisi newydd os nodir bod angen. Cwblhawyd yr estyniad o 11 llain yng Nghae Garw yn 2016, felly bydd angen newid Polisi GT1 yn ystod yr adolygiad i adlewyrchu’r asesiad newydd. Gall fod angen rhai mân newidiadau i Bolisi GT2 i sicrhau cydymffurfiaeth â’r Cylchlythyr newydd.”

**STRATEGAETH TAI LLEOL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT (2015 - 2020)**

**3.2.13** Mae Strategaeth Tai Lleol Castell-nedd Port Talbot yn cyflwyno gweledigaeth gytunedig ar gyfer mynd i’r afael ag anghenion tai dinasyddion yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod:

**3.2.14** "Ein Gweledigaeth yw y bydd Tai yng Nghastell-nedd Port Talbot yn briodol, yn fforddiadwy, o ansawdd da, ac mewn cymunedau cynaliadwy, gan gynnig dewis a chefnogaeth i bobl os bydd angen hynny arnynt".

**3.2.15** Lluniwyd y Strategaeth Tai Lleol (STLl) ar adeg o newid sylweddol. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014, deddf tai gyntaf Cymru, yn cynnig gwella cyflenwad, ansawdd a safonau tai yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys gwella'r sector tai rhentu preifat, gwell safonau mewn tai cymdeithasol, helpu i ddiwallu anghenion tai pobl ac atal digartrefedd, gwella cymunedau a helpu i atal yr anawsterau a'r diffyg cyfleoedd sy'n aml yn wynebu pobl agored i niwed.

**3.2.16** Mae tai yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd ac ar bawb mewn cymdeithas beth bynnag fo'u hoed, eu hil, eu statws ac ati. Mae tai yn hanfodol bwysig i ddiwallu anghenion sylfaenol dynol megis lloches; ond mae tai yn fwy na phedair wal a tho, dylai tai gynnig lle i gysgu a gorffwys, lle bydd pobl yn teimlo'n ddiogel, yn cael preifatrwydd a gofod personol; rhywle lle gallant fagu teulu. Mae'r elfennau hyn i gyd yn helpu i wneud tŷ yn gartref.

**3.2.17** Canfyddiadau'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a luniwyd ar y cyd â Dinas a Sir Abertawe yw'r brif nodwedd yn y ddogfen sy'n dadansoddi'r farchnad dai leol ac yn nodi'r angen am dai fforddiadwy. Gwelwyd o'r cymysgedd o dai fod gofyn am 61% o dai marchnad a bod angen 39% o dai cymdeithasol a thai fforddiadwy eraill i ddiwallu'r angen am dai.

**3.2.18** Yn 2016 penderfynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot gynnal yr Asesiad nesaf o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn fewnol, gan ddefnyddio canllawiau Llywodraeth Cymru ‘Cynnal Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr’. Cyflawnwyd y GTAA hwn

gan Is-adrannau Strategaeth Tai a Pholisi Cynllunio'r Awdurdod, gyda chymorth gan gydweithwyr yn is-adran Ystadau'r Awdurdod i gasglu data sylfaenol yr astudiaeth trwy gyfweliadau/holiaduron.

**3.2.19** Prif amcan yr astudiaeth GTAA oedd asesu'r angen am ddarparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr awdurdodedig yng Nghastell-nedd Port Talbot, gydag angen am nodi a ddylai unrhyw safleoedd ychwanegol a ddarperid fod ar dir cyhoeddus neu breifat, ac a oedd angen cynllunio ar gyfer darparu safleoedd tramwy neu fannau i aros mewn argyfwng. Bu canlyniadau'r astudiaeth o gymorth i'r Awdurdod fodloni gofynion Deddf Tai 2004 a darparu tystiolaeth i gynorthwyo'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ynghylch yr angen am leiniau ychwanegol yng Nghastell-nedd Port Talbot ac i lywio'r Strategaeth Tai Leol.

**Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL (2011-2026) CANFYDDIADAU'R ADRODDIADAU MONITRO BLYNYDDOL (2017-2021)**

**3.2.20** Mae'r AMB yn cynnwys canfyddiadau a gafwyd trwy fonitro effeithiau'r cynllun o ran effeithiolrwydd y polisïau eu hunain a chyflawni amcanion yr AC.

**3.2.21** Oherwydd y gwallau ystadegol sy'n gysylltiedig â rhagfynegi anghenion tymor hwy y gymuned Sipsiwn a Theithwyr, sydd â ffordd nomadig o fyw wrth natur, barn y Cyngor oedd y byddai'r angen oedd yn weddill a nodwyd yn GTAA 2016 (tu hwnt i 2022, hyd at 2026) yn cael ei adolygu fel rhan o Fframwaith Monitro'r CDLl, ac yn derbyn sylw yn Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) y Cynllun – wedi hynny, fe'i cymeradwywyd gan yr Arolygwyr yn eu hadroddiad rhwymol. Fel rhan o bob Adroddiad Monitro Blynyddol, cofnodir achosion o wersylloedd heb eu hawdurdodi yn ogystal, er mwyn canfod a oes angen tramwy newydd neu beidio.

**Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL: ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2017**

**3.2.22** Cyhoeddwyd yr AMB cyntaf ym mis Hydref 2017. O fewn y cyfnod monitro, cyflwynodd y Cyngor Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016 a derbyn cymeradwyaeth y Gweinidog ar ei gyfer, yr asesiad cyntaf o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Daeth yr asesiad diweddaraf hwn i'r casgliad bod yr 11 o leiniau a neilltuwyd gan y Cyngor yn ddigonol i ddiwallu anghenion y gymuned hyd at 2021. Ar gyfer gweddill cyfnod y CDLl (h.y. hyd at 2026) nododd yr asesiad fod angen 4 llain ychwanegol, nifer is na'r 9 llain a ragwelwyd yn wreiddiol yn GTAA 2012. Mae GTAA pellach yn ofynnol erbyn 2021, a bydd hynny'n asesu'r angen hirdymor yn fwy manwl gywir.

**3.2.23** Ni chaniatawyd safleoedd newydd i Sipsiwn a Theithwyr yn ystod y cyfnod monitro, ac nid adroddwyd am unrhyw wersylloedd heb eu hawdurdodi. Ar y sail hon, ni fernir bod angen cymryd unrhyw gamau ar hyn o bryd, a bydd y monitro'n parhau yn ystod y flwyddyn nesaf.

**Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL: ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2018**

**3.2.24** Daeth yr asesiad diweddaraf, Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016, i'r casgliad bod yr 11 o leiniau a ddarparwyd yng Nghae Garw yn ddigonol i ddiwallu anghenion y gymuned hyd at 2021.

**3.2.25** Yn ystod y cyfnod monitro, cafwyd un gwersyll heb ei awdurdodi yn y Fwrdeistref Sirol. I gyd-fynd â'r gwersyll roedd cais cynllunio i newid defnydd y tir i greu safle preifat i Sipsiwn a Theithwyr. Gwrthodwyd y cais hwn gan y Cyngor oherwydd barnwyd ei fod yn groes i'r CDLl, ac aeth yr ymgeisydd i apêl ynghylch penderfyniad y Cyngor. Bu'r apêl yn destun gwrandawiad ym mis Ebrill 2019, ac felly rhoddir y manylion yn yr AMB nesaf.

### Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL: ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2019

**3.2.26** Yn ystod y cyfnod monitro, cafwyd un gwersyll preifat (preswyl) heb ei awdurdodi yn y Fwrdeistref Sirol. Ar ben hynny, cofnodwyd 7 gwersyll tymor byr (tramwy) ar 4 safle yn ystod y cyfnod adrodd, yn amrywio o 3 diwrnod i 15 diwrnod.

**3.2.27** Bu'r safle preswyl preifat yn destun gwrandawiad apêl ym mis Ebrill 2018, yn erbyn gwrthod cais cynllunio (a Hysbysiad Gorfodi cysylltiedig), a chaniatawyd yr apêl cynllunio, gan roi caniatâd cynllunio personol ar gyfer hyd at 2 garafan ym mis Awst 2018.

**3.2.28** Mae'n werth nodi'r apêl oherwydd bod y teulu o deithwyr yn yr achos hwn wedi bod yn byw ar safle awdurdodedig y Cyngor yng Nghae Garw, ond wedi dewis symud oddi ar y safle i safle preifat ar sail amgylchiadau personol eu teulu. Roedd penderfyniad yr apêl, felly, yn codi llawer o faterion ynghylch rheolaeth safle presennol y Cyngor yng Nghae Garw. Fodd bynnag, er y barnwyd bod amgylchiadau personol y teulu hwnnw yn bwysicach na'r gwrthdaro polisi, bernir bod Polisi GT2 yn dal yn gadarn ac yn addas at y diben wrth asesu cynigion ar gyfer safleoedd newydd, a bod Polisi GT1 yn dyrannu safleoedd digonol i ddiwallu'r gofynion llety a nodwyd ar gyfer sipsiwn a theithwyr.

### Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL: ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2020

**3.2.29** Yn ystod y cyfnod monitro, cafwyd 3 gwersyll heb eu hawdurdodi. Dim ond am rai diwrnodau y parhaodd pob un o'r gwersylloedd, felly nid oedd angen cymryd camau pellach.

### Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL: ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2021

**3.2.30** Yn ystod y cyfnod monitro, dim ond 1 gwersyll heb ei awdurdodi a gafwyd. Y rheswm am y gwersyll hwn oedd awydd teulu i fod yn agos at berthynas oedd yn yr ysbyty (oherwydd Covid) a dim ond am rai diwrnodau y parhaodd, felly nid oedd angen gweithredu ymhellach.

**3.2.31** Un cais am 2 lain yn ardal yr Awdurdod. Gwrthodwyd hwn oherwydd ei fod, ymhlith materion eraill, yn groes i Bolisi GT2 ac mewn parth llifogydd, ac felly'n ceisio gosod datblygiad eithriadol fregus mewn lleoliad peryglus.

### Adroddiad Adolygu'r CDLl (2020)

**3.2.32** Mae'r Adroddiad Adolygu yn nodi'r prif faterion i'w hystyried wrth symud y CDLl presennol ymlaen, ac mae'n cyflwyno meysydd lle mae'r CDLl presennol yn cyflawni ac yn perfformio'n dda, yn ogystal â'r meysydd hynny lle gallai fod angen newidiadau. Mae'n bwysig nodi nad diben yr Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau y gellir eu gwneud i'r Cynllun. Nodir manylion a chwmpas unrhyw newidiadau trwy broses baratoi'r Cynllun Amnewid yn unig.

**3.2.33** Mae gan Gastell-nedd Port Talbot Gymuned sefydledig o Sipsiwn a Theithwyr. Mae Polisi SP9 yn darparu fframwaith polisi ar gyfer sicrhau bod darpariaeth ddigonol o leiniau i ddarparu ar gyfer anghenion y gymuned yn ystod cyfnod y Cynllun, trwy ddyrannu safle a darparu polisi meini prawf i asesu ceisiadau am safleoedd newydd. Llywiwyd y polisi gan ganfyddiadau Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr 2012 (GTAA), a nododd fod angen 20 o leiniau: 4 llain erbyn 2017; 7 llain erbyn 2022; a 9 llain erbyn 2026. I ddarparu ar gyfer yr angen yn y tymor byr i ganolig (11 o leiniau erbyn 2022) dyrannwyd estyniad i'r safle presennol yng Nghae Garw, Margam, gyda'r angen tymor hwy (9 llain rhwng 2023 a 2026) i dderbyn sylw trwy'r fframwaith monitro ar sail GTAAs wedi'u diweddaru.

**3.2.34** Mae gofyn cyflawni GTAA o leiaf bob 5 mlynedd, ac mae'r asesiad nesaf i gael ei gynnal erbyn 2021. Bydd yr astudiaeth hon yn nodi anghenion y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn ystod cyfnod y Cynllun Amnewid, a defnyddir hynny i ffurfio polisi newydd os nodir bod angen. Cwblhawyd yr estyniad o 11 o leiniau yng Nghae Garw yn 2016, ac felly bydd angen newid Polisi GT1 yn ystod yr adolygiad, i adlewyrchu'r asesiad newydd.

**3.2.35** Canfu Gweithgor y Swyddogion fod y dull polisi cyffredinol yn gweithio'n effeithiol. Ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu, cyhoeddwyd Cylchlythyr Cynllunio 005/2018 'Cynllunio ar gyfer Safleoedd i Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn', gan roi arweiniad ar y ddyletswydd i ddarparu safleoedd, gan wneud y gymuned yn rhan o'r broses, a chynnwys polisïau mewn cynlluniau datblygu. Gall fod angen rhai mân newidiadau i Bolisi GT2 i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cylchlythyr newydd.

**Cytundeb Cyflawni CDLl Amnewid 2021- 2036**

**3.2.36** Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar Gytundeb Cyflawni drafft rhwng 16 Awst 2021 a 27 Medi 2021. Pwrpas hynny oedd cyflwyno'r canlynol:

- Amserlen y Cyngor ar gyfer paratoi'r CDLlA, yn amlinellu gwahanol gyfnodau'r gwaith o baratoi'r cynllun, pryd cyflawnir y rhain, a phryd bydd ymgysylltu'n digwydd;
- Manylion Cynllun Cynnwys y Gymuned (CIS), sy'n manylu ar pwy fydd yn rhan o broses baratoi'r CDLlA a sut a phryd bydd cyfranogiad a chydweithio'n digwydd; a hefyd
- Yr adnoddau bydd yr Awdurdod yn eu buddsoddi er mwyn paratoi'r cynllun.

**3.2.37** Mae'r Cytundeb Cyflawni (CC) yn un o ofynion statudol y broses o baratoi'r Cynllun o dan Reoliad 9 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol)(Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cynlluniau Datblygu Lleol (Cymru) Newidiwyd 2015), a rhaid iddo gael ei gymeradwyo trwy benderfyniad gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru (LlC).

**3.2.38** Cafodd y Cyngor gymeradwyaeth gweinidogol i'r cytundeb ym mis Ionawr 2022, ac wedi hynny dechreuwyd ar y broses ffurfiol o baratoi Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLlA) 2021-2036.

## 4.1 Y Ddarpariaeth Lety Gyfredol

**Safleoedd Preswyl Cyhoeddus**

**4.1.1** Mae cymuned sefydledig o Sipsiwn a Theithwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot ac mae 67 o leiniau preswyl parhaol ar draws tri safle cyhoeddus awdurdodedig: lleolir dau safle ar Heol y Lanfa, Llansawel ac mae safle pellach yng Nghae Garw, ger Margam.

**4.1.2** Adeiladwyd safleoedd Heol y Lanfa a Chae Garw fesul cam dros gyfnod o amser; datblygwyd y safle gwreiddiol yn Llansawel yn y 1980au gyda'r rhan helaethaf o'r safle yn cael ei adeiladu'n ddiweddarach yn ystod y 1990au. Cwblhawyd dau gam gwreiddiol safle Cae Garw yn y 1990au hefyd, ac ychwanegwyd yr 11 llain ychwanegol yn 2016. Mae'r holl safleoedd hyn yn rhai parhaol, mae ganddynt ganiatâd cynllunio llawn ac maent ym mherchenogaeth yr Awdurdod Lleol.

**4.1.3** Rheolwyd yr holl safleoedd yn wreiddiol gan yr Awdurdod tan Fehefin 2000, pryd y trosglwyddwyd y rheolaeth i Gyngor Cenedlaethol y Sipsiwn (National Gypsy Council) gyda Chyngor Castell-nedd Port Talbot yn cadw rôl fach i gydgysylltu'n uniongyrchol â'r cyngor hwnnw. Parhaodd y trefniadau hyn tan fis Medi 2013, pryd y dychwelwyd cyfrifoldebau rheoli llawn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

**4.1.4** Ar ôl derbyn rheolaeth lwyr ar y safleoedd unwaith eto, asesodd yr Awdurdod safon y lleiniau ar bob safle a gweld eu bod wedi dirywio yn y blynyddoedd diweddar, yn bennaf oherwydd traul cyffredinol a chynnal a chadw cyfyngedig. I unioni'r sefyllfa, rhoddodd yr Awdurdod flaenoriaeth i'r gwaith angenrheidiol a chan ddefnyddio cyllid grant Llywodraeth Cymru a rhywfaint o adnoddau'r Cyngor ei hun, dechreuodd wneud gwelliannau a gwaith uwchraddio sylweddol.

**4.1.5** Nod y gwaith uwchraddio a gwella oedd gwella safonau byw ar draws yr holl safleoedd, gan sicrhau bod y lleiniau i gyd mewn cyflwr da i fyw ynddynt a sicrhau ansawdd bywyd da i'r preswylwyr. I grynhoi, roedd y gwelliannau'n cynnwys y canlynol:

- Gosod ffenestri a drysau newydd yn lle'r hen rai yn y blociau cyfleusterau;
- Gan fod y blociau cyfleusterau wedi dirywio, leiniwyd y waliau a'r nenfydau â chladin UPVC;
- Ailweirio'r trydan, gan gynnwys gosodiadau a ffitiadau newydd a blychau allanol sy'n gwrthsefyll y tywydd;
- Ffensys newydd i sgrinio a chynnig preifatrwydd i'r safleoedd; gosod ffensys a gatiau hefyd ar leiniau unigol er mwyn gwella diogeledd a diogelwch plant bach;
- Swyddfa safle newydd yn Llansawel i ddarparu cyfleusterau cymunedol ar gyfer cynnal cyfarfodydd a lle i warden/wardeniaid y safle gyflawni eu dyletswyddau;
- Gwella'r blociau cyfleusterau ac uwchraddio ceginau ac ystafelloedd ymolchi;
- Cynyddu nifer y lleiniau i 67.

**Lefelau eiddo gwag ar hyn o bryd**

**4.1.6** Datgelodd yr arolwg a gynhaliwyd yn haf 2021 fod lefelau'r eiddo gwag yn isel ar hyn o bryd, gyda 4% yn unig (3 o'r 67 o leiniau) yn wag. Roedd 2 lain ar safle Cae Garw, ac 1 ar Safle Newydd Llansawel.

### Gwersylloedd heb eu Hawdurdodi

**4.1.7** Yn gyffredinol, gwelwyd lefelau isel iawn o wersylloedd heb eu hawdurdodi yng Nghastell-nedd Port Talbot. Yn gynnar yn 2021 cafwyd gwersyll diawdurdod o 4 carafan, a gododd oherwydd bod angen i aelod hŷn o deulu mawr fynd i'r ysbyty yn Nhreforys oherwydd Covid-19. Daeth y teulu ynghyd i fod yn agos at yr ysbyty a chefnogi ei gilydd. Pan wellodd ei iechyd, gadawodd pawb ohonynt yr ardal lle roedden nhw wedi gwersylla.

**4.1.8** Cefnogir y darlun hwn gan y system fyw o gyfrif carafanau, na chofnododd ond 5 gwersyll heb eu hawdurdodi ers 2016. Roedd 3 o'r gwersylloedd hynny yn 2021, un yn 2018 ac un yn 2017. Ac eithrio'r ddau wersyll yn ardal Pontardawe, nid oes patrwm i leoliad na digwyddiad y gwersylloedd.

### Safleoedd Preifat

**4.1.9** Ar hyn o bryd mae un safle preifat yng Nghastell-nedd Port Talbot, sy'n cynnwys 1 llain ar gyfer 2 garafan. O fewn y 5 mlynedd diwethaf, dim ond dau gais cynllunio a gafwyd ar gyfer llain/safle newydd a wnaed ar ffurf darpariaeth breswyl breifat. Roedd y cyntaf ar gyfer 1 llain, a ganiatawyd ar sail apêl yn ardal wledig Margam yn 2018. Gwnaed yr ail yn hwyr yn 2020 yng Nghwm Dulais, ac eto roedd ar gyfer darpariaeth 2 lain. Gwrthodwyd caniatâd cynllunio i hwn ar 12 Chwefror 2021. Cyflwynwyd y naill gais a'r llall gan aelod o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr sy'n gysylltiedig â Chastell-nedd Port Talbot.

### Siewmyn Teithiol

**4.1.10** Nid ydym yn gwybod am unrhyw Siewmyn Teithiol sy'n byw yn barhaol yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae nifer o ffeiriau yn ymweld â'r ardal a'r un fwyaf o'r rhain yw Ffair Fedi Castell-nedd sydd â chysylltiad cryf â'r ardal ac sy'n rhan o'i hanes. Wedi i ni gysylltu â'r corff cynrychioliadol ar gyfer Siewmyn Teithiol, cadarnhawyd nad oes angen darparu llety ar eu cyfer yn ardal Castell-nedd Port Talbot.

### Safleoedd Tramwy / Darpariaeth o ran Safleoedd i Aros mewn Argyfwng

**4.1.11** Ar hyn o bryd nid oes gan Gastell-nedd Port Talbot Ddarpariaeth o ran Safleoedd Tramwy na Safleoedd i Aros mewn Argyfwng. Mae'r patrymau teithio a nodwyd ar draws CNPT, yn ogystal â'r nifer isel iawn o achosion o wersylloedd heb eu hawdurdodi, yn cadarnhau mai dyma'r sefyllfa gywir.

## 4.2 Canfyddiadau'r GTAA blaenorol

**4.2.1** Yn 2016, cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot arolwg mewnol yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru "Cynnal Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr" dan law Is-adrannau Strategaeth Tai a Pholisi Cynllunio'r Awdurdod. Cwblhawyd yr astudiaeth ym mis Chwefror 2016, a bu'n adolygu'r angen am lety i Sipsiwn a Theithwyr yn y Fwrdeistref Sirol yn ystod y cyfnod o 15 mlynedd hyd at 2027.

**4.2.2** Cyhoeddwyd GTAA 2016 yn fuan wedi i'r CDLl gael ei fabwysiadu. Nododd Astudiaeth 2016 nad oedd angen (gorgyflenwad o 3 llain) yn y tymor byr (2016 – 2021) ond y byddai angen 4 llain ar safleoedd preswyl cyhoeddus tua diwedd cyfnod y CDLl (2022 – 2026). Mae'r angen hwn yn cymryd i ystyriaeth y cyflenwad oedd yn deillio o'r 11 llain a gafodd ganiatâd cynllunio ym mis Chwefror 2015 a'r 2 lain ar safle Llansawel y dechreuwyd eu defnyddio eto. Ar gyfer gweddill cyfnod y CDLl (h.y. hyd at 2026) nododd yr asesiad fod angen 4 llain ychwanegol, nifer is na'r 9 llain a ragfynegwyd yn wreiddiol yn GTAA 2012.

**4.2.3** Oherwydd y diffyg cywirdeb ystadegol sy'n gysylltiedig â rhagfynegi anghenion tymor hwy y gymuned Sipsiwn a Theithwyr, sydd â ffordd nomadig gynhenid o fyw, barn y Cyngor oedd y byddai'r angen oedd yn weddill am leiniau yn cael ei adolygu fel rhan o Fframwaith Monitro'r CDLl, ac yn derbyn sylw wrth Fonitro'r Cynllun yn Flynyddol.

**4.2.4** Wrth gynnal astudiaeth 2016, cynhaliwyd cyfweliadau gyda'r holl aelwydydd ar y safleoedd presennol. Roedd cyfradd lwyddo'r cyfweliadau'n uchel, gyda 59 o gyfweliadau wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal (100%) - 56 o aelwydydd ar y tri safle, 2 mewn brics a morter, ac 1 mewn gwersyll heb ei awdurdodi.

### Cysylltiad Lleol

**4.2.5** Canfu'r arolwg fod gan ganran uchel o'r ymatebwyr, 45 allan o gyfanswm o 59 (76%), gysylltiad lleol â Chastell-nedd Port Talbot (naill ai trwy deulu neu drwy waith), dywedodd 13 o ymatebwyr eraill (22%) nad oedd llain amgen ar gael, a dywedodd 1 ymatebydd (2%) eu bod yn methu cael hyd i dŷ i symud iddo.

### Hyd Preswyliaeth

**4.2.6** O ran hyd preswyliaeth, roedd 42 o Ymatebwyr (72%) wedi byw ar eu safle presennol ers dros 5 mlynedd. Mae hyn yn gyferbyniad â 3 Ymatebydd (5%) oedd wedi bod yn byw ar y safle ers llai na mis. Mae'r data sy'n weddill yn datgelu bod 9 o'r Ymatebwyr (15%) wedi bod yn byw yno am gyfnod rhwng 1 mis a 2 flynedd, a bod 5 o'r Ymatebwyr (9%) wedi bod yn byw yno am gyfnod rhwng 2 a 5 mlynedd.

### Preswylfa Flaenorol

**4.2.7** Nododd 10 o'r Ymatebwyr (17%) eu bod wedi symud o fewn y flwyddyn ddiwethaf. O'r 10 hynny:

- Nododd 1 Ymatebydd eu bod yn byw ym Mwrdeistref Castell-nedd Port Talbot mewn 'Tŷ' cyn symud i Safle(oedd) Awdurdodedig yr Awdurdod Lleol;
- Cadarnhaodd 8 o'r Ymatebwyr eu bod yn byw tu allan i Fwrdeistref yr Awdurdod Lleol cyn symud i Safle(oedd) yr Awdurdod Lleol;
- Nododd 1 Ymatebydd eu bod yn byw rhwng 2 Fwrdeistref Awdurdod Lleol (Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr) mewn 'Carafan a Thŷ'.
- Roedd 2 Ymatebydd wedi nodi eu bod yn byw mewn tŷ ar y pryd;
- Roedd 3 Ymatebydd wedi nodi eu bod yn byw ar safleoedd carafannau, ac felly, gellir rhagdybio eu bod mewn carafan;
- Nododd 2 Ymatebydd eu bod yn byw wrth ymyl y ffordd, ac felly gallwn ragdybio eu bod mewn carafan;
- Roedd 1 Ymatebydd heb nodi'r math o lety y bu'n byw ynddo cyn dod i Fwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

### Hyd Arhosiad

**4.2.8** Gofynnwyd i'r ymatebwyr am ba hyd roedden nhw'n bwriadu aros yn ardal Castell-nedd Port Talbot. Atebodd pob Ymatebydd y cwestiwn hwn, gyda 50 o'r Ymatebwyr (85%) yn datgan nad oeddent yn bwriadu symud o'u safle presennol, doedd 7 o'r Ymatebwyr (11%) ddim yn gwybod pa mor hir bydden nhw'n aros ar y safle, nododd 1 Ymatebydd (2%) eu bod yn bwriadu aros am 3-28 diwrnod (gwersyll heb ei awdurdodi) nes eu bod wedi sicrhau llety amgen (ers hynny mae'r Ymatebydd wedi symud i lety preifat ar rent, a nododd 1 Ymatebydd (2%) eu bod yn bwriadu aros am fwy na 5 mlynedd.

## 4.3 Data Poblogaeth a Nifer y Carafannau

### Cyfrifiad 2011

**4.3.1** Roedd Cyfrifiad 2011 yn caniatáu i ymatebwyr nodi eu bod yn Sipsiwn a Theithwyr am y tro cyntaf. Yng Nghymru a Lloegr yn eu cyfanrwydd, nodwyd bod 58,000 o bobl yn y categori hwn, oedd yn cyfrif am 0.1% o boblogaeth gyffredinol Cymru a Lloegr, sef y lleiaf o'r holl grwpiau ethnig a restrwyd yn y Cyfrifiad. O'r ymatebwyr hyn, roedd y gyfran uchaf o aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr (61%) yn byw mewn tŷ neu fyngalo, gyda 24% o aelwydydd yn byw mewn carafannau neu fathau eraill o strwythurau symudol neu dros dro.

**4.3.2** O'r rhai a nododd eu bod yn Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru a Lloegr, roedd cyfran uchel, 39% ohonynt, o dan 20 oed, oedd yn sylweddol uwch nag ym mhoblogaeth gyfan Cymru a Lloegr, lle'r oedd 24% yn perthyn i'r categori oed hwn. Roedd oedran canolrifol y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yn 26, o gymharu ag oedran canolrifol o 38 yn achos cyfanswm poblogaeth Cymru a Lloegr. O ran ffurfio teuluoedd, roedd 45% o'r aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn cynnwys plant dibynnol, o gymharu â 29% (cyfartaledd Cymru a Lloegr yn eu cyfanrwydd).

**4.3.3** Er bod cynnwys Sipsiwn a Theithwyr fel grŵp ethnig yn y Cyfrifiad yn ychwanegiad cadarnhaol i'r arolwg, dylid nodi nad yw'r ffigurau hyn o bosibl yn cynrychioli'r gymuned gyfan am nifer o resymau. Y categori yn y Cyfrifiad oedd 'Gwyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig'; ac er y byddai rhai o aelodau'r gymuned o bosibl yn nodi eu hunain yn y categori hwn, gallai fod gan eraill gysylltiad cryfach â chategorïau ethnig eraill fel Gwyn Gwyddelig, Roma, Siewmyn Teithiol neu Deithwyr Newydd, na fyddent o bosibl yn nodi eu hunain yn y grŵp ethnig Sipsiwn a Theithwyr. Ar ben hynny, mae'n bosibl bod Sipsiwn a Theithwyr heb gymryd rhan yn y Cyfrifiad mewn rhai achosion neu wedi gwrthod nodi eu hethnigrwydd rhag ofn dioddef gwahaniaethu yn eu herbyn.

**4.3.4** Yng Nghymru yn unig, rhoddodd 2,785 o Sipsiwn a Theithwyr eu hunain yn y grŵp ethnig 'Gwyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig', ac roedd 125 o'r trigolion hyn yn preswylio yng Nghastell-nedd Port Talbot, sy'n cynrychioli llai nag 1% o holl boblogaeth y Fwrdeistref Sirol.

**Tabl 4.3.1 Cyfanswm y Boblogaeth a'r Boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr**

| Categori | Pob categori – Math o lety | Tŷ neu Fyngalo Cyfan – Cyfanswm | Tŷ neu Fyngalo Cyfan – Ar ei ben ei hun | Tŷ neu Fyngalo Cyfan – Hanner Pâr | Tŷ neu Fyngalo Cyfan - Teras | Fflat, Rhandy neu Fflat deulawr, neu lety symudol neu dros dro |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CNPT Pob categori | 138,682 | 129,754 | 30,519 | 63,094 | 36,141 | 8,928 |
| CNPT Gwyn; Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | 125 | 51 | 17 | 24 | 10 | 74 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 (ONS_DC2121EW - Ethnic Group by Accommodation Type - from Nomis, 27 July 2015).

**4.3.5** Mae Tabl 4.3.2 ar dudalen 23 yn dangos nifer yr aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr fesul Awdurdod Lleol. O gymharu â gweddill Cymru, mae'r Cyfrifiad yn dangos bod Castell-nedd Port Talbot yn y pedwerydd safle yng Nghymru o ran nifer yr aelwydydd sy'n byw mewn carafán neu strwythur symudol neu dros dro arall. Dim ond Caerdydd, Sir Benfro a Thorfaen sydd â mwy o aelwydydd yn byw yn y math hwn o lety.

**4.3.6** Dengys y tabl fod 25 o aelwydydd yn byw mewn carafannau neu mewn math arall o strwythur symudol neu dros dro yng Nghastell-nedd Port Talbot. Fodd bynnag, ar adeg y Cyfrifiad, roedd 54 o leiniau preswyl yn y Fwrdeistref Sirol, gyda lefelau uchel o feddiannaeth yn gyffredinol. Mae'n bosibl felly fod mwy o grynodiad o Sipsiwn a Theithwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot, ac yn wir mewn rhannau eraill o Gymru, na'r hyn a nodwyd yn y Cyfrifiad. Am y rheswm hwn, a chan fod y sampl yng Nghastell-nedd Port Talbot yn gymharol fach, er bod y Cyfrifiad yn rhoi syniad defnyddiol o'r ffactorau demograffig a chymdeithasol, mae'n anodd dod i gasgliadau ystyrlon ynghylch twf yn y dyfodol, yn enwedig gan nad oedd Cyfrifiad 2001 yn cynnwys Sipsiwn a Theithwyr fel categori ethnig. Gan hynny, bydd y cyfrifiad carafannau chwe-misol, a'r holiadur sy'n rhan o'r arolwg hwn, yn darparu dadansoddiad manylach o anghenion y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn awr ac yn y dyfodol.

**Tabl 4.3.2 Cyfrifiad 2011: Nifer/Math yr Aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr fesul Awdurdod Lleol**

| | Cyfanswm – Math o Lety | Tŷ neu Fyngalo | Fflat, Rhandy neu Fflat Deulawr | Carafan neu Strwythur arall Symudol neu dros dro |
|---|---|---|---|---|
| Cymru | 1,004 | 602 | 116 | 286 |
| Blaenau Gwent | 30 | 15 | 0 | 15 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 26 | 18 | 4 | 4 |
| Caerffili | 14 | 11 | 0 | 3 |
| Caerdydd | 158 | 70 | 36 | 52 |
| Sir Gaerfyrddin | 120 | 91 | 7 | 22 |
| Ceredigion | 29 | 21 | 5 | 3 |
| Conwy | 33 | 29 | 3 | 1 |
| Sir Ddinbych | 16 | 11 | 4 | 1 |
| Sir y Fflint | 38 | 30 | 1 | 7 |
| Gwynyedd | 72 | 54 | 11 | 7 |
| Ynys Môn | 30 | 19 | 6 | 5 |
| Merthyr Tydfil | 29 | 16 | 4 | 9 |
| Sir Fynwy | 3 | 3 | 0 | 0 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | **47** | **20** | **2** | **25** |
| Casnewydd | 28 | 23 | 3 | 2 |
| Sir Benfro | 151 | 75 | 14 | 62 |
| Powys | 52 | 31 | 6 | 15 |
| Rhondda Cynon Taf | 22 | 16 | 3 | 3 |
| Abertawe | 20 | 13 | 3 | 4 |
| Bro Morgannwg | 6 | 4 | 0 | 2 |
| Torfaen | 50 | 15 | 2 | 33 |
| Wrecsam | 30 | 17 | 2 | 11 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

### Cyfrifiad 2021

**4.3.7** Bydd Cyfrifiad 2021 yn rhoi ffigur cywirach ar gyfer poblogaeth Sipsiwn a Theithwyr CNPT, ond nid oedd y data hwn ar gael ar gyfer GTAA 2022 oherwydd ei fod i gael ei gyhoeddi rywbryd rhwng gwanwyn 2022 a gwanwyn 2023.

**Gwasanaeth Dysgwyr Bregus CNPT**

**4.3.8** Mae cofnodion Gwasanaeth Dysgwyr Bregus CNPT yn dangos bod 113 o ddisgyblion, ar 2 Chwefror 2021, wedi cofrestru ac yn ymwneud ag addysg sy'n nodi eu bod yn Sipsiwn a Theithwyr. Mae pob disgybl yn cael mynediad i'r gefnogaeth arferol yn yr ysgol, yn ogystal ag ymwneud y sefydliadau 'Teithio Mlaen' a'r 'Gwasanaeth Gweithredu Ieuenctid' â'r Ysgol.

**4.3.9** Dengys dadansoddiad o'r cofnodion, o'r 113 o Ddisgyblion cofrestredig, fod 45 (39.8%) yn cael eu haddysgu gartref, a bod y 68 oedd yn weddill (60.2%) yn cael eu haddysgu mewn 17 o'r ysgolion lleol oedd yn gweithredu yn y Fwrdeistref Sirol. Rhaniad rhywedd y rhai oedd yn cael eu haddysgu gartref oedd 57 o Wrywod a 56 o Fenywod, ac mae'r tabl isod yn dangos proffil oed yr holl blant ym myd addysg.

**4.3.10** O'r disgyblion hynny oedd yn derbyn addysg mewn amgylchedd ysgol ffurfiol; roedd 50 o ddisgyblion mewn 13 o Ysgolion Cynradd/Iau, oedd yn darparu ar gyfer disgyblion 3-7 oed; ac roedd 17 o ddisgyblion mewn 4 Ysgol Gyfun/Canolfan 6ed Dosbarth, oedd yn darparu ar gyfer disgyblion 11+ oed.

**4.3.11** Nid oedd yr un o'r 17 Ysgol yn rhai cyfrwng Cymraeg, felly mae'r holl blant yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r 46 plentyn sy'n weddill ar draws yr holl grwpiau oed yn cael eu haddysgu gan eu rhiant gartref gyda chefnogaeth Gwasanaeth Dysgwyr Bregus CNPT.

**Tabl 4.3.3 Ystod Oed y Disgyblion Sipsiwn a Theithwyr sy'n derbyn Addysg (o fewn a'r tu allan i Amgylchedd Ysgol ffurfiol)**

| OED | CYFANSWM |
|---|---|
| 3 oed | 0 |
| 4 oed | 3 |
| 5 oed | 5 |
| 6 oed | 16 |
| 7 oed | 11 |
| 8 oed | 8 |
| 9 oed | 10 |
| 10 oed | 3 |
| 11 oed | 7 |
| 12 oed | 10 |
| 13 oed | 7 |
| 14 oed | 15 |
| 15 oed | 7 |
| 16 oed | 6 |
| 17 oed | 5 |
| CYFANSWM | 113 |

Ffynhonnell; Cofnodion y Gwasanaeth Dysgwyr Bregus

### Cyfrifiad Carafannau

**4.3.12** Cynhelir y Cyfrifiad Carafannau Sipsiwn a Theithwyr gan awdurdodau lleol yng Nghymru, a chaiff y data ei goladu gan Lywodraeth Cymru. Cyfrifir nifer y carafannau ac nid nifer yr aelwydydd neu'r lleiniau. Mae'r Cyfrifiad yn cofnodi p'un a yw'r carafannau ar safleoedd awdurdodedig neu rai heb eu hawdurdodi, a ph'un a yw'r safleoedd yn gyhoeddus neu'n breifat.

**4.3.13** Cynhelir cyfrifiadau carafannau bob chwe mis, ar ddiwrnod penodol ym mis Ionawr a mis Gorffennaf bob blwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal system riportio lle gellir cofnodi unrhyw wersyll heb ei awdurdodi sy'n digwydd ar adeg heblaw'r ddau ddiwrnod hynny. Mae'r system fyw hon, sy'n rhedeg yn annibynnol, yn bodoli ochr yn ochr â'r dull traddodiadol o gyfrif carafannau ddwywaith y flwyddyn.

**4.3.14** Cynhaliwyd y cyfrifiad carafannau mwyaf diweddar yng Ngorffennaf 2021, gyda 22 o awdurdodau lleol yn cymryd rhan yn yr astudiaeth. Cofnododd y cyfrifiad gyfanswm o 1,095 o garafannau Sipsiwn a Theithwyr ar draws cyfanswm o 143 o safleoedd. Roedd hyn yn cynrychioli cynnydd o 2.8% (30 carafan) yn nifer y carafannau, a chynnydd o 2.9% (4) yn nifer y safleoedd (awdurdodedig a heb eu hawdurdodi) o gymharu â'r cyfrifiad blaenorol yn Ionawr 2021. O'r 1,095 o garafannau a gofnodwyd, roedd 85% ohonynt (928 o garafannau)

ar safleoedd awdurdodedig ac o'r rheiny roedd 618 (67%) ar leiniau Awdurdod Lleol, a 310 (33%) ar safleoedd preifat. Nid oedd modd cymharu â chyfrifiad Gorffennaf 2020 oherwydd na chynhaliwyd cyfrifiad bryd hynny yn sgîl pandemig Covid-19.

**4.3.15** Ar adeg yr astudiaeth, roedd cyfanswm o 409 o leiniau parhaol awdurdodedig yn cael eu darparu gan Awdurdodau Lleol, ac roedd 10 ohonynt yn wag. Roedd 2 lain arall, rhai tramwy, yn cael eu darparu gan Awdurdodau Lleol, a oedd fel ei gilydd (2 lain) yn wag ar adeg cynnal yr astudiaeth. Caerdydd, Sir Benfro a Chastell-nedd Port Talbot oedd â'r nifer uchaf o leiniau'n cael eu darparu gan awdurdodau lleol (80, 73 a 67 o leiniau yn eu tro), sy'n cyfrif am fwy na hanner cyfanswm yr holl leiniau (54%).

**Tabl 4.3.4 Cyfrifiad Carafannau Chwemisol Castell-nedd Port Talbot (Gorffennaf 2016-2021)**

| Dyddiad | Ion 2016 | Gorff 2016 | Ion 2017 | Gorff 2017 | Ion 2018 | Gorff 2018 | Ion 2019 | Gorff 2019 | Ion 2020 | Gorff 2020 | Ion 2021 | Gorff 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y Carafannau | 92 | 98 | 103 | 95 | 97 | 99 | 108 | 100 | 101 | Amh | 97 | 110 |

# 5 Methodoleg

## 5.1 Methodoleg yr Astudiaeth

**5.1.1** Yn dilyn trafodaethau gyda chydweithwyr yn y Cyngor, cytunwyd y byddai'r Astudiaeth yn cael ei chynnal yn 'Fewnol', gan fod GTAA blaenorol a wnaed gan ymgynghorwyr allanol wedi sicrhau cyfradd ymateb wael o gymharu â 2016, pan gafwyd cyfradd ymateb o 100%. Cytunwyd bod y Cyngor yn dal mewn sefyllfa i ddefnyddio gwybodaeth a sgiliau ei staff, yn ogystal ag adeiladu ar y berthynas dda gydag aelodau o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn lleol, yn enwedig yr aelodau hynny sy'n byw ar safleoedd presennol dan ofal y Cyngor yng Nghastell-nedd Port Talbot.

**5.1.2** Cytunwyd y byddai Polisi Cynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn ymgymryd â gwaith Rheoli Prosiect llawn yr Arolwg Sipsiwn a Theithwyr, gyda chymorth Swyddogion y Strategaeth Tai; roedd hyn yn cynnwys cydlynu Grŵp Llywio Prosiect Sipsiwn a Theithwyr, a chynhyrchu Adroddiad Asesu a fyddai'n cyfrifo lefel yr Anghenion Llety, i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar ôl ei gwblhau. Byddai Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr y Cyngor yn helpu i hyrwyddo'r astudiaeth ymhlith aelwydydd hysbys, gan gynnal yr Arolwg Llety gyda'r bwriad o gyfweld â phob aelwyd Sipsiwn a Theithwyr 'hysbys' yn y Fwrdeistref Sirol (hyd at 3 gwaith, yn unol â Rhestr Wirio/Chanllawiau Ymgysylltu Llywodraeth Cymru) a delio ag unrhyw gwestiynau ar adeg y cyfweliad neu ar y safle.

**5.1.3** Defnyddiwyd dull gweithredu 'pell-gyrhaeddol' wrth gwblhau'r asesiad hwn, a manylir ar hynny yn yr is-adrannau sy'n dilyn:

## 5.2 Grŵp Llywio'r Prosiect ac Ymgynghori

**5.2.1** Roedd y Grŵp Llywio Sipsiwn a Theithwyr yn cynnwys partneriaid a rhanddeiliaid allweddol (a restrir isod) yr oedd eu cylch gorchwyl yn cynnwys cynrychioli a/neu weithio gyda'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot:

- Tîm Strategaeth Tai Cyngor Castell-nedd Port Talbot;
- Tîm Polisi Cynllunio Cyngor Castell-nedd Port Talbot;
- Y Cynghorydd Annette Wingrave (yr Aelod Cabinet â chyfrifoldeb am y CDLl);
- Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Castell-nedd Port Talbot;
- Wardeniaid Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr (trwy gyswllt rheolaidd ac adborth);
- Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol, Tîm Gofal Plant a Hawliau Teithwyr Cyngor Castell-nedd Port Talbot;
- Swyddog Cydraddoldeb ac Ymgysylltu Cyngor Castell-nedd Port Talbot;
- Gwasanaeth Dysgwyr Bregus Castell-nedd Port Talbot;
- Cynrychiolydd Tai Tarian a Thai Coastal;
- Ymwelwyr Iechyd ar gyfer y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg;
- Uwch-swyddog y Rhaglen: Teithio Ymlaen - Achub y Plant;
- Cynrychiolwyr o The Wallich;
- Cynrychiolwyr o Thrive – Cymorth i Fenywod;
- Y Cydlynydd Ardal Leol;
- Cadeirydd Fforwm Amlasiantaeth Ranbarthol Sipsiwn a Theithwyr (Bae Abertawe);
- Cynrychiolydd o 'Voices Have Spoken' – Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol Bae Abertawe;
- Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol (Abertawe, CNPT a Phen-y-bont);
- Cynghorydd Lleol Llansawel;

- Cynghorydd Lleol Margam;
- Cynrychiolwyr o Heddlu De Cymru;
- Cynrychiolwyr o Wasanaeth Ieuenctid Teuluoedd yn Gyntaf CNPT.

**5.2.2** Roedd gan y Grŵp Llywio Sipsiwn a Theithwyr rôl sylfaenol o ran cyflawni'r astudiaeth ac o ran sicrhau bod y broses yn cael ei llywio gan yr holl arbenigedd oedd ar gael er mwyn llunio'r asesiad mwyaf effeithiol posibl. Ymgynghorwyd yn llawn â'r grŵp ynghylch y GTAA cyn, yn ystod ac ar ôl yr Asesiad; gan roi'r cyfle mwyaf posibl i ddarparu adborth.

**5.2.3** Cafodd Grŵp Rhannu Gwybodaeth ei ystyried, ond oherwydd yr oedi a achoswyd gan gyfyngiadau Covid-19 a'r angen am symud ymlaen gyda'r arolwg ei hun, roedd y Grŵp Rhannu Gwybodaeth i gyd yn aelodau o'r Grŵp Llywio ac yn bwydo'u gwybodaeth yn uniongyrchol i'r Grŵp Llywio heb golli unrhyw werth o'r ymarferiad oedd ar waith – yr arolwg.

**5.2.4** Dyma'r aelodau o'r Grŵp Llywio oedd yn gallu darparu data ar gyfer croesgyfeirio:

- Tîm Strategaeth Tai Cyngor Castell-nedd Port Talbot;
- Tîm Polisi Cynllunio Cyngor Castell-nedd Port Talbot;
- Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Castell-nedd Port Talbot;
- Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol Cyngor Castell-nedd Port Talbot, y Tîm Gofal Plant a Hawliau Teithwyr;
- Uwch Swyddog y Rhaglen: Teithio Ymlaen – Achub y Plant;
- Swyddog Cyswllt Teithwyr Cyngor Dinas Abertawe;
- Ymwelwyr Iechyd Bwrdd Iechyd Bae Abertawe ar gyfer y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr;
- Cynrychiolydd o 'VoicesHave Spoken' – Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol Bae Abertawe;
- Gwasanaeth Dysgwyr Bregus Castell-nedd Port Talbot.

**5.2.5** Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Grŵp Llywio GTAA 2022 ar 6 Gorffennaf, 2021. Diben y cyfarfod cyntaf hwn oedd rhoi trosolwg o'r ymarferiad asesu a chynnig cyfle i rannu gyda phartneriaid allweddol, oedd yn fwyaf tebygol o fod â mynediad at y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr leol, yr holl wybodaeth berthnasol ynghylch yr ymarferiad. Cadarnhaodd y cyfarfod cyntaf hwn aelodaeth y Grŵp Llywio, gan gynnwys aelodau o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn ogystal trwy gyswllt cyson yn hytrach na phresenoldeb yn y sesiynau.

**5.2.6** Penderfynodd y Grŵp Llywio yn fuan y byddai Tîm yr Arolwg yn cynnwys swyddogion CBSCNPT oedd i gyd â chysylltiadau hirdymor â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr, ac a oedd i gyd yn cael eu trystio ganddyn nhw. Bu agenda'r Grŵp Llywio hefyd yn sôn am bwysigrwydd nodi unrhyw Sipsiwn a Theithwyr oedd yn byw mewn llety brics a morter, y gallai fod angen (oherwydd anhawster seicolegol byw mewn llety o'r fath) iddyn nhw fyw mewn cartref symudol ar safle Sipsiwn a Theithwyr.

**5.2.7** Cytunwyd ar amserlen ar gyfer yr arolwg, ynghyd â'r protocolau Covid i'w dilyn.

**5.2.8** Cytunwyd ar sut byddai'r arolwg yn cael ei rannu ymhlith tîm yr arolwg, ac y byddai ymweliadau safle i wneud y ddwy gymuned a sipsiwn "brics a morter" yn ymwybodol bod yr arolwg ar fin digwydd a pham dylen nhw fod yn rhan ohono.

**5.2.9** Cytunwyd ar sesiwn hyfforddi ynghylch sut i gynnal yr arolwg, a chafwyd presenoldeb llawn ynddi rai diwrnodau'n ddiweddarach.

**5.2.10** Cytunwyd ar ymarferiad cynyddu ymwybyddiaeth hefyd, oedd yn cynnwys poster/taflen i'r safleoedd ac i bob carafan, meddygfa, deintyddfa, fferyllfa ac ysgol, a phob Aelod o'r Cyngor. Byddai hynny'n digwydd cyn yr arolwg i roi amser i'r gymuned ddeall gwerth yr ymarferiad iddyn nhw ac ystyried eu hymatebion. Byddai hefyd yn rhoi cyfle i'r "gair fynd ar led" ar y ddau safle, ond hefyd, yn bwysicach, ymhlith y "gymuned gudd" mewn brics a morter.

**5.2.11** Cynhaliwyd cyfarfod pellach o'r Grŵp Llywio i ystyried y canlyniadau a GTAA drafft 2022 ar 11 Ionawr 2022, lle bu trafodaeth fanwl yn troi o gwmpas y pwyntiau canlynol:

- Data Cyfrifiad 2011 a'r lefel wael o fanylder a ddisgwylid o Gyfrifiad 2021 oedd ar ddod
- Anghenion addysg plant Sipsiwn a Theithwyr a'r gyfran uchel oedd yn cael addysg gartref.
- Ymgysylltu â Siewmyn Teithiol a'r anghenion llety a gadarnhawyd ganddynt yn awdurdod cymdogol Abertawe. Cytunwyd i gysylltu â Llywodraeth Cymru ar wahân i fynegi pryderon nad yw Siewmyn Teithiol yn ystyried eu hunain yn rhan o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn ôl diffiniad y ddeddfwriaeth. Hefyd i ofyn am adolygu'r holiadur yn y Canllawiau ar gyfer Cynnal Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr (2015) gyda golwg ar roi arweiniad pellach ar ymgysylltu priodol â'r Gymuned Siewmyn Teithiol a'r Gymuned Romani yn benodol.
- Pryderon ynghylch gwelliannau gofynnol i gyfleusterau ar safleoedd o ystyried digwyddiadau gwrthgymdeithasol diweddar.
- Pwysau canfyddedig am lety gan awdurdodau cymdogol Pen-y-bont ac Abertawe, oherwydd nad oedd ganddynt ddarpariaeth ddigonol o leiniau i gwrdd â'r angen. Fodd bynnag, cadarnhaodd trafodaeth rhwng swyddogion nad oedd y naill awdurdod na'r llall yn derbyn ymatebion arolwg oedd yn nodi angen yng Nghastell-nedd Port Talbot nac fel arall.
- Nid oedd y gymuned oedolion yn disgwyl i'w plant ffurfio aelwydydd newydd o fewn eu cymuned bresennol.

**5.2.12** Rhoddwyd cyflwyniad cynhwysfawr i'r Grŵp Llywio Sipsiwn a Theithwyr yn nodi'r fethodoleg, canfyddiadau'r arolwg a chyfrifiadau o ran yr angen am leiniau yn y dyfodol. Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, derbyniwyd casgliadau'r asesiad, a chyflwynwyd y camau nesaf gweithdrefnol.

**Cynnwys y Gymuned**

**5.2.13** Wrth ffurfio'r Grŵp Llywio, defnyddiodd yr Awdurdod wahanol ddulliau i roi cyhoeddusrwydd i'r astudiaeth yn y gymuned Sipsiwn a Theithwyr a'u hannog i gyfranogi.

**5.2.14** Yn y Grŵp Llywio cyntaf roedd y partneriaid a'r sefydliadau oedd yn gweithio gyda'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn gytûn mai'r "gair llafar" fyddai'r dull gorau o roi cyhoeddusrwydd i'r astudiaeth. Cytunodd holl aelodau'r Grŵp Llywio i fynd ati i gynyddu ymwybyddiaeth a chytunwyd i lunio poster/taflen fyddai'n cefnogi hynny, ynghyd â'u rôl yn eu dosbarthu (Atodiad A).

**5.2.15** Ers i'r Awdurdod Lleol ailysgwyddo cyfrifoldebau rheoli llawn dros y tri safle ym mis Medi 2013, mae Swyddog Cyswllt Sipsiwn yr Awdurdod wedi meithrin perthynas dda gyda'r gymuned. Mae Fforwm Sipsiwn a Theithwyr CNPT hefyd wedi ffurfio perthynas gadarnhaol iawn gyda'r safleoedd a'r Sipsiwn a'r Teithwyr hynny sydd mewn brics a morter, gan eu bod yn gweithio'n rheolaidd gyda'r gymuned. Bu tîm yr arolwg, oedd yn cynnwys y Swyddog

Cyswllt, Gweithwyr Cymdeithasol Uwch, aelodau o'r Gwasanaeth Dysgwyr Bregus, Cydlynydd Ardal a Gweithiwr Cymorth, yn ymweld â phob aelwyd sy'n byw ar y safleoedd awdurdodedig i egluro diben yr astudiaeth wrth y preswylwyr ac i ateb unrhyw gwestiynau. Yn ystod yr ymweliadau hyn, dosbarthwyd y posteri/taflenni oedd yn hysbysebu'r astudiaeth ac yn ei hegluro, a'u gadael yn yr ardaloedd cymunedol.

**5.2.16** Rhoddwyd Côd QR hefyd ar y poster/daflen, fel bod modd i'r holl wybodaeth gael ei harddangos ar ffonau pobl. Trefnwyd llinell ffôn benodedig i ateb unrhyw ymholiadau neu rannu manylion cyswllt y tu allan i oriau, fel nad oedd unrhyw gyfle'n cael ei golli. Dosbarthwyd y poster/daflen hefyd i feddygfeydd, fferyllfeydd, deintyddfeydd, ysgolion a LCCiaid lleol, ac unrhyw le y gallai pobl fod yn galw heibio ac yn treulio peth amser yn aros.

**5.2.17** Bu aelodau o'r Wallich o gymorth mawr yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r astudiaeth ac yn sicrhau cytundeb i gymryd rhan. Roedden nhw'n bwynt cyswllt defnyddiol ar gyfer "sipsiwn cudd" mewn brics a morter.

**5.2.18** Chwiliwyd am gynrychiolwyr preswylwyr trwy wardeniaid y safleoedd (mae un ar bob safle, ac mae'r naill a'r llall o'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr ac yn byw ar y safle). Teimlai'r ddwy ochr y gallai'r Grŵp Llywio eu llethu, ac felly mai cyswllt clos ac adborth oedd y dewis amgen gorau er mwyn sicrhau bod cynifer o'r trigolion â phosibl (ar y safle ac oddi arno) yn ymwybodol ac yn barod i gyfrannu, ac yn derbyn gwybodaeth lawn ynghylch cynnydd.

**5.2.19** Defnyddiwyd dwy o dudalennau CBSCNPT ar y we, rhai Cynllunio a Thai, hefyd i gynyddu ymwybyddiaeth o'r astudiaeth a chyfeirio ymlaen at dîm yr arolwg.

**5.2.20** Un rhan hanfodol o'r broses hyd yma fu'r ymrwymiad i roi cyhoeddusrwydd i ganlyniadau'r GTAA. Y bwriad, wedi i'r arolwg gael ei gyhoeddi, yw bod wardeniaid y safleoedd yn cael gwybod, a bod llythyron yn cael eu dosbarthu â llaw i'r holl drigolion a fu'n rhan o'r astudiaeth i roi gwybod iddynt am y canfyddiadau.

**5.2.21** Cam nesaf y broses fydd bod swyddogion enwebedig ar gael i drafod unrhyw agwedd ar ganfyddiadau'r Asesiad.

**Sesiwn Briffio Cyngor Castell-nedd Port Talbot**

**5.2.22** Roedd yr Aelodau Cabinet sy'n gyfrifol am Gynllunio a Thai, ynghyd â Chynghorwyr y wardiau sydd â safleoedd swyddogol yn eu hetholaethau, i gyd yn aelodau o'r Grŵp Llywio. Gwnaed yr holl Aelodau eraill yn ymwybodol o'r astudiaeth, gan iddi gael ei hesbonio wrthyn nhw mewn e-bost. Roedd cyfyngiadau Covid yn golygu nad oedd modd cynnal Sesiwn friffio ffurfiol, fel y gwnaed yn y gorffennol.

**5.2.23** Roedd yr e-bost yn esbonio Canllawiau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys trosolwg o'r Astudiaeth a'r broses y byddai'r Awdurdod yn ei dilyn. Darparwyd manylion cyswllt ar gyfer unrhyw aelodau fyddai â chwestiwn i'w godi.

**Cyfarfodydd Mewnol**

**5.2.24** Cynhaliwyd cyfarfodydd yn rheolaidd bob pythefnos ac yn bresennol yn y rhain yr oedd cynrychiolwyr o Dîm Polisi Cynllunio oedd yn mynychu Fforwm Sipsiwn a Theithwyr CNPT, oedd yn gyfrifol am ardaloedd yn y Fwrdeistref lle roedd Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng ngofal y Cyngor, ynghyd â mynediad at y Sipsiwn a'r Teithwyr hynny oedd wedi symud

i mewn i frics a morter, ond oedd yn dal ag angen am rai gwasanaethau cefnogi. Diben y cyfarfodydd hyn oedd datblygu cynllun y prosiect a'i symud ymlaen a dyrannu tasgau, yn ogystal â rhoi cyfle i ddatrys problemau lle'r oedd angen.

**Cyfathrebu trwy e-bost**

**5.2.25** Defnyddiwyd negeseuon electronig i gyfathrebu â'r holl bartneriaid allweddol perthnasol gan gynnwys asiantaethau cymorth a gwasanaethau digartrefedd rheng flaen i dynnu sylw'r sefydliadau at yr astudiaeth a gofyn am eu cymorth i nodi aelodau o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr er mwyn i ni fedru cyrraedd cynifer o aelodau o'r gymuned â phosibl, gan gynnwys y bobl sy'n byw mewn tai brics a morter.

**5.2.26** Ar hyd mis Gorffennaf, 2021, cysylltwyd trwy e-bost â nifer o sefydliadau cymorth cymunedol lleol oedd yn darparu gwasanaeth i Gymunedau Sipsiwn a Theithwyr, i ofyn am eu help i gael hyd i unrhyw aelodau o'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr oedd yn byw ym Mwrdeistref Castell-nedd Port Talbot – 'dros ben' y rhai oedd yn byw ar safleoedd sefydledig yng ngofal y Cyngor. Yn dilyn hynny, bu Urdd y Siewmyn yn cysylltu â'r Tîm Polisi Cynllunio i drafod eu hanghenion llety, a bu'r Wallich yn hanfodol wrth ganfod manylion cyswllt ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr mewn Llety Brics a Morter.

**Amserlen yr Arolwg**

**5.2.27** Ar ôl ymgynghori ag aelodau o Grŵp Llywio'r Prosiect Sipsiwn a Theithwyr, cytunwyd y byddai tîm llawn yr arolwg (a fyddai'n ymgymryd ag ymarferiad yr arolwg), yn dilyn fformat yr holiadur yn ei drefn, ac na fyddent yn newid trefn gofyn y cwestiynau ond lle bernid bod hynny'n briodol i ymgysylltu â'r Cyfwelai. Cytunwyd y dylid ychwanegu cwestiwn at ddiwedd yr holiadur, i roi cyfle i'r ymatebwyr roi unrhyw adborth arall ar eu hanghenion.

**5.2.28** Cynhaliwyd yr Arolwg dros gyfnod o ychydig dros 9 wythnos, o 13 Gorffennaf, 2021 tan 16 Medi, 2021, yn gynhwysol. Estynnwyd cyfnod yr arolwg cychwynnol tan 27 Medi 2021 er mwyn casglu ymatebion gan rai aelwydydd nad oedd modd ymweld â nhw oherwydd achosion positif o Covid-19. Yn ystod y cyfnod hwnnw, cynhaliwyd 56 o gyfweliadau wyneb yn wyneb gydag aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr – bu'n rhaid ymweld â rhai aelwydydd fwy nag unwaith i sicrhau cyswllt (ac i fodloni Rhestr Wirio Llywodraeth Cymru ar gyfer ymgysylltu). Lle nad oedd modd cynnal cyfweliad wyneb yn wyneb, cynhaliwyd 9 cyfweliad dros y ffôn.

**Ymgysylltu ag Awdurdodau Eraill**

**5.2.29** Mae Castell-nedd Port Talbot yn ffinio â'r ardaloedd Awdurdod Lleol canlynol: Pen-y-bont ar Ogwr, Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Powys a Rhondda Cynon Taf (RhCT). Cynhaliwyd trafodaethau â'r Awdurdodau hyn ynghylch proses y GTAA ac i ddeall cyd-destun rhanbarthol y gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Trafodwyd y math o wybodaeth yr oedd pob Awdurdod Lleol yn ei chadw a cheisiwyd dod i gytundeb ynghylch pa wybodaeth y gellid ei chasglu a'i rhannu ag eraill, er cysondeb.

**5.2.30** Mae gan bob Awdurdod Lleol yn y rhanbarth wahanol lefelau o ddarpariaeth llety a threfniadau rheoli. Sir Gaerfyrddin sydd yn yr ail safle o ran nifer y lleiniau Sipsiwn a Theithwyr, gydag un safle cyhoeddus a 4 safle preifat. Castell-nedd Port Talbot yw'r unig Awdurdod Lleol sydd â dim ond safleoedd cyhoeddus yng ngofal yr Awdurdod Lleol, ac mae safleoedd cyhoeddus a phreifat yn Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Powys, a Rhondda Cynon Taf. Mae safleoedd heb eu hawdurdodi ond sy'n cael eu goddef yn RhCT, Abertawe a Phowys ac mae safle tramwy mawr ym Mhowys ar hyn o bryd, gyda rhyw 100 o leiniau sy'n darparu

llety i'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn ystod Sioe Frenhinol Cymru. Nid oes dim safleoedd tramwy eraill, heblaw am hwn, yn y rhanbarth. Bydd pob Awdurdod yn asesu'r angen am ddarpariaeth dramwy fel rhan o'u hastudiaeth. Ar hyn o bryd mae 3 safle i Siewmyn Teithiol yn Rhondda Cynon Taf ac yn Abertawe. Cynhelir ffeiriau blynyddol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Chastell-nedd Port Talbot pryd y gwelir Siewmyn Teithiol yn ymweld â'r ardal.

**5.2.31** Mae Pen-y-bont wedi cwblhau GTAA yn ddiweddar (Mai 2020), ac mae hynny wedi cynnwys darpariaeth safle-benodol ar gyfer dau safle parhaol gyda 3 llain yr un, ond mae Llywodraeth Cymru wedi herio hynny.

**5.2.32** Cyhoeddodd Sir Gaerfyrddin GTAA ym mis Tachwedd 2019 oedd yn nodi bod angen 31 o leiniau dros gyfnod y cynllun. Cyhoeddodd Sir Benfro hefyd GTAA ar gyfer y Sir yn 2019, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, a nododd fod angen 56 o leiniau dros gyfnod y cynllun. Credir bod y ddau awdurdod yn aros i Lywodraeth Cymru gymeradwyo eu GTAA.

**5.2.33** Nododd GTAA diweddaraf Powys (2016) nad oedd angen i'r dyfodol. Nododd GTAA RhCT 2015-2020 fod angen 4 llain dros gyfnod y cynllun.

**5.2.34** Nododd y GTAA diweddaraf a gyhoeddwyd gan Abertawe (2015) fod angen 29 o leiniau dros gyfnod y cynllun. Maen nhw wrthi ar hyn o bryd yn paratoi GTAA arall, ond nid oedd y canlyniadau ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

**5.2.35** Nododd nifer o Awdurdodau fod nifer o aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn debygol o fod yn byw mewn llety brics a morter, ond nid yw'r union niferoedd a'r rhesymau pam mae teuluoedd yn byw yn y math yma o lety yn hysbys. O ran cydlyniant cymunedol, mae gan Gastell-nedd Port Talbot, Abertawe a Phen-y-bont y Gwasanaeth Dysgwyr Bregus sy'n gweithio gyda theuluoedd Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r ymatebion cyffredinol yn awgrymu bod nifer o deuluoedd wedi integreiddio'n llwyddiannus i'r gymuned bresennol, ac yn cael mynediad at ysgolion, gwasanaethau meddyg teulu, a nifer o grwpiau a rhwydweithiau cefnogi.

**Rhestr o'r Sefydliadau yr Ymgynghorwyd â nhw**

**5.2.36** Cysylltwyd â'r holl asiantaethau cymorth rheng flaen a'r gwasanaethau digartrefedd sy'n gweithio gyda'r Awdurdod Lleol fel rhan o'r broses ymgynghori hon.

**5.2.37** Ymgynghorwyd ag aelodau o'r Grŵp Llywio a'u sefydliadau trwy e-bost a thrwy gyfarfodydd a drefnwyd fel y nodwyd eisoes.

**5.2.38** Ymgynghorwyd â phob partner arall drwy gyfrwng e-bost i roi gwybod iddynt am yr astudiaeth os oeddent am gymryd rhan/roi mewnbwn neu wneud sylwadau, yn cynnwys y sefydliadau canlynol:

- Pob un o'r 6 landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n bartneriaid ac sydd â stoc tai cymdeithasol yng Nghastell-nedd Port Talbot;
- Tîm Cefnogi Pobl Castell-nedd Port Talbot;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Cymorth i Fenywod Port Talbot;
- Bwrdd Iechyd Bae Abertawe;
- The Wallich;
- Cymorth i Fenywod Thrive;
- Cyswllt Teithwyr Dinas Abertawe

- Heddlu De Cymru.

**Canfod Aelwydydd sy’n byw mewn Llety Brics a Morter**

**5.2.39** Dangosodd Cyfrifiad 2011 fod nifer o aelwydydd oedd yn byw mewn tai confensiynol wedi nodi eu bod yn perthyn i grŵp ethnig Sipsiwn a Theithwyr. Felly, ymgysylltwyd yn helaeth fel rhan o'r astudiaeth er mwyn ceisio nodi cynifer o aelwydydd â phosibl sy'n byw mewn llety brics a morter.

**5.2.40** Ymgynghorwyd ac ymgysylltwyd â nifer o sefydliadau fel rhan o'r broses a gofynnwyd iddynt a oeddent yn gweithio gydag unrhyw aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn llety brics a morter. Roedd y Grŵp Llywio'n cynnwys nifer o gynrychiolwyr sy'n gweithio gyda’r gymuned, fel gweithwyr cymdeithasol, ymwelwyr iechyd a wardeniaid safle. Gofynnwyd i aelodau'r grŵp oedden nhw’n ymwybodol o unrhyw deuluoedd oedd yn byw mewn llety brics a morter, ac a ellid cael y teuluoedd hyn i ymgysylltu â phroses y GTAA a thynnu eu sylw at yr astudiaeth. Cysylltwyd hefyd â'r holl gymdeithasau tai sy'n gweithredu ym Mwrdeistref Castell-nedd Port Talbot ac â'r Gwasanaeth Dysgwyr Bregus yn yr Awdurdod. Ar ben hynny, ymwelodd y Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr, ynghyd â thîm yr arolwg, â'r ddau safle er mwyn siarad â'r holl breswylwyr, lle roedd hynny'n bosibl, i roi gwybod iddynt am y GTAA; yn ystod y trafodaethau hyn ac yn ystod y broses gyfweld, gofynnwyd i'r preswylwyr a oeddent yn gwybod am unrhyw ffrindiau neu berthnasau oedd yn byw mewn llety brics a morter.

**5.2.41** Nodwyd bod cyfanswm o 15 o deuluoedd/unigolion yn byw mewn llety brics a morter. Canfuwyd y teuluoedd hyn trwy’r Gwasanaeth Dysgwyr Bregus a chofnodion The Wallich. Croesgyfeiriwyd yr wybodaeth hon â rhestrau aros y safleoedd, a bu Tai Tarian hefyd yn edrych ar eu cronfa ddata tai cymdeithasol, fel y bu’r holl Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig Eraill.

**5.2.42** Nid oedd y sefydliadau'n gallu rhoi enwau a manylion cyswllt yr aelwydydd hyn i ni yn uniongyrchol oherwydd gofynion diogelu data, ac yn lle hynny cysylltodd y sefydliadau â'r aelwydydd ar ran yr Awdurdod. Defnyddiwyd ystod o ddulliau ymgynghori, gan gynnwys posteri/taflenni (Atodiad A), galwadau ffôn, sgyrsiau anffurfiol ar y safle ac ymweliadau ag aelwydydd. O'r 15 teulu a nodwyd, cytunodd 11 i gael cyfweliad, ac ni chafwyd cyfweliad gyda 4. Pan geisiwyd cynnal cyfweliadau, darganfuwyd bod dau o’r aelwydydd wedi symud i ffwrdd. Ymwelwyd ag un aelwyd 3 gwaith mewn ymgais i sicrhau cyfweliad, ond nid oeddent gartref ar unrhyw un o’r adegau hynny. Oherwydd materion diogelu plant, nid oedd yn briodol cynnal cyfweliad gyda’r aelwyd arall a nodwyd yn byw mewn llety brics a morter. Ceir cofnod o’r cyfweliadau yn Atodiad C.

**"Cynnal Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr" – Rhestr Wirio Ymgysylltu**

**5.2.43** I gydymffurfio â'r Rhestr Wirio Ymgysylltu a dangos bod Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi cyrraedd cynifer o aelwydydd ag oedd yn ymarferol:

**Eitem 1: 'Ymweld â phob aelwyd o Sipsiwn neu Deithwyr a nodwyd drwy’r broses dadansoddi data hyd at 3 gwaith, os bydd angen’.**

**5.2.44** Cyflawnwyd cyfradd ymateb o 82% ar y cyd ar y 3 safle cyhoeddus a’r cyfeiriadau brics a morter yn y Fwrdeistref Sirol yn ystod yr astudiaeth hon - gyda rhai aelwydydd yn cael mwy nag un ymweliad er mwyn cwblhau'r cyfweliad(au).

**Eitem 2: 'Cyhoeddi manylion proses y GTAA, gan gynnwys manylion cyswllt fel y gall aelodau o’r gymuned ofyn am gyfweliad, ar wefan yr Awdurdod Lleol (Cynllunio a Thai), a Gwefannau LCCiaid.**

5.2.45 Defnyddiwyd llu o ddulliau cyfathrebu gan gynnwys y rhai a restrwyd ym Mhennod 3 'Methodoleg yr Astudiaeth' yn ogystal â'r canlynol:

- Hysbysebion ar wefan y Cyngor a Gwefan 'Tai' Castell-nedd Port Talbot;
- Hysbysebion yn nerbynfeydd y Canolfannau Dinesig;
- Cynhyrchwyd posteri/taflenni a’u dosbarthu â llaw i bob aelwyd ar dri safle Sipsiwn a Theithwyr yr Awdurdod Lleol (Atodiad A);
- Arddangoswyd posteri yn hysbysebu'r astudiaeth o amgylch safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yr Awdurdod Lleol ynghyd â Chodau QR - a allai gysylltu aelodau'r gymuned oedd â ffonau clyfar yn uniongyrchol â’r llinell ffôn gyflym benodedig a’r peiriant ateb oedd yn nodi ble gellid cael manylion am yr Astudiaeth (Atodiad A);

**Eitem 3: 'Ymgynghori â sefydliadau cymorth cymunedol perthnasol.'**

Cysylltwyd drwy e-bost â'r Sefydliadau Cymorth Cymunedol perthnasol a restrwyd yn Atodiad 1 o ddogfen Llywodraeth Cymru, 'Cynnal Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr - Canllawiau' i amlinellu'r astudiaeth ei hun ac i ymateb i unrhyw gwestiynau penodol oedd ganddynt, ynghyd â gofyn am eu cymorth o ran lleoli unrhyw aelodau o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr oedd yn byw yng Nghastell-nedd Port Talbot - 'y tu hwnt' i'r rhai oedd yn byw ar safleoedd sefydledig y Cyngor. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd gyda Fforwm Sipsiwn a Theithwyr CNPT, a rhoddwyd diweddariadau ar gynnydd yr astudiaeth. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau am yr astudiaeth ynghyd â rhannu'r wybodaeth hon â'r aelodau o'r gymuned leol o Sipsiwn a Theithwyr yr oeddent yn eu cefnogi, fel y gwelent yn briodol.

**Eitem 4: 'Datblygu rhestr aros Awdurdod Lleol ar gyfer lleiniau a thai a fydd yn agored i aelodau o’r gymuned ac y byddant yn cael eu hysbysu amdani.'**

Mae rhestr aros Safleoedd yr Awdurdod Lleol yn cael ei chadw a'i rheoli gan y Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr ac mae'n gwbl hygyrch i'r gymuned. Mae rhestrau aros am dai hefyd yn cael eu darparu gan bob LCC. Mae Adran 7 (Asesu Anghenion Llety) yn edrych yn fanylach ar y rhestr aros.

**Eitem 5: 'Ymdrechu i gynnwys Sipsiwn a Theithwyr yng ngrŵp llywio’r GTAA.**

5.2.46 Barnwyd bod cynrychiolwyr Sipsiwn a Theithwyr (Wardeniaid Safle) yn rhan “hyd braich” o Grŵp Llywio’r GTAA, a rhoddwyd adroddiadau diweddaru rheolaidd iddynt ar y cynnydd a wnaed o ran yr Astudiaeth. Roedd modd i aelodau eraill o’r Grŵp Llywio rannu’r wybodaeth hon gydag aelodau o’r gymuned Sipsiwn a Theithwyr leol – fel y barnent oedd yn briodol.

**Eitem 6: 'Sicrhau bod manylion cyswllt sy’n cael eu darparu i’r Awdurdod Lleol gan Aelodau o’r Gymuned drwy broses yr arolwg yn derbyn sylw dilynol, a bod anghenion yn cael eu hasesu.'**

5.2.47 Roedd sylw dilynol i gael ei roi i ymatebion i’r arolwg, gan drosglwyddo manylion i dîm yr arolwg, ar hyd y broses.

**Eitem 7: 'Ystyried cynnal digwyddiadau hysbysrwydd ar y GTAA ar safleoedd (neu gerllaw) i egluro pam y dylai aelodau o'r gymuned gymryd rhan a chymell preswylwyr ar safleoedd i ddod â phobl eraill gyda nhw na fydd yr Awdurdod Lleol o reidrwydd yn gwybod amdanynt.'**

**5.2.48** Defnyddiwyd llu o ddulliau cyfathrebu fel y disgrifiwyd yn Eitem 2 o'r adran hon a chynhyrchwyd posteri/taflenni a'u dosbarthu â llaw i bob aelwyd unigol ar dri safle Sipsiwn a Theithwyr yr Awdurdod Lleol - ynghyd â chopi o boster oedd yn cael ei arddangos ar y safle yn egluro'r astudiaeth ac yn cynnwys gwybodaeth Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd cynnig ar dechnegau newydd oedd yn defnyddio technoleg ffonau symudol er mwyn mwyafu ymwybyddiaeth o'r astudiaeth ac annog cyfranogiad. Hefyd bu Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr yr Awdurdod Lleol a thîm yr arolwg yn siarad â chynifer o aelwydydd â phosibl wrth ddosbarthu'r llythyrau er mwyn helpu i leihau unrhyw bryderon neu ofnau ynghylch yr Astudiaeth.

## 6.1 Cyfweliadau ag Aelwydydd

**6.1.1** Er mwyn casglu’r holl ddata perthnasol sy'n ofynnol i helpu'r Awdurdod Lleol i asesu anghenion llety y gymuned Sipsiwn a Theithwyr, roedd yr arolwg manwl (holiadur) yn cynnwys 6 adran â'r penawdau: A Eich Cartref; B Eich Teulu; C Eich Cynlluniau; D Twf y Teulu; E Safleoedd Tramwy; ac F Unrhyw sylwadau eraill.

**6.1.2** Bwriad yr arolwg oedd nodi'r aelwydydd presennol sydd ag anghenion tai ac asesu'r aelwydydd sy'n debygol o ymffurfio yn y dyfodol o'r aelwydydd presennol er mwyn helpu i bennu'r angen am ddarpariaeth(au) ar safleoedd yn y dyfodol.

### Canlyniadau’r Astudiaeth

**6.1.3** Cynhaliwyd y rhan fwyaf o’r arolygon trwy gyfweliadau wyneb yn wyneb gan Dîm Arolwg yr Awdurdod Lleol (Gweithwyr Cymdeithasol Uwch, Swyddogion y Gwasanaeth Dysgwyr Bregus, y Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Chydlynydd Ardal). Cynhaliwyd nifer bychan dros y ffôn pan oedd amgylchiadau’n galw am hynny. Roedd y mwyafrif llethol yn barod i gymryd rhan, gan fod Tîm yr Arolwg wedi egluro’r angen am wneud hynny.

**6.1.4** Cwblhawyd cyfanswm o 65 o gyfweliadau gydag Aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr (cyfradd ymateb o 82%) fel rhan o’r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr, fel a ganlyn:

- Cwblhawyd 53 o gyfweliadau gyda’r aelwydydd hynny oedd yn byw ar y tri safle presennol yng ngofal yr Awdurdod Lleol yng Nghae Garw ac ardal Llansawel;
- 12 o gyfweliadau mewn Aelwydydd oedd yn byw mewn llety brics a morter (roedd un cyfeiriad yn cynnwys dwy aelwyd a roddodd ymatebion ar wahân).

**6.1.5** Datgelodd gwybodaeth gan Aelodau o’r Grŵp Llywio oedd yn gweithio gyda theuluoedd Sipsiwn a Theithwyr mewn Llety brics a morter fod 4 Aelwyd arall yn hysbys fel rhan o’r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr, ond ar ôl defnyddio sawl dull cyfathrebu i gysylltu, gan gynnwys ffôn, wyneb yn wyneb a llythyr ysgrifenedig, canfuwyd eu bod wedi symud i ffwrdd, nad oeddent gartref, neu nad oedd yn briodol cynnal cyfweliad gyda nhw.

**6.1.6** Cyfeirir at y person a ymatebodd i’r arolwg fel yr ‘Ymatebydd’ (cyfanswm o 65) ac mewn cwestiynau sy’n cyfeirio at yr holl bobl ar yr Aelwyd, cyfeirir atynt fel ‘Aelodau’r Aelwyd' (cyfanswm o 212).

### Cysylltiad Lleol

**6.1.7** Mae canlyniadau’r astudiaeth yn datgelu bod gan 56 allan o gyfanswm o 65 o Ymatebwyr (86%) gysylltiad lleol ag ardal Castell-nedd Port Talbot (naill ai trwy deulu neu waith), nododd 3 Ymatebydd arall (5%) nad oedd llain arall ar gael, a dywedodd 2 Ymatebydd arall (3%) yn ystod eu cyfweliad na allent ddod o hyd i dŷ i symud iddo, gyda’r un Ymatebydd olaf (2%) yn nodi rhesymau personol. Ni roddodd 3 ymatebydd reswm.

### Hyd Preswyliaeth

O ran hyd eu preswyliaeth, roedd 44 o Ymatebwyr (68%) wedi byw ar eu safle presennol ers dros 5 mlynedd. Mae hynny’n cyferbynnu â 2 Ymatebydd (3%) oedd wedi bod yn byw ar y safle ers llai na mis. Mae’r data sy’n weddill yn datgelu bod 11 o Ymatebwyr (17%) wedi bod yn byw yno ers rhwng 2 a 5 mlynedd, 3 Ymatebydd (5%) yn byw yno ers rhwng 1 a 2 flynedd, 2 Ymatebydd (3%) rhwng 7 a 12 mis, a 2 arall (3%) yn byw yno ers rhwng 1 a 6 mis. Ni chafwyd ymateb gan 1 Ymatebydd.

**Preswylfa Flaenorol**

6.1.8 Nododd 6 ymatebydd (9%) eu bod wedi symud o fewn y flwyddyn ddiwethaf. O'r 6 yna:


- Nododd 4 ymatebydd eu bod yn preswylio o fewn Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot mewn 'Tŷ' cyn dod i Safle Awdurdodedig yr Awdurdod Lleol;
- Cadarnhaodd 2 ymatebydd eu bod wedi bod yn byw tu allan i Fwrdeistref yr Awdurdod Lleol cyn dod i Safle(oedd) yr Awdurdod Lleol;
- Nododd 4 ymatebydd eu bod wedi bod yn byw ar safleoedd carafannau, ac felly, fwy na thebyg, mewn carafan;
- Nododd 1 ymatebydd eu bod wedi bod yn byw mewn tŷ;
- Ni nododd 1 ymatebydd y math o lety roedden nhw'n byw ynddo'n flaenorol.

**Hyd yr Arhosiad**

6.1.9 Gofynnwyd i'r holl Ymatebwyr pa mor hir roedden nhw'n bwriadu aros yng Nghastell-nedd Port Talbot:

- Dywedodd 49 o ymatebwyr (75%) nad oeddent yn bwriadu symud o'u safle presennol,
- Nid oedd 6 Ymatebydd (9%) yn gwybod pa mor hir bydden nhw'n aros ar y safle,
- Nododd 1 Ymatebydd (2%) eu bod yn bwriadu aros am 3-28 o ddiwrnodau,
- Roedd 1 Ymatebydd (2%) yn bwriadu aros rhwng 2 a 5 mlynedd ar y safle,
- Roedd 1 Ymatebydd (2%) yn bwriadu aros dros 5 mlynedd ar y safle, ac
- Ni roddodd 7 Ymatebydd (11%) unrhyw arwydd pa mor hir roedden nhw'n bwriadu aros ar y safle.

**Ffigur 6.1 Hyd yr Arhosiad**



## 6.2 Proffil Demograffig

**6.2.1** Mae'r Astudiaeth o Aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr wedi rhoi darlun cywir iawn o'r boblogaeth leol i'r Awdurdod Lleol trwy ganfod strwythur teulu aelwydydd, gan gynnwys oed, rhywedd, ethnigrwydd ac unrhyw anghenion ychwanegol.

### Proffil Oed a Rhywedd yr Ymatebwyr

**6.2.2** O'r 65 o Ymatebwyr i'r Arolwg, cynhaliwyd 83% (54) o gyfweliadau gyda chyfweleion Benyw ac 17% (11) gyda chyfweleion Gwryw.

**6.2.3** Roedd yr Ymatebwyr ifancaf yn 18 oed – ac roedd dau ohonynt; 1 Gwryw ac 1 Fenyw. Roedd yr Ymatebydd hynaf yn Wryw, ac yn 84 oed.

### Proffilio Aelwydydd

**6.2.4** Dengys data'r arolwg gan 65 o Ymatebwyr gyfanswm poblogaeth Sipsiwn a Theithwyr o 212 o bobl. O gymharu hynny â chyfanswm poblogaeth Castell-nedd Port Talbot yn y Cyfrifiad (2011), sef 139,812, mae'r Boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yn llai nag 1% (0.08%) o'r boblogaeth. Fodd bynnag, mae cafeat ynghlwm wrth hynny, gan ein bod yn ymwybodol o 14 o Aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr eraill sy'n byw ar safleoedd ar hyn o bryd (10) neu mewn llety brics a morter (4), na fuont yn cymryd rhan yn yr arolwg. Mae'r gyfran is o aelodau gwryw o aelwydydd oedd yn rhan o'r arolwg hefyd yn arwydd na soniwyd am aelodau gwryw'r aelwyd mewn rhai achosion, neu efallai eu bod yn gweithio i ffwrdd ar y pryd. Mae hefyd yn debygol bod mwy o aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr brics a morter sy'n byw 'yn gudd' yn y gymdeithas, 'yn gudd' ac yn amharod i sôn am eu hanghenion. Felly mae'r boblogaeth yn debygol o fod yn fwy na'r ffigur o 212 rydym wedi'i gofnodi yma.

**6.2.5** Nododd Data Cyfrifiad 2011 fod 125 o bobl yng Nghastell-nedd Port Talbot, ar adeg Astudiaeth y Cyfrifiad, oedd ag Ethnigrwydd Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig. Fodd bynnag, ni fydd pawb sy'n Sipsiwn neu'n Deithwyr yn nodi eu hethnigrwydd yn Astudiaeth y Cyfrifiad, felly fe'u tangynrychiolir ochr yn ochr â'r boblogaeth gyffredinol.

**6.2.6** Nododd 53 o'r 65 Ymatebydd fod ganddynt o leiaf 1 neu fwy o aelodau o'u teulu yn byw gyda nhw. Mae hynny'n cyferbynnu â 12 Ymatebydd a nododd nad oedd neb arall yn byw gyda nhw. Roedd 10 o'r rhain yn Fenywod, a 2 yn Wrywod.

**6.2.7** Mae'r canlynol yn dadansoddi maint yr Aelwydydd:

**Tabl 6.2.1 Canfyddiadau'r Arolwg: Dadansoddi Maint Aelwydydd.**

| **Aelwyd 1 Person** | **Aelwyd 2 Berson** | Aelwyd 3 Pherson | Aelwyd 4 Person | **Aelwyd 5 Person** | Aelwyd 6 Pherson | Aelwyd 7 Person | Aelwyd 8 Person |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 12 | 17 | 8 | 14 | 6 | 7 | 1 | 0 |

D.S Mae'r Ymatebydd yn rhan o gyfansoddiad yr Aelwyd.

**6.2.8** At ei gilydd, nododd 12 o Ymatebwyr nad oedd ganddyn nhw aelodau eraill o'r teulu yn byw gyda nhw; roedd gan 17 o'r 65 Ymatebydd Bartner yn byw gyda nhw – naill ai Gŵr neu Wraig, neu Ddyweddi; nid oedd gan 31 o Ymatebwyr Bartner yn byw gyda nhw, ond roedd ganddyn nhw Fab/Feibion a/neu Ferch(ed); nid oedd gan 2 Ymatebydd Bartner, ond roedd sibling yn byw gyda nhw.

**6.2.9** Ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd gan yr Ymatebwyr, gellir tybio mai maint cyfartalog aelwyd yw 3.26 pherson.

Ethnigrwydd Aelwydydd


**6.2.10** Roedd cyfle i'r Ymatebwyr ddisgrifio'u hunaniaeth eu hunain. Diben hynny oedd darparu gwybodaeth i'r Awdurdod Lleol am y grwpiau diwylliannol neu ethnig amrywiol sy'n bodoli yn y Boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr leol; gallai'r rhain fod yn berthnasol i faint a chyfluniad safleoedd yn awr neu yn y dyfodol.

**6.2.11** Nododd yr holl Ymatebwyr eu hethnigrwydd, ac mae'r dadansoddiad o'r grwpiau ethnig fel a ganlyn:

**Tabl 6.2.2 Ethnigrwydd (yn ôl yr Ymatebwyr) Tabl o'r Ffigurau**

| Ymatebwyr yn unig | Nifer | % |
|---|---|---|
| Sipsi | 27 | 42% |
| Teithiwr Sipsi | 4 | 6% |
| Romani | 7 | 11% |
| Teithiwr Romani | 0 | 0% |
| Romani Seisnig | 1 | 2% |
| Teithiwr | 5 | 8% |
| Teithiwr Gwyddelig | 16 | 25% |
| Arall | 4 | 6% |
| Heb nodi | 1 | 2% |
| CYFANSWM | 65 | 100% |

## Ffigur 6.2 Ethnigrwydd yr Ymatebwyr



**6.2.12** Mae'n gwbl amlwg o'r siart cylch a'r tabl bod mwyafrif yr Ymatebwyr, 27 (neu 42%) yn gweld eu hunain fel Sipsiwn, ac roedd 16 Ymatebydd arall (25%) yn gweld eu hunain fel 'Teithwyr Gwyddelig'. Mae hynny'n cyferbynnu ag 1 Ymatebydd (2%) oedd yn gweld ei hun fel 'Romani Seisnig' ac 1 Ymatebydd arall (2%) na nododd unrhyw hunaniaeth o blith yr opsiynau.


**Cyfanswm y Boblogaeth Aelwydydd**

**6.2.13** Gofynnwyd i'r Ymatebwyr hefyd ddisgrifio ethnigrwydd/hunaniaeth aelod(au) eu teulu, ac roedd gan bawb ond 10 o'r Ymatebwyr yn y Cyfweliadau yr un ethnigrwydd/hunaniaeth ag Aelodau eu Teulu (yr oedden nhw'n byw gyda nhw – h.y. Romani, Teithiwr Gwyddelig, Teithiwr Newydd, Sipsi, etc).

**Tabl 6.2.3 Ethnigrwydd Cyfanswm y Boblogaeth Aelwydydd (eu Disgrifiad eu hunain) Tabl o'r Ffigurau**

| Cyfanswm y Boblogaeth Aelwydydd | Nifer | % |
|---|---|---|
| Sipsi | 75 | 35% |
| Teithiwr Sipsi | 12 | 6% |
| Romani | 26 | 12% |
| Teithiwr Romani | 4 | 2% |
| Romani Seisnig | 1 | 0% |
| Teithiwr | 21 | 10% |
| Teithiwr Gwyddelig | 48 | 23% |
| Arall | 6 | 3% |
| Heb nodi | 19 | 9% |
| **CYFANSWM** | **212** | **100%** |


## Ffigur 6.3 Ethnigrwydd Cyfanswm y Boblogaeth Aelwydydd




**6.2.14** **Proffil Oed a Rhywedd Aelwydydd**

**6.2.15** O gyfanswm poblogaeth o 212, roedd 52% yn 17 oed a throsodd, gyda 42% yn blant 16 oed a than hynny.

## Ffigur 6.4 Ystod Oed




**6.2.16** Mae'n amlwg o'r graff bar mai ystod oed mwyaf cyffredin aelodau aelwyd yw plant rhwng 12 ac 16 oed (20%). Mae hyn yn cyferbynnu ag ystod oed leiaf cyffredin aelodau aelwydydd – dim ond 9% o'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr sydd dros 60 oed.

**6.2.17** Ar sail yr astudiaeth rhennir y gymuned yn 130 o fenywod ac 82 o wrywod.

**Tabl 6.2.4 Rhaniad Rhywedd y Preswylwyr**

| | | |
|---|---|---|
| Gwryw | 82 | 39% |
| Benyw | 130 | 61% |
| Cyfanswm y Preswylwyr | 212 | 100% |

## 6.3 Addasrwydd y Llety Presennol

**6.3.1** Gofynnwyd i'r Ymatebwyr a oedden nhw'n fodlon ar eu llety presennol, ac 39 adroddodd 35 allan o 65 o'r ymatebwyr (54%) yn ystod eu cyfweliad eu bod yn 'anfodlon' ar eu llety presennol; tra bod 27 o ymatebwyr (42%) yn fodlon, ac ni roddodd 3 o ymatebwyr (5%) ymateb, neu roedd yn well ganddyn nhw beidio â dweud.

**6.3.2** Gofynnwyd i'r Ymatebwyr hynny oedd yn 'anfodlon' ar eu llety presennol sut gallai eu llety gael ei wella, a gwnaed yr awgrymiadau/y pwyntiau canlynol (sylwch y gallai Ymatebwyr nodi mwy nag 1 eitem):

- Dywedodd 22 o Ymatebwyr eu bod yn teimlo bod angen gwella'r blociau cegin a thoiledau;
- Roedd 2 Ymatebydd yn pryderu am y diffyg hydrantau tân ar y safle;
- Cododd 8 Ymatebydd faterion cynnal a chadw ac atgyweirio cyffredinol.

**6.3.3** Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi manylion strwythur eu teulu a chawsant gyfle i dynnu sylw at unrhyw resymau pam na allai eu haelwyd neu aelodau o'u haelwyd barhau i feddiannu eu llety presennol. Gallai hyn fod oherwydd gwrthwynebiad diwylliannol i fath penodol o lety neu faterion eraill y teimlent fod angen i'r Awdurdod Lleol eu hystyried.

**6.3.4** O'r 35 o ymatebwyr oedd yn anfodlon ar eu llety, dim ond 1 Ymatebydd nododd resymau pam roedden nhw'n teimlo na allent barhau i fyw yn eu llety presennol, sef oherwydd eu bod yn rhannu eu llain.

**Gorlenwi**

**6.3.5** Nid oes diffiniad cyfreithiol o orlenwi yng nghyd-destun cartref symudol. Fodd bynnag, mae modd addasu'r Safon Ystafelloedd Gwely, a ddefnyddir mewn cyd-destun tai confensiynol, i'w ddefnyddio yn yr amgylchiadau hyn. Diffinnir y Safon Ystafelloedd Gwely yn y canllawiau hyn fel angen am sicrhau ardal gysgu ar wahân ar gyfer pob un o'r canlynol:

1 pob pâr o oedolion (priod neu'n cyd-fyw);
2 unrhyw oedolyn arall sy'n 16 oed neu'n hŷn;
3 pâr o blant o dan 16 oed o'r un rhyw;
4 pâr o blant o dan 10 oed beth bynnag fo'u rhyw;
5 unrhyw blentyn arall.

**6.3.6** Gofynnwyd i'r Ymatebwyr 'A oes digon o fannau cysgu i'r holl breswylwyr?' Cafwyd cyfanswm o 51 o ymatebion, gyda 49 yn nodi 'Oes' a 2 yn nodi 'Nac oes'. Mae cyfansoddiad aelwydydd y 2 Ymatebydd a nododd 'Na' fel a ganlyn;

1. Benyw unigol yn ei 20iau
2. Cwpl yng nghanol y 50au

**6.3.7** Gofynnwyd i'r Ymatebwyr hefyd a oedd lle ar eu llain ar gyfer carafannau ychwanegol i atal gorlenwi, ac o'r 2 Ymatebydd oedd wedi nodi nad oedd digon o fannau cysgu i'w teulu (preswylwyr) dywedodd 1 'Nac oes' ac 1 'Oes'. I gloi, mae gan y cwpl oedd heb nodi eu bod yn byw gydag unrhyw blant nac aelodau eraill o'r teulu ddigon o le ar gyfer carafannau eraill ar eu llain, ac mae'n bosib eu bod yn teimlo bod angen mwy o le arnyn nhw ar gyfer busnes yn hytrach nag i gysgu. Roedd y fenyw unigol yn aros ar y safle gyda pherthynas, ond roedd am gael ei llain ei hun, felly mae hi wedi'i chyfrif yn yr anghenion sy'n deillio o orlenwi.

**Ceisiadau Rhestr Aros**

**6.3.8** Gofynnwyd i'r Ymatebwyr a fyddai unrhyw un yn eu teulu yn hoffi ymuno â rhestr aros yr Awdurdod Lleol ar gyfer lleiniau neu dai, ac o'r 57 o Ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, cadarnhaodd 13 (23%) y byddai aelod(au) o'r teulu yn hoffi ymuno â'r Rhestr Aros, a dywedodd 44 (77%) na fyddent.

**6.3.9** Nid oedd neb o'r rhai a nodwyd eisoes ar restr aros yr Awdurdod Lleol. Felly, lle cafwyd cyfeiriadau gan yr ymatebwyr, mae'r Awdurdod wedi ymateb i hynny. Nid oedd rhai ymatebwyr yn dymuno darparu cyfeiriadau i aelodau'r teulu. O dan yr amgylchiadau hynny, sicrhaodd y cyfwelydd fod yr ymatebydd yn ymwybodol o restr aros yr Awdurdod a'r broses ar gyfer ymuno â hi, fel bod modd i aelodau'r teulu roi eu hunain ar y rhestr aros. Rhoddir sylw pellach i restr aros yr Awdurdod ym Mhennod 6 (Asesu Anghenion Llety).

## 6.4 Dyheadau o ran Llety

**6.4.1** Mae'r rhan hon o'r Arolwg yn holi ynghylch dyheadau a chynlluniau llety. Bydd yr ymatebion a roddir yn helpu'r Awdurdod Lleol i ystyried pa fath o lety sy'n debygol o fod yn ofynnol i ymateb i anghenion aelwydydd y dyfodol.

**Bwriad i Symud yn y Dyfodol**

**6.4.2** Gofynnwyd i'r Ymatebwyr 'Ydych chi'n bwriadu symud i lety arall?' a nododd 10 (15%) allan o'r 65 Ymatebydd 'Ydw', sef eu bod yn bwriadu symud, dewisodd 6 ymatebydd (9%) beidio â dweud, ac nid atebodd 5 ymatebydd (8%) y cwestiwn. Cadarnhaodd y 44 Ymatebydd oedd yn weddill (68%) nad oeddent yn bwriadu symud. O'r 10 Ymatebydd a ddywedodd eu bod yn bwriadu symud:

- Roedd 7 (70%) yn bwriadu symud o fewn yr Awdurdod Lleol;
- Nid atebodd 3 (30%) y cwestiwn:
- Ni ddywedodd unrhyw ymatebwyr eu bod yn bwriadu symud i Awdurdod Lleol arall neu rywle arall yn y Deyrnas Unedig.

**6.4.3** Gofynnwyd i'r Ymatebwyr 'Pam rydych chi'n bwriadu symud?' a rhoddwyd y rhesymau canlynol gan y 9 Ymatebydd a nododd eu bod yn bwriadu symud (sylwer y gellid rhoi mwy nag 1 ateb):

**Tabl 6.4.1 Rhesymau a roddwyd dros Fwriadu Symud**

| Rhesymau dros Symud | Cyfanswm y Nifer |
|---|---|
| Angen mwy o le | 4 |
| Angen cyfleusterau gwahanol | 0 |
| Cysylltiad lleol (teulu neu waith) | 2 |
| Angen bod yn agosach at wasanaethau (e.e. ysgolion) | 0 |
| Cyfleoedd Cyflogaeth | 0 |
| Arall | 7 |

**6.4.4** Nodwyd y canlynol gan y 7 Ymatebydd a nododd 'Arall' fel rhesymau dros symud:

- Anhapus mewn llety cymdeithasol ar rent;
- Mwy diogel yn eu cymuned eu hunain;
- Hoffi cael llain i'r teulu;
- Angen cartref llai o faint;
- Yn soffa-syrffio ar hyn o bryd;
- Bydden nhw'n hoffi gallu symud, ond ddim am symud ar hyn o bryd;
- Angen eu llain eu hunain.

**6.4.5** Yna gofynnwyd i'r Ymatebwyr 'I ba fath o lety rydych chi'n bwriadu symud?', a chafwyd yr atebion canlynol:

**Tabl 6.4.2 Y Math o Lety y bwriedir symud iddo**

| Bwriad i Symud; Math o Lety | Cyfanswm y Nifer |
|---|---|
| Safle; Y Cyngor/Cymdeithasol ar Rent | 4 |
| Safle; Preifat yn eich Perchnogaeth eich Hun | 2 |
| Safle; Perchnogaeth rhywun arall | 0 |
| Brics a Morter; Perchennog Preswyl | 0 |
| Brics a Morter; Rhentu gan Gymdeithas Tai | 2 |
| Brics a Morter; Rhentu gan Landlord Preifat | 1 |

**6.4.6** Ar sail y tabl isod mae'n amlwg mai i Safleoedd y Cyngor / Cymdeithasol ar Rent y mae'r nifer mwyaf yn bwriadu symud – roedd pob un o'r 4 ymateb dan sylw gan rai oedd yn byw mewn Llety Brics a Morter ar hyn o bryd.

**6.4.7** Dim ond 1 Ymatebydd oedd yn bwriadu symud oedd yn honni eu bod yn berchen ar dir yn ardal yr Awdurdod Lleol y gellid ei ystyried yn safle posibl i'r dyfodol. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddyn nhw a hoffen nhw drafod eu cynlluniau, ni roddwyd manylion cyswllt, a dywedwyd: 'Ie, pan fyddwn ni'n barod i chwilio am lain'. Mae'r ymatebydd dan sylw yn byw ar safle Awdurdod Lleol ar hyn o bryd.

**6.4.8** Cadarnhaodd pob un o'r 7 Ymatebydd oedd yn bwriadu symud o fewn yr Awdurdod Lleol y bydden nhw'n hapus i fyw ar safle oedd yn cael ei reoli gan yr Awdurdod Lleol petaen nhw'n cael cynnig llain a awdurdodwyd.

**6.4.9** Pan ofynnwyd y Cwestiwn 'Petai llain a awdurdodwyd ar gael mewn Awdurdod Lleol arall, fyddech chi'n ystyried symud yno?' i'r un 7 Ymatebydd, dywedodd 2 'Na', a'r 3ydd Ymatebydd 'Byddwn', ac y byddai'n barod i symud i unrhyw Awdurdod Lleol arall, ond heb nodi p'un. Nid atebodd y 4 ymatebydd arall y cwestiwn.

## 6.5 Twf Aelwydydd

**6.5.1** Bwriad y rhan hon o'r arolwg yw helpu'r Awdurdod Lleol i gynllunio ar gyfer y galw am lety yn y dyfodol. Mae'r cwestiynau yn yr adran hon yn ymwneud â'r twf a ragwelir mewn teuluoedd a'r anghenion a fydd yn codi wrth i aelwydydd newydd ymffurfio yn ystod y cyfnod nesaf o 5 mlynedd.


**6.5.2** Gofynnwyd i'r Ymatebwyr 'Oes unrhyw un ar eich aelwyd yn debygol o ddymuno symud i'w cartref eu hunain yn ystod y 5 mlynedd nesaf?' Ateb 74% (48) i'r cwestiwn hwnnw oedd 'Nac oes', dywedodd 1 nad oedd yn gwybod, ac ni chafwyd ymateb gan 2. Nododd y 22% (14) oedd yn weddill 'Oes'.

**6.5.3** Nodwyd cyfanswm o 29 o Aelwydydd gan y 14 o Ymatebwyr:

**6.5.4** Roedd y rhan fwyaf o'r Aelwydydd yn chwilio am lety ar Safle Awdurdod Lleol, a mynegodd 4 aelwyd ddiddordeb hefyd mewn safle Preifat neu lety Brics a Morter.

**6.5.5** Mae'r siart bar sy'n dilyn yn darparu cynllun amser ar gyfer pryd bydd angen eu llety eu hunain ar yr aelwydydd newydd hyn sy'n ymffurfio:

## Ffigur 6.5 Cynllun Amser ar gyfer yr Aelwydydd Newydd fydd angen Llety




**6.5.6** Mae’r siart bar yn dangos yn glir y bydd 1 o’r Aelwydydd sydd newydd ymffurfio (3%) yn awyddus i symud o fewn y flwyddyn nesaf. Mae hynny’n gyferbyniad â’r 6 Aelwyd (21%) a fyddai’n awyddus i symud ar unwaith. Byddai mwyafrif yr aelwydydd yn awyddus i ymffurfio/symud ymhen 2-5 mlynedd (55%).

**6.5.7** Gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr a oedd aelodau o'u teulu yn byw y tu allan i'r ardal hon sy'n gwersylla'n rheolaidd yn ardal yr Awdurdod Lleol hwn. Dywedodd cyfanswm o 4 ymatebydd 'oes', nid atebodd 3 ymatebydd y cwestiwn, a dywedodd y 58 arall 'nac oes'. Gofynnwyd cwestiwn D5 wedyn i'r 4 ymatebydd a atebodd 'oes', sef a fyddent am roi manylion cyswllt er mwyn i'r aelod o'r teulu gael ei gyfweld. Dim ond un o'r 4 ymatebydd roddodd fanylion cyswllt i'r ymchwilydd. Cafwyd ymateb i’r arolwg gan yr aelwyd y darparwyd manylion cyswllt ar eu cyfer.

# 7 Asesu Anghenion Llety

## 7.1 Anghenion Preswyl sydd heb eu Diwallu

**7.1.1** Mae’r wybodaeth a gasglwyd yn adrannau 3 a 5 o’r adroddiad hwn, trwy ddata eilaidd a sylfaenol yn eu tro, wedi galluogi’r Awdurdod i gynnal asesiad cynhwysfawr o anghenion y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yn y dyfodol. Mae’r bennod hon yn archwilio’n fanwl y cyflenwad preswyl a gynlluniwyd; lefel yr angen yn y dyfodol; yn ogystal ag asesu’r gofynion o ran lleiniau preswyl parhaol; darpariaeth dramwy; a safleoedd ar gyfer Siewmyn Teithiol.

### Y Cyflenwad Preswyl Presennol

**7.1.2** Mae angen i elfen gyntaf y cyfrifiad (a gyflwynir yn Nhabl 7.1.2 – Amcangyfrif o’r Angen am Leiniau Safle Preswyl) ystyried y cyflenwad preswyl presennol, a lefel meddiannaeth ar hyn o bryd. Mae 67 o leiniau wedi’u hawdurdodi gan yr Awdurdod Lleol, y mae gan bob un ohonynt ganiatâd cynllunio llawn, ond dim ond 64 ohonynt oedd wedi’u meddiannu ar adeg yr arolwg. Mae un safle preifat yng Nghastell-nedd Port Talbot sydd â chydsyniad personol ar gyfer un llain i deulu penodol a’u dibynyddion. Felly, y ffigurau a fewnbynnwyd i Resi A a B yw 64 ac 1 yn eu tro.

### Y Cyflenwad Preswyl Arfaethedig

**7.1.3** Er bod Rhesi A a B yn darparu’r cyflenwad preswyl presennol, mae hefyd yn bwysig deall y cyflenwad preswyl arfaethedig, megis lefelau’r lleiniau gwag ar hyn o bryd, y lleiniau y disgwylir iddynt ddod yn wag, ac unrhyw fwriad i ddarparu lleiniau newydd.

**7.1.4** Mae Rhes C yn cynrychioli nifer y lleiniau gwag yng Nghastell-nedd Port Talbot. Yn ystod cyfnod yr arolwg, roedd cyfanswm o 3 llain yn wag.

**7.1.5** Mae Rhes D yn y cyfrifiad yn nodi nifer y lleiniau y disgwylir iddynt ddod yn wag yn ystod y flwyddyn nesaf. I gyfrifo cyfradd ddisgwyliedig lleoedd gwag newydd, mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y dylid adolygu cofnodion rheoli safleoedd yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, a mewnbynnu cyfartaledd dros y cyfnod hwnnw i Res D. Nododd dadansoddiad o gofnodion rheoli safleoedd yr Awdurdod gyfradd trosiant flynyddol o 8 llain ers 2016.

**7.1.6** Gan ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd yng nghwestiynau A6-7 ac Adran C o’r arolwg, gall Rhes D nodi hefyd y rhai sydd â dyheadau i adael y safle i fynd i ardal Awdurdod Lleol arall neu’r rhai sy’n dymuno symud i gartref confensiynol. O ganlyniad, mae’r ymatebion i’r cwestiynau hynny wedi cael eu hystyried a’u hasesu i bennu a ellir disgwyl unrhyw leoedd gwag ychwanegol dros ben yr 8 llain y flwyddyn ar sail cofnodion trosiant lleiniau.

**7.1.7** O ran yr ymatebion i Gwestiwn A6, 'Pa mor hir rydych chi’n meddwl aros yma?', nododd mwyafrif o’r Ymatebwyr (49) nad oeddent yn bwriadu symud. O’r 16 Ymatebydd arall a gafodd eu cyfweld, dywedodd 6 ‘ddim yn gwybod’ (roedd 1 o’r rhain yn aros ar safle Awdurdod Lleol a 5 yn byw mewn llety brics a morter); nododd 1 Ymatebydd ‘mwy na 5 mlynedd’ (byw ar safle Awdurdod Lleol); dywedodd 1 ymatebydd 2-5 mlynedd (byw ar safle Awdurdod Lleol), a dywedodd 1 ymatebydd ‘3-28 diwrnod’, (daeth yr ymateb hwn gan ymatebydd oedd yn byw mewn llety brics a morter preifat ar rent). Nid atebwyd y cwestiwn hwn gan 7 o ymatebwyr.

**7.1.8** Mae’r ymatebion i Gwestiwn A2 yn dangos bod 35 o Ymatebwyr yn anfodlon ar eu llety presennol, ac roedd 27 o’r rheiny yn breswylwyr safle Awdurdod Lleol, a 7 mewn llety brics a morter. Bydd yr Awdurdod yn parhau i drafod yn rheolaidd gyda phreswylwyr ac yn parhau, lle mae hynny’n bosibl, i wneud addasiadau a gwelliannau i safleoedd a lleiniau. Fodd bynnag, dylid nodi bod rhai ymatebion yn nodi bod y blociau amwynder yn rhy fach, a

byddai ymateb i'r dyheadau llety hynny yn anoddach i'r Awdurdod, yn enwedig ar Heol y Lanfa, lle nad oes ond lle cyfyngedig i ehangu'r lleiniau. Bydd adborth a gafwyd gan y rhai sydd mewn llety brics a morter cymdeithasol ar rent yn cael ei fwydo'n ôl i'r LCC perthnasol.

**7.1.9** Wrth gyfeirio at yr ymatebion i Adran C, nododd 10 Ymatebydd eu bod yn bwriadu symud i lety amgen. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hyn (8) yn byw mewn llety Brics a Morter. Er bod yr ymatebion hyn yn awgrymu bod 1 preswylydd parhaol ar y safle sy'n ystyried llety amgen, ni all yr Awdurdod ddangos y bydd yr aelwydydd hyn yn bendant yn sicrhau llety amgen yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Roedd 1 ymatebydd yn aros ar safle, ac fe'i cynhwyswyd wrth gyfrif yr angen sy'n codi o ganlyniad i orlenwi.

**7.1.10** Mae'r ymatebion i Adrannau A ac C, felly, yn dangos i'r Awdurdod bod aelwydydd yn ystyried llety amgen, ond oherwydd na ellir dod i unrhyw gasgliadau ystyrlon ar sail yr wybodaeth hon, nodwyd ffigur o '0', ac os bydd y preswylwyr hyn yn sicrhau llety amgen, rhagwelir y byddai hynny'n cael ei gynnwys yn y gyfradd trosiant flynyddol a ragwelir o 8 llain.

**7.1.11** Mae Rhes E yn nodi cyfanswm nifer y lleiniau newydd awdurdod lleol a phreifat a gafodd ganiatâd cynllunio. Ar hyn o bryd nid oes lleiniau heb eu datblygu sydd wedi cael caniatâd cynllunio, felly nodwyd 0 yn Rhes E.

**Y Galw Preswyl Cyfredol**

**7.1.12** Mae'r wybodaeth a gafwyd trwy'r arolwg a ffynonellau data eraill yn darparu digon o fanylion i asesu'n gywir lefel y galw presennol ar hyn o bryd. Wrth adolygu a dadansoddi'r ymatebion, mae'n bwysig deall yn llawn y gwahaniaeth rhwng angen a galw/dewis, er mwyn sicrhau bod y rhai sydd mewn 'angen' yn cael eu hanghenion wedi'u hasesu'n ddigonol trwy'r broses hon. Mae Paragraffau 166-170 o'r canllawiau (4) yn barnu mai'r tri phrif faes wrth ystyried y gwahaniaeth rhwng anghenion a dewisiadau yw'r canlynol:

- i) asesu gwrthwynebiad diwylliannol i dai confensiynol;
- ii) aelodau o'r gymuned sy'n hawlio angen am leiniau cartref symudol mewn Awdurdod Lleol gwahanol i'r un sy'n cynnal yr asesiad; a'r
- iii) rhai sydd ar safleoedd heb eu hawdurdodi.

**7.1.13** Rhoddir sylw manylach i hyn isod.

**7.1.14** Dylai Rhesi F ac G gynnwys nifer y gwersyllfeydd heb eu hawdurdodi a'r datblygiadau heb eu hawdurdodi. Nid oedd gwersyllfeydd na datblygiadau hysbys heb eu hawdurdodi yn ystod cyfnod yr arolwg, felly rhoddwyd ffigur o '0' yn y ddwy Res.

**7.1.15** Mae Rhes H yn asesu'r galw preswyl yn sgîl gorlenwi ar aelwydydd preswyl, a dylai gynnwys y rhai lle nad oes lle digonol i aelodau teulu o fewn y llety cartref symudol, a lle nad oes digon o le ar eu llain i osod cartref symudol ychwanegol yn ddiogel. Nododd cyfanswm o 2 Ymatebydd nad oedd digon o fannau cysgu i holl aelodau'r teulu, a nododd 1 o'r aelwydydd hynny fod digon o le ar gyfer carafan ychwanegol ar eu llain. Nododd yr 1 aelwyd oedd yn weddill nad oedd digon o le ar gyfer carafan neu gartref symudol arall, felly rhoddwyd ffigur o 1 yn Rhes H.

**7.1.16** Mae Rhes I yn cyfrif y rhai mewn tai confensiynol sy'n nodi angen am lain, a bydd hynny'n cynnwys:

- i) rhai sydd â gwrthwynebiad diwylliannol i dai confensiynol:

- ii) rhai sy’n profi gorlenwi; neu’r
- iii) rhai sydd wedi tyfu’n oedolion ac sydd am symud allan o gartref y teulu a byw ar safle.

**7.1.17** Cynhaliwyd 12 o gyfweliadau gyda theuluoedd mewn brics a morter, ac ar sail y cyfweliadau hynny, er bod 7 ymatebydd wedi mynegi awydd i symud i safle, nid oedd arwyddion o wrthwynebiad diwylliannol, gan fod llawer wedi byw yn eu llety cyfredol ers dros 5 mlynedd. Ymhellach, nid oes neb o’r aelwydydd a fynegodd awydd i symud i safle ar y rhestr aros ar gyfer lleiniau ar hyn o bryd, felly nid oes cadarnhad o’r angen am symud i safle.

**7.1.18** Nododd yr arolwg 10 aelwyd sydd ar hyn o bryd yn byw mewn llety brics a morter, a fyddai’n hoffi symud i’w cartref eu hunain yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Byddai 5 ohonynt yn hoffi llety ar Safle Awdurdod Lleol yn benodol, hoffai 2 ohonynt Safle Awdurdod Lleol neu Breifat neu Lety Brics a Morter Cymdeithas Tai, ac ni nododd 3 pa fath o lety hoffen nhw. Gan na ddangosodd ymatebwyr i’r arolwg o Lety Brics a Morter wrthwynebiad diwylliannol i dai, mae’n bosibl y bydd yr aelwydydd newydd sy’n ymffurfio (plant) hefyd yn dymuno byw ac ymgartrefu mewn Llety Brics a Morter. Ar wahân i’r 1 aelwyd sy’n profi gorlenwi, fel yr esboniwyd isod, nid oedd neb o’r aelwydydd newydd a ragwelwyd yn ymffurfio trwy’r arolwg wedi tyfu’n oedolion eto, ac felly nid ydynt wedi’u nodi yn Rhes I.

**7.1.19** Roedd un aelwyd mewn llety brics a morter yn byw ar hyn o bryd gydag aelwyd 47 eu rhieni, a ymatebodd i’r arolwg hefyd. Mae’r aelwyd teuluol cymharol newydd hwn, o ganlyniad, yn profi gorlenwi, ac yn creu angen am 1 llain – fe’i cynhwyswyd yn Rhes I.

**7.1.20** Dylai Rhes J gynnwys y galw a ragwelir gan aelwydydd newydd y disgwylir iddynt gyrraedd, ac mae’n deillio o ddadansoddiad o’r rhestrau aros cyfredol, cyfrifiad o’r carafannau, neu weithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol eraill. Ar hyn o bryd mae dwy restr aros ar wahân, un ar gyfer Cae Garw ac un ar gyfer Heol y Lanfa, a gall aelwydydd roi eu henwau ar y ddwy restr os dymunant. Ar ôl adolygu’r rhestrau aros, mae nifer o deuluoedd ar restr aros Heol y Lanfa sydd eisoes yn byw ar y safle gyda’u rhieni, ac sy’n awyddus i sefydlu eu haelwydydd eu hunain yn y dyfodol. Mae tri o’r aelwydydd hyn o dan 18 oed, a heb gyrraedd oedolaeth eto, felly ni fyddent yn gallu ymrwymo i denantiaeth. Mae’r 3 aelwyd hyn wedi cael eu tynnu allan o’r cyfrifiad ar y rhestr aros at ddiben asesu Rhes J, gan nad yw’r angen hwn yn un ‘cyfredol’ mewn gwirionedd. Ar ôl tynnu’r 3 aelwyd hyn allan, mae 4 aelwyd ar y rhestrau ar hyn o bryd, pawb ohonynt yn byw ar leiniau awdurdodedig ar hyn o bryd ar safleoedd hen neu newydd Heol y Lanfa, Llansawel. O ganlyniad, rhoddwyd ffigur o 4 yn Rhes J.

**Twf Aelwydydd i’r Dyfodol**

**7.1.21** Awgrymir yn gyffredinol fod cyfradd twf aelwydydd yn y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn fwy na'r twf yn y gymuned sefydlog ehangach, yn gyffredinol oherwydd ffactorau fel ei phoblogaeth gymharol ifanc, cyfraddau geni uwch ac oed ffrwythlondeb iau. Er y gallwn ragdybio’n gyffredinol y bydd cyfradd ffurfio aelwydydd yn uwch, mae'n bwysig bod y cyfraddau ffurfio aelwydydd a gymhwysir i gymunedau Sipsiwn a Theithwyr lleol yn seiliedig ar dystiolaeth leol ddibynadwy ac yn darparu asesiad cyfredol. Dywed Canllawiau Llywodraeth Cymru fod angen i Awdurdodau ddadansoddi'r data demograffig a roddwyd gan aelodau o'r gymuned ac, ar sail y data mewn asesiadau Sipsiwn a Theithwyr blaenorol, mae Llywodraeth Cymru'n awgrymu cyfradd twf sydd rhwng 1.5% a 3% y flwyddyn.(5)

**7.1.22** Yn 2003, awgrymodd astudiaeth ar ran Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (6) y byddai defnyddio cyfradd twf aelwydydd o 2-3% yn briodol wrth ragamcanu ffurfio aelwydydd yn y dyfodol. Ar y sail hon, cafodd ffigur o 3% ei ddefnyddio'n helaeth mewn asesiadau ers cyhoeddi'r astudiaeth, er bod yr astudiaeth honno'n awgrymu y dylai asesiadau unigol ddefnyddio tystiolaeth leol i bennu cyfraddau ffurfio aelwydydd yn y dyfodol.

**7.1.23** Yn 2013, awgrymodd Opinion Research Services (ORS), yn eu Nodyn Technegol ar gyfraddau ffurfio aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr, nad oedd fawr o dystiolaeth ystadegol i gefnogi cyfradd o 3%, gan ddweud 'Defnyddiwyd cyfradd twf o 3% yn gyffredin mewn asesiadau, ond nid oes tystiolaeth ystadegol bod aelwydydd yn tyfu mor gyflym â hyn'. Ar sail eu gwaith modelu poblogaeth, dywed ORS y gallai cyfradd twf y boblogaeth fod mor isel ag 1.25% ac y gallai'r gyfradd ffurfio aelwydydd fod rhwng 1.5% a 2.5% y flwyddyn, gyda chyfradd twf o 3% ond yn berthnasol mewn amgylchiadau eithriadol a fyddai'n gofyn am gyfiawnhad clir a chefnogaeth ystadegol cyn ei defnyddio. Daethant i'r casgliad 'Felly mae ffigur twf aelwydydd sydd ychydig dros 1.25% y flwyddyn yn gredadwy, ond mae 3% yn anodd iawn ei gredu'. (8)

**7.1.24** Cyhoeddodd ORS Nodyn Technegol pellach yn fwy diweddar sy'n darparu dadansoddiad ychwanegol o Nodyn Technegol 2013 gan nodi, 'Hyd yn oed o ddefnyddio rhagdybiaethau eithafol ac afrealistig, mae'n anodd darganfod tystiolaeth bod cyfraddau twf poblogaeth ac aelwydydd newydd Sipsiwn a Theithwyr yn uwch na 2% y flwyddyn yn genedlaethol. Mae'r gyfradd net o 3% y flwyddyn a ragdybir yn aml ar gyfer twf mewn aelwydydd yn afrealistig a byddai angen tystiolaeth ystadegol glir cyn ei defnyddio at ddibenion cynllunio'. (9)

**7.1.25** Mae Adran D o'r holiadur yn awgrymu y bydd angen llain ar 29 o aelwydydd o fewn y cyfnod nesaf o 5 mlynedd, sy'n cynrychioli twf gros o 9.21% y flwyddyn:

**7.1.26** 29/5 mlynedd = 5.8 llain

**7.1.27** 5.8 llain wedi'u rhannu gan yr aelwydydd presennol (63), 5.8 / 63 x 100 = 9.21%.

**7.1.28** Yng nghyd-destun ymchwil a gyhoeddwyd a'r ystod a awgrymir gan ganllawiau Llywodraeth Cymru, mae'r Awdurdod o'r farn bod cyfradd twf uwch na 3% yn afrealistig, ac felly mae wedi archwilio'r lefel briodol o dwf yng Nghastell-nedd Port Talbot mewn ffordd amgen.

### Twf Aelwydydd yng Nghastell-nedd Port Talbot

**7.1.29** Wrth asesu cyfraddau ffurfio aelwydydd, mae'n bwysig ystyried lefelau ffurfio aelwydydd newydd ond hefyd nifer yr aelwydydd a gollir oherwydd eu bod yn chwalu. Er bod canllawiau Llywodraeth Cymru (10) yn dweud bod angen cynnwys aelwydydd sy'n chwalu yn rhes D o'r cyfrifiad, mae rhes D yn dangos data trosiant lleiniau dros gyfnod o flwyddyn yn unig. O beidio ag ystyried mudo a chwalu am weddill y cyfnod o 5 mlynedd, byddai'r asesiad ffurfio aelwydydd yn canolbwyntio'n unig ar dwf mewn aelwydydd heb ystyried y colledion.

**7.1.30** Byddai hynny'n arwain at gyfradd gros ar gyfer ffurfio aelwydydd, yn hytrach na chyfradd net, a fyddai wedi'i chwyddo mewn modd artiffisial. I gael cyfradd fanwl gywir ar gyfer ffurfio aelwydydd, mae angen ystyried y gostyngiad yn nifer yr aelwydydd oherwydd chwalu, symud allan o'r ardal a symud i fathau eraill o dai. Yn wir, dywedodd ORS, '...mae'n destun pryder nad yw llawer o asesiadau o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr wedi gwahaniaethu rhwng cyfraddau twf gros a net nac ychwaith wedi darparu tystiolaeth ynghylch

eu cyfraddau tybiedig ar gyfer twf aelwydydd. Mae'r diffygion hyn yn arbennig o bwysig oherwydd pan fydd cyfraddau twf tybiedig yn afrealistig o uchel, ac yn mynd o ddrwg i waeth dros nifer o flynyddoedd cynllunio, gallant esgor ar ragamcanion sy'n gorliwio anghenion llety ac yn camarwain polisi cyhoeddus.' (11) Ar y sail hon, archwiliodd yr Awdurdod elfennau demograffig yr arolwg ymhellach, heb ganolbwyntio ar adran D yn ynysig.

**7.1.31** Mae canlyniadau Adran D o'r arolwg yn nodi nifer gros yr aelwydydd sy'n ymffurfio (twf teuluoedd). Mae angen cymharu'r twf gros hwn â niferoedd yr aelwydydd sy'n chwalu, er mwyn cael cyfradd net ar gyfer ffurfio aelwydydd. Mae ORS yn mynd ymlaen i ddweud, '...caiff cyfradd gros twf aelwydydd ei thymheru gan ostyngiadau yn nifer yr aelwydydd yn sgîl chwalu a/neu symud i dai brics a morter neu i ardaloedd eraill. Mewn geiriau eraill, hyd yn oed os yw 3% yn gredadwy fel cyfradd gros, tymherir hyn gan ostyngiadau yn nifer yr aelwydydd yn sgîl chwalu neu symud. Y gyfradd net ar gyfer twf aelwydydd sy'n deillio o hynny sy'n bwysig at bwrpas cynllunio wrth asesu anghenion llety yn y dyfodol.' (12)

**7.1.32** O ran mudo, mae ORS (13) wedi edrych ar lefelau mudo yn y gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Darganfu'r ymchwil mai ychydig o dystiolaeth sydd ynghylch mudo rhyngwladol, ond o ran mudo lleol, mae symud yn digwydd yn aml rhwng ardaloedd Awdurdod Lleol ac, yn gyffredinol, gwelwyd ym mhob achos fod cyfatebiaeth rhwng y mudo i mewn i ardal a'r mudo allan i ardal arall. Ar y sail hon, mae ORS yn rhagdybio y bydd mudo i ardal ac o ardal yn 0, a chan nad oes unrhyw ddata credadwy ar gael, mae'r Awdurdod hefyd wedi defnyddio 0 fel ffigur mudo ar sail casgliadau ORS. Gall trosglwyddo i fathau eraill o dai, fel tai brics a morter, gael effaith hefyd ar y gyfradd ffurfio aelwydydd, ond nid oes data ystadegol i awgrymu pa mor aml y gall hyn ddigwydd ac felly ni chaniatawyd ar ei gyfer.

**7.1.33** O ystyried lefel chwalu aelwydydd, darganfu astudiaeth gan Parry et al (2004) (14), fod Sipsiwn a Theithwyr yn llai tebygol na'r cyfartaledd o fyw y tu hwnt i 68 i 70 oed, sydd 10-12 mlynedd yn is na hyd oes disgwyliedig poblogaeth gyfan y Deyrnas Unedig. Yn eu modelau, mae ORS yn rhagdybio hyd oes disgwyliedig cyfartalog o 72 oed, sy'n ddull gweithredu mwy gochelgar nag astudiaeth Parry et al. Yn ein dadansoddiad ni, rydym wedi dilyn dull gweithredu ORS ac wedi rhagdybio mai 72 oed yw'r hyd oes disgwyliedig er mwyn bod yn wyliadwrus.

**7.1.34** Wrth gymharu proffil oed y gymuned, yn ôl canfyddiadau'r arolwg, â chanlyniadau Cyfrifiad 2011, gwelir bod cyfran uwch o Sipsiwn a Theithwyr 65 oed a throsodd yn byw yng Nghastell-nedd Port Talbot na'r nifer cyfartalog yn y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru a Lloegr, fel y dangosir yn y tabl canlynol:

**Tabl 7.1.1 Proffil Oed y Trigolion 65 oed a throsodd**

| Ystod Oed | Nifer (Cyfrifiad CNPT 2011) | Nifer (Arolwg CNPT 2011) | Canran (Cyfrifiad CNPT 2011) | Canran (Arolwg CNPT 2021) | Cyfartaledd Cymru a Lloegr (Cyfrifiad 2011) |
|---|---|---|---|---|---|
| 65-69 | 4 | 3 | 2.11% | 1.42% | 2.00% |
| 70-74 | 6 | 2 | 3.16% | 0.94% | 2.00% |
| 75-79 | 4 | 8 | 2.11% | 3.77% | 1.00% |
| 80-84 | 1 | 5 | 0.53% | 2.36% | 0.50% |
| 85+ | 0 | 0 | 0.00% | 0.00% | 0.50% |
| Cyfanswm 65+ | 15 | 18 | 7.89% | 8.49% | 6.00% |
| Cyfanswm Poblogaeth | 190 | 212 | 100% | 100% | 100% |

**7.1.35** Ar sail canlyniadau'r arolwg, bydd 16 o breswylwyr yn hŷn na 72 oed erbyn diwedd cyfnod 5 mlynedd yr astudiaeth, a bydd cyfanswm o 8 aelwyd lle bydd pob aelod yn 72 oed neu'n hŷn (mae 3 o'r rhain yn aelwydydd person sengl a 5 yn aelwydydd 2 aelod). Petai'r holl aelwydydd hyn yn chwalu yn ystod y cyfnod byddai'r gyfradd flynyddol yn 1.6 llain y flwyddyn.

**Cyfradd Net Twf Aelwydydd**

**7.1.36** I bennu cyfradd net ar gyfer twf aelwydydd, bydd angen tynnu'r gyfradd ar sail tystiolaeth ar gyfer aelwydydd sy'n chwalu o uchafswm y gyfradd gros ar gyfer twf aelwydydd a awgrymwyd gan ganllawiau ac ymchwil a gydnabyddir yn genedlaethol. Felly os tynnir y gyfradd chwalu (1.6) oddi wrth y gyfradd twf gros uchaf i aelwydydd (3), nodir cyfradd twf aelwydydd net o 1.4%.

**7.1.37** Cefnogir hyn ymhellach gan ddadansoddiad o dwf cyfartalog yr holl garafannau dros gyfnod o 5 mlynedd rhwng 2016 a 2021. Yn ôl nifer y carafannau, mae'r cyfanswm a nodwyd yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi amrywio'n sylweddol yn ystod y cyfnodau o 6 mis pryd y cynhelir y cyfrifiad. Er y cydnabyddir nad aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw yn yr holl garafannau, mae'n rhoi syniad o niferoedd newidiol yr aelwydydd sy'n tramwyo. Cyfanswm net y newid % yn ystod y cyfnod o 5 mlynedd yw 7%, ac wedi'i rannu gan 5 mae hynny'n rhoi newid blynyddol cyfartalog o 1.41%.

**7.1.38** Amlygodd ymgysylltiad â rhanddeiliaid trwy'r Grŵp Llywio Sipsiwn a Theithwyr dystiolaeth anecdotaidd o dueddiadau ffurfio aelwydydd newydd. Cadarnhaodd cynrychiolwyr cymunedol nad yw llawer o deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr yn disgwyl yn awtomatig y bydd eu plant yn ffurfio aelwydydd newydd oddi mewn i safleoedd eu plentyndod wrth dyfu'n oedolion. Derbynnir hefyd y bydd y fenyw mewn perthynas newydd yn aml yn symud i fyw ar safle'r partner. Mae hyn yn darparu cyfiawnhad ychwanegol ynghylch amhriodoldeb cymhwyso cyfradd twf aelwydydd flynyddol sy'n tueddu at ben uwch y gyfradd twf a dderbynnir yn genedlaethol (2-3%).

**7.1.39** Mae cyfradd twf aelwydydd o 1.4% yn gyfforddus o fewn y canllawiau diweddaraf sydd ar gael a'r ymchwil ynghylch beth fyddai cyfradd briodol rhwng 1.25% a 2.25%. O ganlyniad, mae'r Awdurdod yn dod i'r casgliad bod cyfradd twf aelwydydd o 1.4% yn briodol ar gyfer yr ardal gan ei bod wedi'i seilio ar dystiolaeth leol gadarn, ac felly yn cydymffurfio'n llwyr â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

**Amcangyfrif o'r Angen am Leiniau Safleoedd Preswyl yng Nghastell-nedd Port Talbot**

**7.1.40** Gan ddefnyddio'r wybodaeth a goladwyd uchod, mae'r tabl sy'n dilyn yn asesu'r angen am leiniau Sipsiwn a Theithwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ystod y 5 mlynedd nesaf, ac yn ystod cyfnod y Cynllun (hyd at 2036).

**Tabl 7.1.2**

| Rhes | Y cyflenwad preswyl cyfredol | Nifer y Lleiniau |
|---|---|---|
| A. | Lleiniau Awdurdod Lleol a feddiannwyd | 64 |
| B. | Lleiniau preifat awdurdodedig a feddiannwyd | 1 |
| | Cyfanswm | 65 |

**Tabl 7.1.3**

| | Y cyflenwad preswyl arfaethedig | Nifer y Lleiniau |
|---|---|---|
| C. | Lleiniau Awdurdod Lleol Gwag a lleiniau preifat gwag sydd ar gael | 3 |
| D. | Lleiniau y disgwylir iddynt ddod yn wag yn y dyfodol agos (gweler nodyn 1) | 8 |
| E. | Lleiniau Awdurdod Lleol a phreifat newydd sydd â chaniatâd cynllunio | 0 |
| | Cyfanswm | 11 |

**Tabl 7.1.4**

| | Y galw preswyl cyfredol | Y Galw am Leiniau |
|---|---|---|
| F. | Gwersyllfeydd heb eu hawdurdodi | 0 |
| G. | Datblygiadau heb eu hawdurdodi | 0 |
| H. | Lleiniau wedi gorlenwi (gweler nodyn 2) | 1 |
| I. | Tai confensiynol (gweler nodyn 3) | 1 |
| J. | Aelwydydd newydd i gyrraedd (gweler nodyn 4) | 4 |
| | Cyfanswm | 6 |

**Tabl 7.1.5**

| | Aelwydydd Presennol (gweler nodyn 7) | Aelwydydd y Dyfodol (ym mlwyddyn 5) | Aelwydydd y Dyfodol (cyfnod y Cynllun) |
|---|---|---|---|
| K. | 63 | 68 | 78 |
| L. | Yr angen am leiniau ychwanegol i aelwydydd | 5 | 15 |

**Tabl 7.1.6**

| | Angen heb ei Ddiwallu | Angen sy'n codi | Angen y darparwyd ar ei gyfer |
|---|---|---|---|
| M. | Galw preswyl cyfredol | 6 | 0 |
| N. | Galw preswyl yn y dyfodol (5 mlynedd) | 5 | 0 |
| O. | Galw preswyl yn y dyfodol (cyfnod y cynllun) | 15 | 0 |
| P. | Cyflenwad preswyl a gynlluniwyd | 0 | 11 |
| Q. | Angen heb ei ddiwallu (5 mlynedd) | 0 | lleiniau |
| R. | Angen heb ei ddiwallu (cyfnod y cynllun) | 10 | lleiniau |

**Siewmyn Teithiol**

**7.1.41** Fel rhan o broses y GTAA, cysylltodd yr Awdurdod ag Urdd y Siewmyn i sicrhau golwg gynrychioliadol ar anghenion llety Siewmyn Teithiol o fewn y Sir.

**7.1.42** Mae'r Urdd wedi datblygu perthynas dda â'r Awdurdod yn y gorffennol ac mae ganddi gysylltiad hir â'r ardal drwy'r Ffeiriau blynyddol. Heblaw am ymweld â'r ardal ar gyfer Ffeiriau blynyddol, nid oes Siewmyn Teithiol yn preswylio'n barhaol yng Nghastell-nedd Port Talbot ac nid oes hanes ohonynt yn preswylio nac yn ymgynnull yn rheolaidd yn yr ardal ar gyfer eu hanghenion llety. Cadarnhaodd yr Urdd trwy ohebiaeth e-bost a thros y ffôn nad oeddent yn dymuno bod yn rhan o'n harolwg, ac nad oedd angen safle preswyl a/neu lety gaeaf arnynt yng Nghastell-nedd Port Talbot.

**7.1.43** Rydym ni'n ymwybodol bod aelwydydd o gymuned y Siewmyn Teithiol sy'n ymweld â Chastell-nedd Port Talbot i gynnal ffeiriau yn ymgynnull yn Ninas a Sir Abertawe neu'n byw yno ac yn cymudo i Gastell-nedd Port Talbot pan fydd ffeiriau ar waith. Cadarnhaodd cyswllt â swyddogion Cyngor Abertawe fod darpariaeth ar gyfer Siewmyn Teithiol yn debygol o gael ei nodi yn eu GTAA sydd i ddod.

**7.1.44** Gan nad yw aelodau'r Urdd yn preswylio nac yn ymgynnull yn rheolaidd yng Nghastell-nedd Port Talbot, ac yn absenoldeb cyfweliadau, ni nodwyd angen trwy'r broses GTAA.

## 7.2 Anghenion Tramwy sydd heb eu Diwallu

**7.2.1** Mae'r Adran hon o'r Arolwg yn rhoi sylw i'r angen am ddarpariaeth dramwy yn yr ardal hon ac ardaloedd Awdurdodau Lleol eraill. Bydd yn helpu'r Awdurdod Lleol i ddeall a oes angen llety safleoedd tramwy yn yr ardal.

**7.2.2** Holwyd yr ymatebwyr ‘Ydych chi wedi gwersylla wrth ymyl y ffordd/ar wersyllfa heb ei hawdurdodi/ar safle tramwy yng Nghymru wrth deithio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?’ – atebodd 56 (86%) o’r Ymatebwyr ‘Nac ydw’ a 4 Ymatebydd (6%) ‘Ydw’, gan nodi eu bod wedi gwersylla. Ni chafwyd ateb i’r cwestiwn hwn gan 5 o’r ymatebwyr (8%).


**7.2.3** O’r 4 ymatebydd a gadarnhaodd eu bod wedi gwersylla, nid atebodd 2 ymatebydd ble, dewisodd 1 ymatebydd beidio a dweud ble, ac esboniodd yr 1 ymatebydd oedd yn weddill eu bod wedi gwersyllfa mewn amrywiol fannau yn y Deyrnas Unedig, y tro diwethaf yn Swydd Efrog ryw 6 mis yn ôl.

**7.2.4** O ran hyd yr arhosiad mewn un lle, dywedodd 2 ymatebydd 1-3 mis, dywedodd 1 ymatebydd 2 wythnos – 1 mis, ac ateb yr ymatebydd arall oedd 1-2 wythnos.

**7.2.5** Ar sail yr ymatebion i Gwestiwn E1, mae’n amlwg bod symudiadau poblogaeth Sipsiwn a Theithwyr Castell-nedd Port Talbot wedi bod yn gyfyngedig iawn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gan fod o leiaf 86% o aelwydydd heb deithio, byddai hynny’n awgrymu bod y gymuned yn gymharol sefydlog, heb fawr ddim arwyddion o symudiadau teithio rheolaidd, a dim tystiolaeth gadarn o fod wedi teithio o fewn y Sir nac yng Nghymru.

**7.2.6** Mae Cwestiwn E4 yn gofyn i’r ymatebwyr ‘Ydych chi’n meddwl bod angen mwy o safleoedd tramwy yng Nghymru?’ Atebodd 42% (27) ‘Nac ydw’ a 52% (34) ‘‘Ydw’, ac ni chafwyd ymateb i’r cwestiwn hwn gan 6% arall. O’r 34 o Ymatebwyr a nododd ‘Ydw’, gofynnodd yr arolwg wedyn ble roedd angen amdanynt, a dangosir yr ymatebion isod.

**Ffigur 7.1 Anghenion o ran Safleoedd Tramwy**




**7.2.7** O’r 34 ymateb, teimlai 18% (6) fod angen ‘cyffredinol yng Nghymru’ am Safleoedd Tramwy, nododd 21% (7) fod angen 'cyffredinol yng Nghymru/yn Lloegr’ a theimlai 26% o’r Ymatebwyr (9) fod angen Safleoedd Tramwy ‘yn lleol’. Er bod 52% o’r aelwydydd wedi nodi

eu bod yn meddwl bod angen mwy o ddarpariaeth dramwy yng Nghymru, ni nododd neb ohonynt awdurdod lleol arall penodol yng Nghymru. Awgrymodd dau ymatebydd fod angen safle tramwy yn Llansawel ar gyfer teuluoedd fyddai'n ymweld.

**7.2.8** Er y gallwn ddod i'r casgliad bod rhagdybiaeth gyffredinol o blaid lleiniau tramwy pellach yng Nghymru, ni ellir dod i gasgliadau ystyrlon o'r data a gafwyd yn yr arolwg ynghylch lleoliadau posibl i safle Tramwy.

**7.2.9** Ymhellach, cadarnhaodd cysylltiad â swyddogion o Gyngor Abertawe fod ymatebwyr i'w harolwg holiadur wedi nodi angen am ddarpariaeth dramwy yn Abertawe ar gyfer teuluoedd ar ymweliad, ac y byddai hynny'n derbyn sylw yn eu GTAA sydd i ddod. Rhagwelir y bydd unrhyw ddarpariaeth o ran safleoedd tramwy yn y dyfodol yn Abertawe neu'r rhanbarth hefyd yn helpu i leihau nifer y gwersyllfeydd heb eu hawdurdodi yng Nghastell-nedd Port Talbot yn y dyfodol.

**8.0.1** Mae'r cyfrifiad sy'n amcangyfrif yr angen am leiniau preswyl ar safleoedd i'w weld yn Nhabl 7.1.1. Mae'n dod i'r casgliad, yn ystod y pum mlynedd nesaf, mai ffigur o 0 yw'r angen am leiniau newydd yng Nghastell-nedd Port Talbot.

**8.0.2** Yr angen tymor hwy sydd i'w ddiwallu yn ystod gweddill cyfnod y cynllun hyd at 2036 yw 10 o leiniau ychwanegol. Bydd yr awdurdod yn ystyried ffyrdd o greu darpariaeth i ddiwallu'r angen hwn a nodwyd i'r dyfodol trwy baratoi Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Castell-nedd Port Talbot 2021-2036. Ar y cychwyn bydd hynny'n golygu cynnal galwad am safleoedd ymgeisiol a allai gynnwys safleoedd posibl i Sipsiwn a Theithwyr rhwng Mawrth a Mai 2022. Ar ben hynny, bydd yr anghenion a nodwyd yn y sir hefyd yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr ar draws Rhanbarth De-orllewin Cymru, trwy baratoi Cynllun Datblygu Strategol gan Gyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru, proses sydd i gychwyn yn ffurfiol ym mis Chwefror 2022.

**8.0.3** O ran Safleoedd Tramwy a Mannau Aros Dros Dro, o adolygu ymatebion canfyddiadau'r arolwg ac absenoldeb unrhyw angen a nodwyd ar gyfer Castell-nedd Port Talbot gan Awdurdodau Lleol cymdogol, nid oes tystiolaeth glir i gefnogi neu gyfiawnhau'n gywir ddatblygu unrhyw ddarpariaeth dramwy yng Nghastell-nedd Port Talbot.

**Y Camau Nesaf**

**Monitro**

**8.0.4** Wedi i'r CDLl gael ei fabwysiadu, mae rhwymedigaeth statudol ar y Cyngor o dan Adran 61 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 i adolygu'n barhaus yr holl faterion y disgwylir iddynt effeithio ar ddatblygiad ei ardal. Mae monitro yn rhan hollbwysig o'r broses ddatblygu, ac yn ddull allweddol o ddatblygu dealltwriaeth lawnach o'r materion sy'n effeithio ar gymunedau, ac i ba raddau mae polisïau presennol yn cyflawni eu hamcanion a nodwyd.

**8.0.5** Yn unol â Rheoliad 37 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol)(Cymru)(Newidiwyd) 2015, mae'n ofynnol bod yr Awdurdod yn paratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) sy'n cwmpasu'r flwyddyn ariannol flaenorol o 1 Ebrill tan 31 Mawrth. Rhaid ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn, a'i gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

**8.0.6** Mabwysiadwyd y CDLl cyfredol ar 27 Ionawr 2016, ac ers hynny mae'r Awdurdod wedi paratoi a chyflwyno 5 AMB yn 2017, 2018, 2019, 2020 a 2021, a grynhoir yn Adran 3: Y Cyd-destun Polisi. Sbardunodd AMB 2019 adolygiad o'r CDLl cyfredol a chyhoeddwyd Adroddiad Adolygu ym mis Gorffennaf 2020 yn cyflwyno'r materion sydd i dderbyn sylw. Bydd yr adolygiad o'r cynllun a datblygiad polisi yn cael eu seilio ar ganfyddiadau'r fframwaith monitro.

**8.0.7** Mae Fframwaith Monitro'r CDLl yn cynnwys nifer o ddangosyddion sy'n ymwneud yn benodol â'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr, ac adolygir y rhain yn barhaus. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Nifer y lleiniau ychwanegol a ddarperir yng Nghae Garw;
- Nifer y cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a ganiateir yn flynyddol;
- Nifer y gwersyllfeydd Sipsiwn a Theithwyr heb eu hawdurdodi yr adroddir amdanynt yn flynyddol ;
- Yr angen am ddarpariaeth ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr fel y nodir mewn GTAA.

**8.0.8** Bydd pob un o'r dangosyddion uchod yn parhau i gael eu monitro'n flynyddol, ac adroddir arnynt i Lywodraeth Cymru trwy'r AMB. Bydd yr AMB yn sicrhau bod y ddarpariaeth Sipsiwn a Theithwyr a nodir yn y CDLI ac sy'n ofynnol yn sgîl unrhyw GTAAs dilynol yn cael ei chyflwyno, a bydd yn caniatáu monitro unrhyw newidiadau posibl, megis angen cynyddol am leiniau neu gynnydd yn y gwersyllfeydd heb eu hawdurdodi, gan lunio adroddiadau blynyddol arnynt, a rhoi sylw iddynt trwy adolygu'r Cynllun os bydd angen.

**Amserlenni ar gyfer Diweddaru'r CDLI**

**8.0.9** Unwaith mae'r Awdurdod yn derbyn cadarnhad gan Weinidogion Cymru bod y GTAA wedi cael ei gymeradwyo, bydd canfyddiadau'r Astudiaeth yn cael eu hymgorffori wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Amnewid 2021-2036. Cyflwynir yr amserlen arfaethedig ar gyfer paratoi'r CDLIA isod:

## Tabl 8.0.1 Tabl yn manylu ar gyfnodau paratoi'r CDLIA


| Cyfnod Allweddol | Cyfnod wrth Baratoi'r CDLIA | Amserlen |
|---|---|---|
| **Cyfnodau Terfynol** | | |
| 1 | Cytundeb Cyflawni | Ionawr 2022 |
| 2 | Cyfranogiad / Paratoadau Cyn-Adnau (Rheoliad 14) | Ionawr 2022 - Tachwedd2023 |
| | Galwad am Safleoedd Ymgeisiol | Mawrth 2022 - Mai 2022 |
| 3 | Ymgynghoriad Cyn-Adnau (Strategaeth a Ffafrir) – (Rheoliad 15) | Mawrth 2023 – Ebrill 2023 |
| 4 | Cyfranogiad / Paratoadau Adnau | Awst 2023 – Chwefror 2024 |
| | Ymgynghori ar y CDLIA Adnau (Rheoliad 17) | Mawrth 2024 - Ebrill 2024 |
| **Amserlen Ddangosol** | | |
| 5 | Cyflwyno'r CDLIA i LIC i'w archwilio (Rheoliad 22) | Hydref 2024 |
| 6 | Archwiliad Annibynnol (Rheoliad 23) | Rhagfyr – Chwefror 2025 |
| 7 | Derbyn a Chyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd (Rheoliad 24) | Mai 2025 |
| 8 | Mabwysiadu'r CDLIA (Rheoliad 25) | Gorffennaf 2025 |
| 9 | Monitro ac Adolygu | Ebrill 2026 |

GYPSY & TRAVELLER SURVEY

# Are you part of the Gypsy Traveller Community?

Neath Port Talbot Council are carrying out a Gypsy Traveller Accommodation Needs Assessment (GTAA) 2022.

The survey will take place between the 13th July and 16th September 2021.



**To take part in our survey, please go here:**
**www.npt.gov.uk/ldplatestnews**

or contact the council on **01639 686010**

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council


## A - Poster/Taflen GTAA 2022 (Saesneg a Chymraeg)  Appendix A:

AROLWG AR SIPSIWN A THEITHWYR

# Ydych chi'n aelod o Gymuned y Sipsiwn a'r Teithwyr?

Mae Cyngor Castell Nedd Port Talbot yn cynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a'r Teithwyr (GTAA) 2022.

Bydd yr arolwg hwn yn cael ei gynnal rhwng 13eg Gorffennaf ac 16eg Medi 2021.



**Os carech chi gymryd rhan yn ein harolwg, ewch i: www.npt.gov.uk/cdllnewyddiondiweddaraf**

neu cysylltwch â'r cyngor ar **01639 686010**

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

# Appendix B:  B - Rhestr Termau

**Tabl B.0.1 Diffiniadau o dermau a chysyniadau allweddol yn y canllawiau hyn**

| Term | Definition |
|---|---|
| Sipsiwn a Theithwyr | 1 Personau sy'n arfer ffordd nomadig o fyw, beth bynnag fo'u hil neu eu tarddiad, gan gynnwys:<br>1 1. Personau sydd, ar sail eu hanghenion addysg, eu hanghenion iechyd neu eu henaint eu hunain neu anghenion addysg, anghenion iechyd neu henaint eu teulu neu ddibynnydd, ac ar y sail honno yn unig, wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu yn barhaol, a<br>1 2. Aelodau o grŵp trefnedig o siewmyn teithiol neu bersonau sy'n rhan o syrcasau teithiol (pa un a ydynt yn cyd-deithio mewn grŵp o'r fath ai peidio); a<br>2 (b) unrhyw bersonau eraill sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol.<br>Ffynhonnell: Adran 108 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 |
| Safle Preswyl | Gall safle preswyl parhaol fod o dan berchenogaeth breifat neu berchenogaeth Awdurdod Lleol. Bydd y safle hwn wedi'i ddynodi i'w ddefnyddio fel safle Sipsiwn a Theithwyr am gyfnod amhenodol. Gall preswylwyr y safleoedd hyn ddisgwyl meddiannu eu lleiniau cyhyd ag y byddant yn cadw at delerau eu cytundebau llain, o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.<br>Gellir darparu lle gweithio hefyd ar neu ger safleoedd ar gyfer cynnal gweithgareddau gan aelodau'r gymuned. |
| Safle preswyl dros dro | Mae'r safleoedd hyn yn safleoedd preswyl y rhoddwyd caniatâd cynllunio neu drwydded safle ar eu cyfer am gyfnod penodol cyfyngedig. Gall preswylwyr y safleoedd hyn ddisgwyl meddiannu eu lleiniau dros gyfnod y caniatâd cynllunio neu'r drwydded safle (neu cyhyd ag y byddant yn cadw at delerau eu cytundeb llain, o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 – pa gyfnod bynnag sydd fyrraf). |
| Safle Tramwy | TSafleoedd tramwy yw cyfleusterau parhaol sydd wedi'u bwriadu i'w defnyddio dros dro gan feddianwyr. Rhaid dynodi'r safleoedd hyn a rhaid iddynt gynnig ffordd i Sipsiwn a Theithwyr barhau â ffordd nomadig o fyw. Caniateir i feddianwyr unigol breswylio ar y safle am 3 mis ar y tro ar y mwyaf.<br>Mae telerau penodol o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn gymwys i'r safleoedd hyn. Gellir darparu lle gweithio hefyd ar neu ger safleoedd ar gyfer cynnal gweithgareddau gan aelodau'r gymuned |
| Man Aros Dros Dro | Rhai o'r enwau eraill arno yw 'gwersyll' neu 'Atchin Tan'.  Mae'r rhain i'w defnyddio yn y tymor byr i helpu Awdurdodau Lleol lle derbynnir bod angen lleiniau ond nad oes dim ar gael ar y pryd. Gellir adleoli gwersylloedd mewn lleoedd amhriodol i fannau aros dros dro sydd wedi'u pennu ymlaen llaw wrth baratoi safleoedd eraill.<br>Rhaid darparu ar gyfer gwaredu gwastraff, cyflenwi dŵr a glanweithdra ar fannau aros dros dro. |
| Llain Breswyl | Tir ar safle cartrefi symudol lle mae gan feddianwyr hawl i osod eu cartrefi symudol am gyfnod amhenodol (oni bai bod eu cytundeb llain yn nodi fel arall). Fel arfer bydd yn cynnwys bloc amwynderau, lle ar gyfer carafán sefydlog a charafán deithiol a lle parcio. |

| Term | Definition |
|---|---|
| Llain Dramwy | Tir ar safle cartrefi symudol lle mae gan feddianwyr hawl i osod eu cartrefi symudol am 3 mis ar y mwyaf.<br>Gellir cael lleiniau tramwy ar safleoedd preswyl parhaol ond nid yw hyn yn cael ei argymell. |
| Gwersyll heb ei awdurdodi | Tir wedi'i feddiannu heb ganiatâd y perchennog neu heb gael caniatâd cynllunio cywir i ddefnyddio'r tir. Caiff yr Awdurdod Lleol oddef gwersylloedd tra bydd safleoedd eraill yn cael eu datblygu. |
| Datblygiad heb ei awdurdodi | Tir wedi'i feddiannu gan y perchennog heb gael y caniatâd cynllunio sydd ei angen i ddefnyddio'r tir. |
| Cyflenwad presennol o leiniau preswyl | Nifer y lleiniau awdurdodedig sydd ar gael ac wedi'u meddiannu o fewn ardal yr Awdurdod Lleol neu bartneriaeth. Mae hyn yn cynnwys lleiniau ar safleoedd Awdurdod Lleol a safleoedd preifat. |
| Galw presennol am leiniau preswyl | Y rhai y mae angen lleiniau awdurdodedig arnynt am wahanol resymau, gan gynnwys:<br>• analluu i sicrhau llain awdurdodedig sydd wedi arwain at feddiannu gwersylloedd diawdurdod;<br>• analluu i sicrhau caniatâd cynllunio cywir ar gyfer datblygiad diawdurdod;<br>• aelwydydd sy'n profi gorlenwi ac sydd am gael llain;<br>• aelwydydd mewn tai confensiynol sy'n mynegi gwrthwynebiad diwylliannol;<br>• aelwydydd newydd y disgwylir iddynt gyrraedd o leoedd eraill. |
| Galw am leiniau preswyl yn y dyfodol | Nifer yr aelwydydd newydd y disgwylir iddynt ymffurfio a fydd yn creu mwy o alw o fewn cyfnod 5 mlynedd yr asesiad o lety a chyfnod hwy y CDLl. |
| Cyfanswm yr angen am leiniau preswyl | Y cyfrif terfynol o anghenion llety sydd heb eu diwallu sydd i'w bennu drwy broses yr asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr. Gellir cyfrifo'r ffigur hwn drwy adio'r angen presennol am leiniau preswyl at y galw am leiniau preswyl yn y dyfodol. Bydd cyfanswm yr angen am leiniau preswyl yn dangos yr anghenion dros y cyfnod 5 mlynedd pryd y bernir bod yr asesiad o lety'n ddibynadwy. |
| Cyflenwad arfaethedig o leiniau preswyl | Nifer y lleiniau awdurdodedig sy'n wag ac sydd ar gael i'w rhentu ar safleoedd Awdurdod Lleol a safleoedd preifat. Mae hefyd yn cynnwys lleiniau a fydd yn wag yn y dyfodol agos am fod aelwydydd wedi symud i dai confensiynol neu oherwydd amgylchiadau eraill. Dylid cynnwys lleiniau ychwanegol y disgwylir iddynt agor neu safleoedd preifat sy'n debygol o gael caniatâd cynllunio cyn bo hir yn y cyflenwad arfaethedig o leiniau preswyl. |
| Aelwyd | Yn y canllawiau hyn mae'n golygu unigolion o'r un teulu sy'n byw gyda'i gilydd ar un llain neu mewn un tŷ / gwersyll. |
| Aelwyd gudd neu ddwbl | Gall hyn gynnwys plant sydd bellach yn oedolion sydd wedi methu â symud i'w cartref eu hunain neu aelwydydd gwahanol sy'n meddiannu un llain. |
| Twf aelwydydd | Y diffiniad o dwf aelwydydd yn y canllawiau hyn yw nifer yr aelwydydd newydd sy'n deillio o aelwydydd sydd eisoes mewn llety yn yr ardal. |

# Appendix C: C - Log Cyfweliadau

**Tabl C.0.1 Log Cyfweliadau**

| ID | Lleoliad | Rhif y Plot | Techneg cyfweld | Ymgais Gyfweld 1 | Ymgais Gyfweld 2 | Ymgais Gyfweld 3 | Holiadur wedi'i gwblhau neu ei wrthod | Holiadur wedi'i dderbyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 14 | Llansawel newyd | Plot 1 | Wyneb yn wyneb | 11.08.21 | | | Ie | Ie |
| 15 | Llansawel newyd | Plot 2 | Wyneb yn wyneb | 26.07.21 | | | Ie | Ie |
| 16 | Llansawel newyd | Plot 3 | Wyneb yn wyneb | 11.08.21 | | | Ie | Ie |
| 66 | Llansawel newyd | Plot 4 | Wyneb yn wyneb | 09.11.21 | | | Ie | Ie |
| 17 | Llansawel newyd | Plot 5 | Wyneb yn wyneb | 26.07.21 | | | Ie | Ie |
| 18 | Llansawel newyd | Plot 6 | Wyneb yn wyneb | 26.07.21 | | | Ie | Ie |
| 19 | Llansawel newyd | Plot 7 | ffôn | 07.09.21 | 28.09.21 | | Ie | Ie |
| 20 | Llansawel newyd | Plot 8 | ffôn | 07.09.21 | | | Ie | Ie |
| 21 | Llansawel newyd | Plot 9 | Wyneb yn wyneb | 03.08.21 | 11.08.21 | | Ie | Ie |
| 22 | Llansawel newyd | Plot 10 | Wyneb yn wyneb | 03.08.21 | 11.08.21 | | Ie | Ie |
| | Llansawel newyd | Plot 11 | Wyneb yn wyneb | 27.07.21 | | | Gwag | AMH |
| 23 | Llansawel newyd | Plot 12 | Wyneb yn wyneb | 27.07.21 | | | Ie | Ie |
| 24 | Llansawel newyd | Plot 13 | Wyneb yn wyneb | 26.07.21 | | | Ie | Ie |
| 25 | Llansawel newyd | Plot 14 | Wyneb yn wyneb | 25.08.21 | | | Ie | Ie |
| 26 | Llansawel newyd | Plot 15 | Wyneb yn wyneb | 25.08.21 | | | Ie | Ie |
| 27 | Llansawel newyd | Plot 16 | Wyneb yn wyneb | 18.08.21 | | | Ie | Ie |
| 28 | Llansawel newyd | Plot 17 | Wyneb yn wyneb | 11.08.21 | | | Ie | Ie |

| ID | Lleoliad | Rhif y Plot | Techneg cyfweld | Ymgais Gyfweld 1 | Ymgais Gyfweld 2 | Ymgais Gyfweld 3 | Holiadur wedi'i gwblhau neu ei wrthod | Holiadur wedi'i dderbyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 29 | Llansawel newyd | Plot 18 | Wyneb yn wyneb | 11.08.21 | | | Ie | Ie |
| 30 | Llansawel newyd | Plot 19 | Wyneb yn wyneb | 13.07.21 | | | Ie | Ie |
| 31 | Llansawel newyd | Plot 20 | Wyneb yn wyneb | 18.08.21 | | | Ie | Ie |
| 33 | Llansawel newyd | Plot 21 | Wyneb yn wyneb | 16.08.21 | | | Ie | Ie |
| 32 | Llansawel newyd | Plot 22 | Wyneb yn wyneb | 11.08.21 | | | Ie | Ie |
| 7 | Llansawel hen | Plot 1 | Wyneb yn wyneb | 26.07.21 | | | Ie | Ie |
| 4 | Llansawel hen | Plot 2 | Wyneb yn wyneb | 26.07.21 | 14.09.21 | | Ie | Ie |
| 3 | Llansawel hen | Plot 3 | Wyneb yn wyneb | 26.07.21 | | | Ie | Ie |
| 5 | Llansawel hen | Plot 4 | Wyneb yn wyneb | 26.07.21 | | | Ie | Ie |
| 2 | Llansawel hen | Plot 5 | Wyneb yn wyneb | 26.07.21 | | | Ie | Ie |
| 1 | Llansawel hen | Plot 6 | Wyneb yn wyneb | 26.07.21 | | | Ie | Ie |
| 6 | Llansawel hen | Plot 7 | Wyneb yn wyneb | 26.07.21 | | | Ie | Ie |
| 40 | Cae Garw | Plot 1 | Wyneb yn wyneb | 28.07.21 | | | Ie | Ie |
| | Cae Garw | Plot 2 | Wyneb yn wyneb | 28.07.21 | | | Gwag | AMH |
| | Cae Garw | Plot 3 | Wyneb yn wyneb | 28.07.21 | | | Gwag | AMH |
| 41 | Cae Garw | Plot 4 | Wyneb yn wyneb | 13.07.21 | 28.07.21 | | Ie | Ie |
| 43 | Cae Garw | Plot 5 | Wyneb yn wyneb | 01.09.21 | | | Ie | Ie |
| | Cae Garw | Plot 6 | Wyneb yn wyneb | 14.09.21 | | | Gwrthodwyd | AMH |
| 44 | Cae Garw | Plot 7 | Wyneb yn wyneb | 10.08.21 | | | Ie | Ie |
| | Cae Garw | Plot 8 | Wyneb yn wyneb | 13.09.21 | | | Gwrthodwyd | AMH |
| 45 | Cae Garw | Plot 9 | Wyneb yn wyneb | 01.09.21 | | | Ie | Ie |
| 46 | Cae Garw | Plot 10 | Wyneb yn wyneb | 11.08.21 | | | Ie | Ie |
| 47 | Cae Garw | Plot 11 | Wyneb yn wyneb | 10.08.21 | 13.09.21 | | Ie | Ie |
| 48 | Cae Garw | Plot 12 | Wyneb yn wyneb | 10.08.21 | | | Ie | Ie |
| | Cae Garw | Plot 13 | Wyneb yn wyneb | 19.09.21 | | | Gwrthodwyd | AMH |
| | Cae Garw | Plot 14 | Wyneb yn wyneb | 10.08.21 | | | Gwrthodwyd | AMH |

# Appendix C:  C - Log Cyfweliadau

| ID | Lleoliad | Rhif y Plot | Techneg cyfweld | Ymgais Gyfweld 1 | Ymgais Gyfweld 2 | Ymgais Gyfweld 3 | Holiadur wedi'i gwblhau neu ei wrthod | Holiadur wedi'i dderbyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 49 | Cae Garw | Plot 15 | ffôn | 13.07.21 | | | Ie | Ie |
| | Cae Garw | Plot 16 | Wyneb yn wyneb | 13.07.21 | | | Gwrthodwyd | AMH |
| 50 | Cae Garw | Plot 17 | Wyneb yn wyneb | 28.07.21 | | | Ie | Ie |
| 51 | Cae Garw | Plot 18 | Wyneb yn wyneb | 07.09.21 | 24.09.21 | | Ie | Ie |
| 52 | Cae Garw | Plot 19 | Wyneb yn wyneb | 10.08.21 | | | Ie | Ie |
| 53 | Cae Garw | Plot 20 | Wyneb yn wyneb | 10.08.21 | | | Ie | Ie |
| 54 | Cae Garw | Plot 21 | Wyneb yn wyneb | 10.08.21 | | | Ie | Ie |
| | Cae Garw | Plot 22 | Wyneb yn wyneb | 14.09.21 | | | Gwrthodwyd | AMH |
| | Cae Garw | Plot 23 | Wyneb yn wyneb | 13.09.21 | | | Gwrthodwyd | AMH |
| | Cae Garw | Plot 24 | Wyneb yn wyneb | 13.09.21 | 14.09.21 | | Gwag | AMH |
| 56 | Cae Garw | Plot 25 | Wyneb yn wyneb | 14.09.21 | | | Ie | Ie |
| 57 | Cae Garw | Plot 26 | Wyneb yn wyneb | 08.09.21 | | | Ie | Ie |
| 58 | Cae Garw | Plot 27 | Wyneb yn wyneb | 08.09.21 | 13.09.21 | | Ie | Ie |
| 59 | Cae Garw | Plot 28 | Wyneb yn wyneb | 13.08.21 | | | Ie | Ie |
| 60 | Cae Garw | Plot 29 | Wyneb yn wyneb | 13.07,21 | | | Ie | Ie |
| 61 | Cae Garw | Plot 30 | ffôn | 25.08.21 | | | Ie | Ie |
| | Cae Garw | Plot 31 | Wyneb yn wyneb | 13.07.21 | | | Gwag | AMH |
| | Cae Garw | Plot 32 | Wyneb yn wyneb | 01.09.21 | 14.09.21 | | Gwrthodwyd | AMH |
| | Cae Garw | Plot 33 | Wyneb yn wyneb | 01.09.21 | 14.09.21 | | Ie | Ie |
| 62 | Cae Garw | Plot 34 | Wyneb yn wyneb | 10.08.21 | | | Ie | Ie |
| 63 | Cae Garw | Plot 35 | Wyneb yn wyneb | 10.08.21 | | | Ie | Ie |
| | Cae Garw | Plot 36 | Wyneb yn wyneb | 13.09.21 | 15.09.21 | | Gwrthodwyd | AMH |
| 64 | Cae Garw | Plot 37 | Wyneb yn wyneb | 14.07.21 | | | Ie | Ie |
| 65 | Cae Garw | Plot 38 | ffôn | 13.07.21 | | | Ie | Ie |
| 8 | Brics a Morter | N/A | Wyneb yn wyneb | 16.09.21 | | | Ie | Ie |
| | Brics a Morter | N/A | Wyneb yn wyneb | 17.09.21 | 22.09.21 | 24.09.21 | Ie | AMH |
| 9 | Brics a Morter | N/A | Wyneb yn wyneb | 09.09.21 | | | Ie | Ie |
| 10 | Brics a Morter | N/A | Wyneb yn wyneb | 24.09.21 | | | Ie | Ie |
| 11 | Brics a Morter | N/A | Wyneb yn wyneb | 24.09.21 | | | Ie | Ie |
| 12 | Brics a Morter | N/A | Wyneb yn wyneb | 24.09.21 | | | Ie | Ie |
| 13 | Brics a Morter | N/A | Wyneb yn wyneb | 09.09.21 | | | Ie | Ie |

| ID | Lleoliad | Rhif y Plot | Techneg cyfweld | Ymgais Gyfweld 1 | Ymgais Gyfweld 2 | Ymgais Gyfweld 3 | Holiadur wedi'i gwblhau neu ei wrthod | Holiadur wedi'i dderbyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 34 | Brics a Morter | N/A | ffôn | 21.09.21 | | | Ie | Ie |
| | Brics a Morter | N/A | Wyneb yn wyneb | 21.09.21 | 05.10.21 | | Argyfwng teuluol – methu â chwblhau'r arolwg | AMH |
| 35 | Brics a Morter | N/A | Wyneb yn wyneb | 15.09.21 | | | Ie | Ie |
| 36 | Brics a Morter | N/A | ffôn | 16.08.21 | 15.09.21 | | Ie | Ie |
| 37 | Brics a Morter | N/A | ffôn | 15.09.21 | 29.09.21 | | Ie | Ie |
| | Brics a Morter | N/A | Wyneb yn wyneb | 14.09.21 | | | Wedi gadael ardal yr Awdurdod 7 mis yn ôl | AMH |
| 38 | Brics a Morter | N/A | ffôn | 23.09.21 | | | Ie | Ie |
| 39 | Brics a Morter | N/A | Wyneb yn wyneb | 24.09.21 | | | Ie | Ie |